Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teitl: Profiadau asesu ac arloesi yn sgil y pandemig: y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon

Astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

# Teitl: Profiadau asesu ac arloesi yn sgil y pandemig: y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon

Is-deitl: Astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

Awdur(on): Dr Alex Morgan[a]; Emmajane Milton[a]; Yr Athro David James[a]; Dr Judith Kneen[b]; Dr Jennie Clement[b]; Dr Anna Bryant[b]; Yr Athro Gary Beauchamp[b].

[a] *Prifysgol Caerdydd*

[b] *Prifysgol Metropolitan Caerdydd*

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

© Hawlfraint y Goron 2022 WG43988 ISBN 978 1 80391 790 0

# Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhestr o Dablau | 2 |
| Rhestr o Ffigurau | 3 |
| Rhestr Termau | 5 |
| Crynodeb Gweithredol | 6 |
| 1. Cyflwyniad a Chefndir | 9 |
| 2. Dyluniad a Dull | 19 |
| 3. Canfyddiadau | 29 |
| 4. Casgliadau | 82 |
| 5. Argymhellion | 87 |
| Cyfeiriadau | 89 |
| Atodiad A | 93 |
| Atodiad B | 98 |
| Atodiad C | 101 |
| Atodiad D1 | 105 |
| Atodiad D2 | 113 |
| Atodiad E1 | 122 |
| Atodiad E2 | 126 |

## Rhestr o dablau


Tabl 1: **Crynodeb o’r wybodaeth am y cyfranogwyr yn y cyfweliadau** 23

Tabl 2: **Rôl yr ymatebwyr i'r arolwg (dadansoddiad rhifyddol)** 25

Tabl 3: **Cyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (dadansoddiad rhifyddol)** 26

Tabl 4: **Ymatebion athrawon dan hyfforddiant (n=222) i'r cwestiwn: Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen ond yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod eu cymwysterau addysgu** 78

Tabl 5: **Ymatebion addysgwyr athrawon (n=158) i'r cwestiwn: ‘Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr ‘nodweddiadol’ yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod deilliannau terfynol y cymwysterau:** 80

Tabl 6: **Safle net sefydliadau yr ystyrir eu bod yn gyfrifol am weithio gydag athrawon newydd er mwyn eu cefnogi yn y dyfodol agos** 81

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: **Rôl yr ymatebwyr i'r arolwg (n=465)** 25

Ffigur 2: **Cyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (n=465)** 26

Ffigur 3: **Myfyrwyr AGA diweddar a phresennol: Canfyddiadau o'r effaith ar gyfanswm yr amser ar leoliad yn yr ysgol, yn ôl cyfanswm yr ymatebion (120 o ddiwrnodau a fwriadwyd yn wreiddiol) (n=223)** 47

Ffigur 4: **I ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant presennol a diweddar yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad: '*Rwy'n teimlo na chefais brofiadau hanfodol yn yr ysgol a fyddai wedi cyfrannu at fy sgiliau a/neu hyder fel athro fel arfer*' (n=223)** **54**

Ffigur 5: **Pa un o'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth oedd yr anoddaf i athrawon dan hyfforddiant presennol ac athrawon newydd gymhwyso ddangos tystiolaeth ohoni yn eu barn nhw (n=219)** 68

Ffigur 6: **Barn addysgwyr athrawon ysgol a SAU ar effaith cyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon (n=159)** 74

Ffigur 7: **I ba raddau roedd athrawon dan hyfforddiant presennol ac athrawon newydd gymhwyso yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys i gefnogi dysgwyr yn y grŵp oedran roeddent wedi hyfforddi i'w addysgu, yn enwedig o ran eu rolau wrth asesu dysgwyr (n=223)** 75

Ffigur 8: **Barn addysgwyr athrawon ysgol a SAU ar effaith cyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon, yn ôl cyfanswm yr ymatebion (n=159)** 76

Ffigur 9: **Barn addysgwyr athrawon ysgol a SAU ar effaith cyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon, yn ôl canran (n=159)** 76

Ffigur 10: **Ymatebion athrawon dan hyfforddiant (n=222) i'r cwestiwn: '*Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen ond yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod eu cymwysterau addysgu…*'** 77

Ffigur 11: **Ymatebion addysgwyr athrawon (n=158) i'r cwestiwn: *'Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr 'nodweddiadol' yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod deilliannau terfynol y cymwysterau*…'** 79

## Rhestr termau

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| BA | Baglor yn y Celfyddydau |
| BAME | Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol |
| BERA | Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain |
| DTh | Dylunio a Thechnoleg |
| SIY | Saesneg fel Iaith Ychwanegol |
| PYDd | Prydau Ysgol am Ddim |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| CDG | Cynnyrch Domestig Gros |
| GERM | Y Mudiad Diwygio Addysg Byd-eang |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 |
| PDG | Plant sy'n Derbyn Gofal |
| ANG | Athro Newydd Gymhwyso |
| OECD | Y Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| TAR | Tystysgrif Addysg i Raddedigion |
| PDP | Pasbort Dysgu Proffesiynol |
| SAC | Statws Athro Cymwysedig. |

## Crynodeb Gweithredol

- Diben y gwaith ymchwil oedd deall effaith newidiadau yn sgil y pandemig ar Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a'r goblygiadau i AGA yn y dyfodol. Felly, mae'n rhoi sylw i'r prif amgylcheddau dysgu dan sylw, h.y. ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch, a'r rhyngweithio rhyngddynt.
- Defnyddiodd yr astudiaeth ddulliau cymysg, gan gyfuno gweithdai datblygu ar y cyd, cyfweliadau ac arolwg ar-lein, er mwyn ymchwilio i brofiadau, addasiadau ac arloesi yn sgil y pandemig mewn ysgolion ac mewn AGA, a'u goblygiadau. Cynhaliwyd yr astudiaeth gyda chyfranogwyr o bob cwr o Gymru ac o bob partneriaeth AGA.
- Canfu'r gwaith ymchwil newidiadau allweddol i amgylchedd yr ysgol, gydag asesu'n symud o'r cyrion i le blaenllaw, a dirywiad mewn asesu ar gyfer dysgu. Er i ysgolion, athrawon, rhieni, plant a phobl ifanc ddangos llawer o wydnwch ac amynedd, cafodd arferion addysgegol eu gwanhau'n sylweddol. Hefyd, yn ogystal â'r ffaith bod anghydraddoldebau wedi dwysáu, gwelsom fân wahaniaethau yn yr effeithiau negyddol ar amrywiaeth eang o ddysgwyr.
- O fewn AGA, roedd gweithio mewn partneriaeth yn amlwg mewn ymatebion i'r pandemig. Fodd bynnag, bu lleihad difrifol yn yr amser a dreuliwyd gan fyfyrwyr AGA mewn ysgolion, wrth i ychydig dros 25 y cant o fyfyrwyr dreulio tua chwarter yr amser a fwriadwyd ar leoliad neu lai.
- Mae ein data yn dangos bod profiadau asesu wedi culhau'n ddifrifol. Er bod y ffaith bod dysgu ar-lein wedi ehangu'n gyflym wedi cynnig rhai cyfleoedd dysgu proffesiynol newydd, cafodd hyn ei orbwyso gan y cyfleoedd eraill ymarferol a gollwyd. Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at gyfres o bryderon cysylltiedig sydd gan athrawon dan hyfforddiant ac addysgwyr athrawon.
- Mae ein gwaith dadansoddi'n dangos bod athrawon dan hyfforddiant wedi cael eu hasesu mewn ffyrdd arloesol a chreadigol, ond bod rhesymau dros bryderu am ba mor ddigonol yw'r sail dystiolaeth sydd ar gael i lunio barn ynghylch cyrraedd safonau proffesiynol. Yn ogystal â hynny, mae ein data'n awgrymu ei bod yn debygol nad oes dealltwriaeth gyffredin na chytundeb ynglŷn â'r ffordd y dylai'r safonau newydd ar gyfer AGA, sef y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, gael eu rhoi ar waith neu eu harddangos. Hefyd,

arweiniodd addasiadau yn sgil y pandemig at newidiadau sylfaenol i'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei gynnwys yn rhaglenni'r athrawon dan hyfforddiant.

- Roedd addysgwyr athrawon, boed mewn ysgolion neu Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau), yn credu'n gryf bod y pandemig wedi cael effaith andwyol (neu hynod andwyol) ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon, ac roedd dros hanner hefyd o'r farn bod y cymwysterau a enillwyd gan ‘garfanau'r pandemig’ yn llai dilys na'r rhai a enillwyd gan garfanau blaenorol, fwy na thebyg.
- Cafwyd consensws ymhlith y cyfranogwyr mai ysgolion sy'n cyflogi athrawon newydd gymhwyso, Llywodraeth Cymru a phartneriaethau AGA (yn y drefn honno) oedd y sefydliadau a oedd yn bennaf cyfrifol am gefnogi athrawon newydd yr oedd y pandemig wedi tarfu ar yr AGA a gawsant.
- Ar ddiwedd yr astudiaeth gwneir pedwar argymhelliad, sef:

**Argymhelliad 1.**
**Dylai Llywodraeth Cymru (gan gydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia rhanbarthol, partneriaethau AGA ac ysgolion) fynd ati ar frys i arwain gwaith i lunio rhaglen barhaus, hyblyg ac ymatebol o gymorth wedi'i deilwra'n unigol i athrawon newydd gymhwyso. Dylai hyn bara o leiaf ddwy flynedd a thargedu athrawon o ddwy ‘garfan y pandemig’ sy'n dechrau gweithio.**

**Argymhelliad 2.**
**Mae angen i Lywodraeth Cymru (gan gydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg a chonsortia rhanbarthol) dalu sylw penodol ac ystyried yn ofalus sut y gellir helpu unigolion o ‘garfanau'r pandemig’ i gael swyddi yn y proffesiwn.**

**Argymhelliad 3.**

**Ar bob lefel o'r proffesiwn ac mewn partneriaethau AGA, dylai gwaith fynd rhagddo i feithrin gwell dealltwriaeth gyffredin o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a sut y gellir du defnyddio i gefnogi twf proffesiynol.**

**Argymhelliad 4.**

**Dylai ysgolion archwilio'r newidiadau y bu'n rhaid iddyn nhw eu hunain eu gwneud i arferion asesu o ganlyniad i'r pandemig ac ystyried i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'u gwerthoedd o ran addysg disgyblion. Lle bo ysgolion yn cymryd rhan mewn addysg athrawon a/neu'n cefnogi ANGau (Athrawon Newydd Gymhwyso), dylent hefyd ystyried effaith newidiadau o'r fath ar ffurfiant proffesiynol athrawon dan hyfforddiant ac athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd.**

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r gwaith ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn un o chwe phrosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar oblygiadau pandemig COVID-19 i ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru. Fe'i dyluniwyd mewn ymateb i alwad (Atodiad A) a oedd ar gael gyntaf ar 16 Mehefin 2020. Yn dilyn proses gyflym yn seiliedig ar Ddatganiadau o Ddiddordeb, dyfarnwyd y comisiwn ar 13 Gorffennaf 2020.

1.1 Ddechrau mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig byd-eang. Yn fuan wedi hyn, bu'n rhaid i bawb a oedd yn gweithio mewn systemau a sefydliadau addysg wneud newidiadau, a hynny'n aml ar fyr rybudd, mewn ymateb i amrywiaeth o gyfyngiadau cyfnewidiol a oedd yn ceisio ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd mawr. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn ceisio amddiffyn elfennau o'r drefn a'r rhyngweithio arferol a gafodd eu drysu'n sydyn iawn, tra oedd eraill yn llai uchelgeisiol (ond efallai'n fwy realistig) ac yn ceisio cynnal mathau â ffocws mwy pendant o gyswllt, cymorth, ymgysylltu a gweithgarwch. Yng Nghymru, gwnaed y fath newidiadau mewn cyfnod pan oedd diwygiadau addysgol pellgyrhaeddol a sylweddol yn cael eu cyflwyno a/neu'n dal i gael eu gwreiddio, gan gynnwys cwricwlwm newydd, addysg athrawon ar ei newydd wedd, safonau proffesiynol diwygiedig a Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2020). Roedd agweddau eraill ar waith diwygio arfaethedig, ym maes asesu, heb gael eu cyflwyno eto (gweler, er enghraifft, Cymwysterau Cymru, 2020).

1.2 Dyluniwyd yr astudiaeth er mwyn ymateb yn uniongyrchol i gwestiwn yn yr alwad, sef sut y dylai darpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi adlewyrchu'r ffordd orau o addasu trefniadau asesu er mwyn diwallu anghenion mewn cyd-destunau addysgu a dysgu sydd wedi newid. Wrth i'r astudiaeth fynd yn ei blaen, canfu'r tîm rywfaint o amwysedd yn y nod hwn, yn yr ystyr bod pennawd yr alwad yn rhoi ffocws clir ar ddarpariaeth AGA, ond ei bod yn ymddangos bod yr astudiaethau ymchwil unigol – a cheisiadau dilynol i ychwanegu at y cwestiynau ymchwil yn arbennig – yn gofyn am ffocws ar ddarpariaeth ysgolion. Er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sylw pendant i'r prif ffocws, penderfynodd y tîm mai teitl y prosiect fyddai *Profiadau asesu ac arloesi yn sgil y pandemig: y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon.* Mewn trafodaethau â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn ystod y prosiect, pwysleisiwyd

mai'r diben craidd oedd deall effaith newidiadau yn sgil y pandemig ar AGA a'r goblygiadau i AGA yn y dyfodol.  Ysgolion a SAUau (Sefydliadau Addysg Uwch) yw'r ddwy ran hanfodol o'r amgylchedd dysgu i'r rhai sy'n dysgu i fod yn addysgwyr proffesiynol, ac roedd yn bwysig archwilio newidiadau allweddol i'r amgylchedd dysgu hwnnw.  Gwnaethom hyn o safbwynt asesu yn bennaf.

## 1.3 Gwaith ymchwil perthnasol diweddar a blaenorol

Ceir llawer iawn o astudiaethau seiliedig ar ymchwil sy'n berthnasol i bryderon craidd y gwaith ymchwil hwn, ond mae gwaith â ffocws penodol ar effaith COVID-19 yn tueddu i fod yn gyfyngedig o ran dyfnder y ddealltwriaeth y gall ei chynnig. Yma rydym wedi canolbwyntio ar y tri maes ymchwil sydd fwyaf perthnasol yn ein barn ni.  Maent yn ymwneud â'r canlynol:

- effaith COVID-19 ar ddarpariaeth addysg, tegwch a lles dysgwyr;
- ffurfiant proffesiynol athrawon yng Nghymru;
- lle asesu o fewn addysgu a dysgu ac felly fel rhan allweddol o ddarpariaeth AGA.

*1.4 Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth addysg, tegwch a lles dysgwyr.*

Yn ystod 2020, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) daflen wybodaeth ar effaith COVID-19, gan ddefnyddio elfennau o'i ddata *Education at a Glance* arferol ar gyfer yr un flwyddyn (Schleicher, 2020).  Roedd y daflen hon yn pwysleisio, er bod y feirws wedi effeithio ar bobl waeth beth fo'u cenedligrwydd, lefel addysg, incwm neu rywedd, nad oedd yr un peth yn wir am ei ganlyniadau, sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y bobl fwyaf agored i niwed, ac nad yw addysg yn eithriad yn hyn o beth (:4). Mae'r cyflwyniad yn dweud:

> ‘The lockdowns in response to COVID-19 have interrupted conventional schooling with nationwide school closures in most OECD and partner countries, the majority lasting at least 10 weeks. While the educational community have made concerted efforts to maintain learning continuity during this period, children and students have had to rely more on their own resources to continue learning remotely through the Internet, television or radio. Teachers also had to adapt to new pedagogical concepts and modes of

delivery of teaching, for which they may not have been trained. In particular, learners in the most marginalised groups, who don't have access to digital learning resources or lack the resilience and engagement to learn on their own, are at risk of falling behind' (Schleicher, 2020: 4)

1.5 Ychydig a fyddai'n anghytuno â'r dadansoddiad cyffredinol hwn. Fodd bynnag, ni chaiff yr ail bwynt am anghydraddoldeb ei archwilio, ac yn syth wedyn ceir dehongliad economaidd cul sy'n dweud bod y newidiadau hyn yn gyfystyr â cholli traean o flwyddyn yn yr ysgol, gan ddatgan hefyd y bydd colli dysgu yn arwain at golli sgiliau, sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant i'r graddau y gallai cynnyrch domestig gros fod 1.5% yn is am weddill y ganrif ac y byddai cyfanswm y gost yn gyfwerth â 69% o Gynnyrch Domestig Gros (CDG) presennol gwlad nodweddiadol (:4). Er bod effeithiau economaidd COVID-19 o bwys mawr, mae'r math hwn o resymu cyfalaf dynol sy'n awgrymu bod dysgu yn cyfateb i ennill cyflog yn ddadleuol dros ben ac wedi cael ei herio am fod yn seiliedig ar safbwynt cul a gor-syml ar addysg, dysgu, anghydraddoldeb, natur marchnadoedd llafur ac, yn wir, pa mor ddefnyddiol ydyw o ran llywio polisi (e.e. Brown, Lauder a Cheung, 2020; Brown a James, 2020).

1.6 Yr hyn sy'n fwy defnyddiol efallai yng nghyd-destun yr adroddiad hwn yw bod dogfen OECD yn cynnig trosolwg sy'n seiliedig ar gipolygon ar yr ymatebion mewn gwahanol wledydd i'r angen i gynnig llwyfannau ar-lein, yn enwedig i bobl ifanc mewn ysgolion, gan nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol, er enghraifft rhwng y lefel o ymreolaeth a gadwyd gan ysgolion. Hefyd, ceir sylwadau defnyddiol ar ba mor barod oedd athrawon i weithio gyda dulliau digidol a'r cwestiynau sy'n codi yn sgil hyn o ran natur y datblygiad proffesiynol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

1.7 Mae rhai sylwadau sy'n seiliedig ar waith ymchwil yn crynhoi tystiolaeth gymhellol o'r ffaith bod anghydraddoldebau wedi gwaethygu wrth i newidiadau yn sgil COVID-19 gael eu gwreiddio. Mae Reay (2020), sy'n ysgrifennu am Loegr yn bennaf, yn dadlau bod y pandemig wedi amlygu diffygion hirsefydlog ym myd addysg. Un o'r rhain yw'r ffaith bod addysg yn cael ei gweld fel nwydd cyhoeddus/diben ynddo'i hun, yn hytrach na'i bod yn cael ei gweld yn bennaf – neu'n gyfan gwbl, hyd yn oed – fel rhywbeth sy'n cyfrannu at effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y farchnad lafur. Mae Reay yn dadlau bod yr ail o'r ddau wedi dod yn fwy cyffredin yn y drafodaeth ynghylch polisi. Diffyg arall yw'r duedd at breifateiddio, a welir mewn llawer o fesurau unioni'r llywodraeth ym meysydd addysg ac iechyd. Mae Reay yn dangos

sut mae'r anghydraddoldebau a oedd eisoes yn amlwg o ran mynediad at offer a chysylltedd technoleg gwybodaeth ymhlith plant a phobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol a Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) wedi gwaethygu. Er enghraifft:

> ‘When education goes online, the poorest, who are disproportionately from BAME backgrounds…are the most adversely affected…recent analysis of data from the 2018 Programme for International Student Assessment found that while more than 70% of advantaged secondary school students in the United Kingdom had access to online learning platforms, only 40% of their disadvantaged peers had the same access (OECD, 2020)’ (Reay, 2020: 313).

1.8 Mae Reay hefyd yn dyfynnu gwaith ymchwil sy'n dangos bod addysgu gartref yn golygu pethau gwahanol iawn i blant a phobl ifanc dan amgylchiadau gwahanol, a bod parodrwydd rhieni i'w plant ddychwelyd i'r ysgol yn gynnar yn amrywio ar hyd llinellau cyfoeth cymharol (gyda'r teuluoedd tlotaf yn llawer llai parod). Mae ei dadansoddiad yn awgrymu, er bod peidio â bod yn bresennol yn yr ysgol wedi amddifadu rhai plant difreintiedig o'u trefn arferol a phryd bwyd dyddiol, nad yw ysgolion bob amser wedi bod yn lleoedd cynnes a chroesawgar i blant eraill, yn wahanol i'r hyn yr hoffem ei dybio o bosibl. At hynny, bydd ysgolion yn amrywio i raddau helaeth mewn ffyrdd eraill: dangosodd astudiaeth gan Cullinane a Montacute (2020), er bod gan 60% o ysgolion preifat a 37% o ysgolion gwladol mewn ardaloedd cyfoethog lwyfannau ar-lein ar gyfer derbyn gwaith disgyblion, mai dim ond 23% o ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd â chyfleusterau o'r fath (Reay, 2020: 315).

1.9 Gan gydnabod pwysigrwydd posibl yr effeithiau ar les ac iechyd meddwl pobl ifanc, comisiynodd Llywodraeth Cymru Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth a allai lywio polisïau ym maes cymorth i blant oedran ysgol. Roedd yr Asesiad hwn yn seiliedig ar astudiaethau a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19, yn ogystal â'r llenyddiaeth ryngwladol ar drychinebau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ‘effeithiau posibl y cyfyngiadau symud ar lesiant disgyblion er mwyn llywio ystyriaethau o ran y cymorth y bydd ei angen pan fydd ysgolion yn ailagor, ac i ddeall a fydd gan ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd anghenion cymorth gwahanol’ (Williams, 2020: 8). Mae'r adroddiad yn nodi, er bod y rhan fwyaf o astudiaethau sy'n ymwneud â COVID-19 wedi'u cyfyngu gan absenoldeb data sylfaenol, eu bod, fodd

bynnag, yn cyfeirio at effeithiau penodol. Mae astudiaethau rhyngwladol yn awgrymu'r canlynol:

- Gall plant sy'n gaeth i'w cartrefi wynebu cyfraddau uwch o symptomau iselder a gorbryder.
- Ar y cyfan, mae ynysu'n peri mwy o bryder na chau ysgolion neu'r risg o haint i blant a'u rhieni. Gall ynysu arwain at gynnydd mewn problemau ymddygiad yn ogystal â rhai ymddygiadau rhag-gymdeithasol newydd ymhlith plant.
- Mae lles rhieni yn gysylltiedig â lles plant, gyda'r ail yn debygol o ddibynnu ar y cyntaf.

Mae astudiaethau yn y DU yn awgrymu'r canlynol:

- '…ymddengys fod plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn wynebu mwy o risg o syrthio y tu ôl â'u haddysg o gymharu â'u cymheiriaid', ac
- 'Roedd rhywfaint o'r ymchwil yn awgrymu bod plant yn y DU ag anghenion ychwanegol yn wynebu risg o fwy o anawsterau iechyd meddwl'
- 'Roedd tystiolaeth gyfyngedig yn awgrymu bod plant oedran ysgol uwchradd yn fwy tebygol o gael mwy o anawsterau iechyd meddwl a llesiant na phlant oedran ysgol gynradd' (:5)

*1.10 Ffurfiant proffesiynol athrawon yng Nghymru.*

Yn dilyn cyfres o adolygiadau allweddol (e.e. Tabberer, 2013; Donaldson, 2015; Furlong, 2015), ac fel rhan o gyfres lawer ehangach o ddiwygiadau sylfaenol, mae egwyddorion ac arferion newydd ar gyfer AGA yng Nghymru wedi cael eu sefydlu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r model yn arbennig am ei fod yn mabwysiadu gweithio mewn partneriaeth ac yn croesawu gwaith ymchwil (c.f. BERA/BSA, 2014). Mae hefyd yn gysylltiedig â phroses o ailgysyniadu dysgu proffesiynol a'r safonau cysylltiedig (Llywodraeth Cymru, 2018; 2019) sy'n symud i ffwrdd oddi wrth syniadau cynharach a mwy manwl o fesur.

1.11 Ceir toreth o waith ymchwil rhyngwladol sy'n dangos bod y broses o bontio o AGA i'r proffesiwn addysgu yn un gymhleth i athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd (Feiman-Nemser 2012; Hobson et al. 2009; Langdon et al. 2014). Hefyd, mae Waters et al. (2018) yn dadlau bod cysylltiad amlwg rhwng y dysgu proffesiynol a

gaiff athrawon newydd a'u gallu i gael effaith hirdymor a pharhaus o ansawdd da mewn ysgolion. Er mwyn cadw athrawon newydd a sicrhau eu bod yn tyfu'n broffesiynol, mae'n allweddol cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol a mentora o ansawdd da sy'n dilyn dull addysgiadol ac sy'n eu galluogi i ddysgu o'r profiadau addysgu y cânt eu trwytho ynddynt o ddydd i ddydd. Heb hyn, mae'n debygol y byddant yn teimlo bod y rôl yn eu llethu, a gall hyn gael effaith negyddol ar gyfraddau cadw (Milton et al. 2020).

1.12 Dylid cydnabod bod profiadau athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd yn debygol o amrywio'n fawr oherwydd natur ysgolion fel safleoedd cymhleth ar gyfer dysgu proffesiynol (Milton et al. 2020 :3), a ddisgrifir gan Langdon et al. (2017) fel rhai amlweddog (:6) ac fel rhan o systemau aml-haen (:2). Mae angen i brofiadau dysgu proffesiynol llwyddiannus i athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd gael eu cynnwys mewn diwylliannau ysgol cryf sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnig yr amodau ar gyfer trafod a dadbreifateiddio eu profiadau yn yr ystafell ddosbarth mewn ffordd sy'n helpu i'w hail-lunio a dysgu ohonynt. Fel rhan o hyn, mae dealltwriaeth gyffredin gyfoethog o safonau proffesiynol yn hanfodol er mwyn helpu athrawon dan hyfforddiant ac athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd i gymhathu yn y proffesiwn. Mae dealltwriaeth gyffredin o'r fath yn fodd i roi polisïau a gofynion codeiddiedig eraill mewn cyd-destun a'u dehongli fel eu bod yn gwneud synnwyr ymhlith normau a disgwyliadau arferion pob dydd yr ymdrinnir â nhw (Wenger, 2015).

1.13 Gall profiadau cynnar wrth hyfforddi ac fel Athro Newydd Gymhwyso (ANG) gael effaith hirdymor ar ffurfiant proffesiynol a hunaniaeth athrawon, a dylanwadu ar eu twf a'u datblygiad proffesiynol mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol wrth iddynt wynebu realiti ymuno â'r proffesiwn (Hobson a Malderez, 2013 :3). Yn aml, gall y gwahaniaeth rhwng eu realiti a'u delfrydau beri i athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd deimlo'n anghymwys ac fel bod angen iddynt ganolbwyntio ar ‘oroesi’ yn unig. Gall hyn, yn ei dro, eu hannog i fabwysiadu arferion sydd eisoes ar waith a chonfensiynau sefydledig yn ddigwestiwn ac, o bosibl, ildio i ddiogi'r ffordd bresennol o wneud pethau (Macbeath, 2019:  43).

1.14 Mae ymgysylltu cymdeithasol a chyfrannu at gymunedau ymarfer yn greiddiol i ffurfiant proffesiynol (Wenger, 1998). Yn ddelfrydol, dylai athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd gael cyfleoedd i rannu ac ystyried eu hymarfer ar y cyd ag eraill er mwyn dod yn arbenigwyr ymaddasol (Daly et al. 2020 :654), sy'n hanfodol er mwyn iddynt

ddatblygu ymhellach, mireinio eu hymarfer a diwallu anghenion dysgwyr. Gallai hyn fod yn fwy heriol byth yng nghyd-destun presennol pandemig COVID-19, sy'n dal i fynd rhagddo, pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â'r ffactorau eraill sy'n llywio'r cyd-destun presennol yng Nghymru, gan gynnwys faint o newid sylweddol ac uchelgeisiol sy'n digwydd yn y sector addysg; pwysau'r Mudiad Diwygio Addysg Byd-eang (GERM) sy'n dal i fodoli (Sahlberg, 2011) a'r ddynameg wleidyddol gyfnewidiol.

1.15 Mae heriau byd-eang o ran cadw a recriwtio athrawon wedi arwain at fwy o gonsensws ynghylch yr angen i gynnig dysgu proffesiynol parhaus mewn cyd-destun i athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd sy'n diwallu eu hanghenion fel athrawon newydd, yn eu helpu i feithrin arbenigedd ac ansawdd eu hymarfer o ran gwella profiadau dysgwyr (Cater, 2017; Sutcher et al., 2016; OECD, 2011).

1.16 Mae'r syniadau hyn yn cynnig safbwynt pwysig ar gyfer archwilio'r ymatebion i'r pandemig, o ran eu heffeithiau uniongyrchol a'u canlyniadau hirdymor tebygol a phosibl.

1.17 *Ffocws ar asesu.*

Mae dau brif reswm dros sicrhau bod asesu yn fater canolog mewn astudiaeth o effaith COVID-19 ar AGA. Y rheswm cyntaf yw bod asesu – hynny yw'r holl brosesau a systemau sy'n cyfrannu at ddidoli, rhestru, ardystio ac atebolrwydd – yn aml ar flaen y meddwl wrth ystyried y cwricwlwm ac addysgeg. Bydd hyn yn digwydd mewn trafodaeth leyg, trafodaeth broffesiynol a thrafodaeth ynghylch polisi, ac mae hefyd yn faes lle y ceir llawer o ymyrraeth polisi (Harrison et al., 2015). Yr ail reswm yw ei bod yn ymddangos mai asesu ffurfiannol (yn fwy penodol, *asesu ar gyfer dysgu*) yw'r mwyaf cyffredin o'r safbwyntiau addysgegol niferus a all lywio'r addysgu a'r dysgu ac sy'n angenrheidiol er mwyn dychmygu, cynllunio, deall a gwerthuso unrhyw weithgaredd sydd â diben addysgol.

1.18 Mae 100 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers y damcaniaethu dylanwadol cyntaf ynghylch rôl hollbwysig adborth wrth ddysgu, gan Bloom ac eraill (Wiliam, 2011). Noda Wiliam fod tuedd gyson i orsymleiddio'r term ‘adborth’ a'i ddefnyddio fel pe bai ond yn cyfeirio at wybodaeth a roddir i ddysgwyr. Er mwyn *bod* yn adborth, mae angen i'r wybodaeth fod mewn ‘dolen adborth’, lle y gall effeithio ar weithredoedd athrawon *a* dysgwyr yn y dyfodol. Gwnaeth Boud a Molloy (2013) bwynt tebyg

mewn perthynas â defnyddio'r cysyniad o adborth wrth asesu mewn addysg uwch a phroffesiynol, gan ddadlau bod rhywfaint o'i soffistigeiddrwydd cysyniadol gwreiddiol wedi cael ei golli yn y broses o'i drosi o feysydd fel peirianneg.

1.19 Yn y DU, daeth y cysyniadoli mwyaf cadarn o asesu ffurfiannol i'r amlwg tua dau ddegawd yn ôl, a chafodd effaith sylweddol a hirdymor ar bolisi addysg. Cadarnhaodd meta-adolygiadau a dadansoddiadau Black a Wiliam y gellid priodoli newidiadau trawiadol mewn dysgu mesuredig i'r ymdrech fwriadol i integreiddio asesu yn yr addysgu. Yn eu geiriau nhw:

> 'We use the general term assessment to refer to all those activities undertaken by teachers—and by their students in assessing themselves—that provide information to be used as feedback to modify teaching and learning activities. Such assessment becomes formative assessment when the evidence is actually used to adapt the teaching to meet student needs' (Black a Wiliam, 1998: 140)

1.20 Ar sail y gwaith hwn ac ystod o waith cysylltiedig, cyhoeddodd grŵp o arbenigwyr blaenllaw ar asesu, sef y *Grŵp Diwygio Asesu*, ei bod yn well ganddynt ddefnyddio'r term *asesu ar gyfer dysgu*, wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:

> '…the process of seeking and interpreting evidence for use by learners and their teachers to decide where the learners are in their learning, where they need to go and how best to get there' (Broadfoot et al., 2002: 2-3).

1.21 Er bod iddynt ystyron gwahanol, caiff y termau asesu ffurfiannol, asesu diagnostig ac asesu ar gyfer dysgu eu defnyddio'n gyfnewidiol weithiau. Y rheswm dros hyn yw am eu bod i gyd yn cyfeirio at faes pwysig o fewn cwmpas a chyfrifoldeb proffesiynol athrawon ac am y gallant gyd-fynd yn agos ag amrywiaeth o safbwyntiau addysgegol eraill sy'n llunio, yn llywio ac yn ysbrydoli ymarfer. Er enghraifft, mae'r cysyniad o 'sgaffaldio', sy'n deillio o waith Vygotsky, yn cynnig sail resymegol glir i'r athro dalu sylw cyson i'r hyn y mae'r dysgwyr yn ei ddeall ar y pryd ac addasu'r gweithgaredd â ffocws nesaf fel ei fod yn adeiladu ar y ddealltwriaeth honno ac yn gyraeddadwy gyda chymorth (gweler, er enghraifft, Malik a Wiseman, 2017). Neu, unwaith eto, bydd cysyniad cadarn o ymarfer myfyriol yn dibynnu ar arfarnu'n aml ac yn onest a yw'r addysgu'n cael ei lywio'n ddigonol gan anghenion presennol y dysgwyr (gweler, er enghraifft, Pollard, 2018). Bydd rhai cysyniadau o greadigrwydd, pan gânt eu cymhwyso at addysgu, yn dibynnu'n llwyr ar ddeall yn

iawn i ba raddau y mae'r dysgwyr yn deall rhywbeth ar y pryd (gweler, er enghraifft, Ashcroft a James, 1999). Am resymau tebyg, mae llawer o waith athronyddol, seicolegol a chymdeithasegol arall wedi talu sylw i le canolog cydberthnasau sy'n galluogi lefelau digonol o gyfathrebu ac ymddiriedaeth er mwyn i ddysgu llwyddiannus ddigwydd (e.e. Biesta, 2019; Boylan, 2010: Hall a Hall, 1988).

1.22 Yn amlwg, mae deall effaith newidiadau yn sgil y pandemig o amrywiaeth eang o safbwyntiau addysgegol y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon. Ar yr un pryd, er bod dehongliadau'n amrywio, ein barn ni yw bod arferion sy'n gysylltiedig ag asesu ar gyfer dysgu yn ddigon hawdd i addysgwyr proffesiynol newydd a sefydledig eu hadnabod fel eu bod yn cynnig ffocws defnyddiol wrth inni geisio deall natur a maint newidiadau i addysgu a dysgu.

### 1.23 Cwestiynau ymchwil cychwynnol

Mae Nodau ac Amcanion y gwaith ymchwil i'w gweld ar ddechrau'r alwad wreiddiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad A). Ar ôl gwneud addasiadau ar gais y cyllidwr ar ddechrau'r prosiect, man cychwyn y gwaith ymchwil oedd yr wyth cwestiwn ymchwil canlynol:

I. Pa ystod o newidiadau, addasiadau a datblygiadau arloesol yw'r prif dueddiadau yn yr addasiadau a wnaed mewn ysgolion yn ddiweddar i drefniadau asesu crynodol, ffurfiannol a diagnostig, a beth yw'r cysylltiad rhwng y rhain a'r dystiolaeth ymchwil sydd eisoes yn bodoli?

II. Beth yw goblygiadau posibl y newidiadau hyn i degwch a chyfleoedd i ddysgwyr, gan gynnwys mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg?

III. Beth yw'r heriau mwyaf i ddysgwyr, athrawon, arweinwyr ac ysgolion mewn perthynas ag asesu?

IV. A yw'r tarfu yn sgil COVID-19 wedi arwain at fathau newydd o asesu creadigol neu arloesol gan athrawon neu ysgolion, a beth yw'r cysylltiad rhwng y rhain a dysgu o bell a dysgu cyfunol?

V. Pa nodweddion o raglenni AGA sy'n gwneud y mwyaf i gefnogi dealltwriaeth a galluoedd athrawon dan hyfforddiant mewn perthynas ag asesu crynodol, ffurfiannol a diagnostig?

VI. Pa ddarpariaeth cwricwlwm ychwanegol a/neu estynedig sydd ei hangen mewn rhaglenni AGA er mwyn paratoi athrawon dan hyfforddiant ar gyfer dyfodol agos a nodweddir gan fathau ac arferion asesu newydd?

VII. Beth yw goblygiadau pob un o'r uchod i bolisi ac ymarfer mewn perthynas ag asesu crynodol, ffurfiannol a diagnostig ar gyfer (a chyda) athrawon dan hyfforddiant eu hunain?

VIII. Beth yw'r goblygiadau o ran ffurfiant proffesiynol a chyrraedd y safonau proffesiynol diwygiedig?

## 2. Dyluniad a Dull

2.1 Lluniwyd y gwaith ymchwil ar ddau gam, ond bu rhywfaint o oedi yn yr amserlen wreiddiol oherwydd anawsterau yn sgil COVID-19 a wynebwyd gan lawer o'r cyfranogwyr, yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio mewn ysgolion a'r rhai â phlant oedran ysgol. Roedd y **cam cyntaf** (y bwriadwyd ei gynnal o fis Gorffennaf 2020 tan fis Rhagfyr 2020 yn wreiddiol, ond a gafodd ei ymestyn tan fis Chwefror 2021) yn seiliedig ar ddata o ddwy bartneriaeth AGA yng Nghymru[1] a'r cyd-destun o ran y fframweithiau polisi, proffesiynol a rheoleiddio ehangach[2]. Roedd y cam hwn yn cynnig sylfaen dystiolaeth gyfoethog a manwl o newidiadau i arferion mewn AGA ac mewn ysgolion. Cafodd cydweithwyr mewn ysgolion yn y partneriaethau eu cynnwys o'r dechrau drwy'r gweithdai datblygu ar y cyd (gweler isod), gan adeiladu ar nod partneriaethau AGA yng Nghymru, sydd bellach yn nod cyffredin, sef meithrin gallu i wneud gwaith ymchwil, ac ymwybyddiaeth ohono, ym mhob rhan o'u strwythurau. Cafodd y mwyafrif o'r cyfweliadau lled-strwythuredig â thrawstoriad o'r rhanddeiliaid allweddol (gweler isod) eu cynnal ar y cam hwn. Un eithriad i hyn oedd y cyfweliadau a gynhaliwyd â myfyrwyr AGA presennol carfan 20/21 er mwyn caniatáu amser iddynt gael cymaint â phosibl o brofiad o AGA cyn cael cyfweliad.

2.2 Roedd yr **ail gam** (y bwriadwyd ei gynnal o fis Tachwedd 2020 tan fis Mawrth 2021 yn wreiddiol, ond a ddiwygiwyd i gael ei gynnal rhwng mis Ionawr a mis Ebrill) yn gorgyffwrdd â'r cyntaf ac yn defnyddio deilliannau'r cam cyntaf i fframio prosesau casglu data gyda thrawstoriad o'r rhanddeiliaid allweddol mewn trefniadau AGA cyfatebol ledled Cymru. Gwnaed hyn ar ffurf arolwg ar-lein ar gyfer myfyrwyr AGA (presennol a diweddar), a staff a oedd yn ymwneud â darpariaeth AGA (mewn SAUau ac ysgolion). Yn wreiddiol, roeddem yn rhagweld y byddem yn cynnal cyfweliadau pellach â rhanddeiliaid o'r fframweithiau polisi, proffesiynol a rheoleiddio ehangach: fel y digwyddodd pethau, roedd hyn y tu hwnt i'r adnoddau a oedd ar gael inni. Prif ddiben yr ail gam oedd ategu dyfnder y gwaith dadansoddi a ddatblygwyd ar y cam cyntaf, er mwyn inni feithrin dealltwriaeth o Gymru gyfan. Roeddem yn rhagweld y byddai'r ddau gam yn fodd i wneud gwaith dadansoddi

[1] Partneriaethau AGA yng Nghymru – partneriaeth rhwng prifysgol ac ysgolion sy'n cydweithio â'i gilydd i ddarparu addysg a datblygiad proffesiynol i athrawon dan hyfforddiant, er mwyn eu paratoi i weithio mewn ysgol.

[2] Fframwaith proffesiynol fel y'i deellir yn ôl y 'Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth' a fframwaith rheoleiddio fel y goruchwylir gan Cymwysterau Cymru sy'n rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru.

cadarn a fyddai'n cyflawni dau nod yr alwad, gan gynnig tystiolaeth seiliedig ar ymchwil o oblygiadau'r tarfu i ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi a gwneud cyfraniad mawr at allu a gweithgarwch ym maes ymchwil yn unol â'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol* a oedd wrthi'n cael ei rhoi ar waith.

2.3 Felly, dyluniwyd y prosiect yn seiliedig ar ddulliau cymysg (Johnson ac Onwuegbuzie, 2004; Torrance, 2012) gan gyfuno tri dull o gasglu data a oedd yn gysylltiedig mewn ffordd gynyddol ac iteraidd: gweithdai datblygu ar y cyd yn cynnwys grwpiau ffocws; cyfweliadau lled-strwythuredig; offeryn arolwg.

**2.4 Gweithdai datblygu ar y cyd.** Roedd gweithdai datblygu ar y cyd eisoes yn ffordd sefydledig o weithio yn y partneriaethau AGA ar faterion megis cynllunio darpariaeth ar y cyd. Anfonwyd gwahoddiad agored i ysgolion partner (o fewn un bartneriaeth) ac anfonwyd gwahoddiad ar wahân i ysgolion addysg arbennig i gymryd rhan yn y gweithdai datblygu ar y cyd ar ôl ysgol ar-lein. Roedd y cyfranogwyr fel arfer yn cynnwys staff o ysgolion partner arweiniol ac ysgolion ymarfer clinigol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â staff AGA SAUau. Ar gyfer y prosiect ymchwil hwn, cynhaliwyd tri gweithdy penodol, gyda chynrychiolaeth o'r sector uwchradd (n =4), y sector cynradd (n =6) a'r sector addysg arbennig (n =4). Roedd pob gweithdy'n para tua awr ac yn cael ei arwain gan aelod o'r tîm ymchwil. Mae copi o'r gwahoddiad/manyleb gan gynnwys y canllaw pwnc i'w weld yn Atodiad B. Roedd pob un o'r gweithdai yn cyflawni tair swyddogaeth bwysig, gan alluogi'r staff i wneud y canlynol:

(i) rhoi gwybod i'w gilydd ac i'r tîm ymchwil am natur y newidiadau mawr i agweddau allweddol ar ddarpariaeth yr ysgol;

(ii) rhoi gwybod i'w gilydd ac i'r tîm ymchwil am y newidiadau presennol a diweddar i fyfyrwyr AGA;

(iii) cyfrannu at lunio'r prosiect ymchwil wrth iddo ddechrau ffurfio, drwy lywio'r gwaith o ddatblygu'r offerynnau ymchwil.

Yn fwy cyffredinol, roedd y tîm hefyd o'r farn bod y ffaith bod gweithdai datblygu ar y cyd yn annog galluogedd athrawon (Sinnema et al., 2020) ac yn meithrin dysgu proffesiynol mwy ystyrlon (Egan et al., 2019) hefyd yn fantais. Er bod amseru'r broses gomisiynu, a'r ffaith iddi gael ei chynnal mor gyflym, yn golygu nad oedd modd dylunio prosiect a fyddai'n cynnwys penaethiaid / athrawon fel aelodau llawn

o'r tîm ymchwil, roeddem yn teimlo y gallai'r prosiect gyfrannu at y nodau tymor hwy o gyflawni mathau mwy cydweithredol o ymholi proffesiynol gan athrawon (Llywodraeth Cymru, 2020). I'r perwyl hwn, amlinellwyd y prosiect ymchwil mewn un Bwrdd Partneriaeth AGA a chafwyd trafodaeth fer a gyfrannodd at ei ddiwyg terfynol. Bwriedir i'r deilliannau gael eu rhannu a'u trafod yn uniongyrchol â phartneriaethau AGA.

2.5 Cynhaliwyd **Cyfweliadau Lled-strwythuredig** gyda sampl bwrpasol o'r rhanddeiliaid allweddol o fewn dwy bartneriaeth AGA, gan gynnwys arweinwyr ysgolion partner, athrawon a'r rhai mewn ysgolion â rolau AGA penodol (megis cydlynwyr, uwch-fentoriaid a hyrwyddwyr ymchwil AGA a rolau cyfatebol); staff AGA mewn SAUau gan gynnwys y rhai â chyfrifoldebau arwain, llywodraethu a chydlynu; athrawon dan hyfforddiant presennol a'r rhai a oedd wedi graddio'n ddiweddar. Mae'n bwysig nodi bod gan rai o'r rhanddeiliaid hyn brofiad uniongyrchol o fwy nag un bartneriaeth AGA, am fod gan lawer o ysgolion yng Nghymru drefniadau partneriaeth â sawl partneriaeth AGA ar yr un pryd (yn wir, roedd gan nifer o randdeiliaid yn ein sampl gysylltiadau â thair partneriaeth). Lluniwyd cwestiynau'r cyfweliadau mewn trafodaethau tîm a oedd yn ystyried deilliannau'r gweithdai datblygu ar y cyd yn uniongyrchol, ynghyd ag agweddau ar y canlynol: y sylwadau cyfredol ar effeithiau pandemig COVID-19 mewn ysgolion a SAUau; llenyddiaeth ymchwil ar ddysgu proffesiynol ac asesu mewn ysgolion a SAUau; ein cwestiynau ymchwil arfaethedig. Mae manylion y cyfweliadau i'w gweld yn Atodiad C. Lluniwyd y ffrâm samplu er mwyn cynnig trawstoriad cytbwys o'r cyfranogwyr (penaethiaid; arweinwyr pwnc/cyfnod; cydlynwyr/mentoriaid/hyrwyddwyr ymchwil AGA a rolau cyfatebol; myfyrwyr AGA presennol ac Athrawon Newydd Gymhwyso (ANGau) a staff rhaglenni AGA mewn SAUau o leoliadau meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig; lleoliadau daearyddol mewn perthynas ag awdurdodau lleol a chonsortia; ysgolion trefol/gwledig; statws categoreiddio cenedlaethol; cyfrwng iaith (Cymraeg/Saesneg/Dwyieithog) ac ysgolion ffydd. Ni fu modd inni wireddu'r uchelgais gwreiddiol o gynnal cyfweliadau â detholiad o ffigyrau cenedlaethol allweddol yn y fframweithiau polisi, proffesiynol a rheoleiddio; fodd bynnag, mae'r tîm wedi bod mewn cysylltiad ag unigolion perthnasol o Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn drwy gydol y broses, a hynny'n rhannol drwy gyfarfodydd a hwyluswyd gan Lywodraeth Cymru.

2.6 Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio naill ai *Zoom* neu *Teams*, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn para rhwng 45 a 60 munud. Cawsant eu cynnal yn newis iaith (Cymraeg/Saesneg) y cyfweleion. Roeddent yn lled-strwythuredig, yn yr ystyr bod yr holl gyfwelwyr yn defnyddio'r atodlenni (Atodiad C) i sicrhau bod y meysydd allweddol yn cael eu trafod, ond cafodd y cyfweleion eu hannog i drafod amrywiaeth ehangach o faterion o fewn y pwnc cyffredinol neu, o bryd i'w gilydd, gwnaethant ateb cwestiynau nad oeddent wedi cael eu gofyn eto. Am mai cyfweliadau ar-lein oedd y rhain, roedd yn anos cynhyrchu a chyfleu rhywfaint o'r data cyd-destunol a dieiriau cyfoethog y gellir eu casglu'n aml mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb (Thomas, 2013). Mae hefyd yn werth nodi bod y cyfweliadau ar-lein, yn achos y rhan fwyaf o'r cyfweleion a phob un o'r cyfwelwyr, o fewn dull o ryngweithio a oedd wedi llenwi'r rhan fwyaf o'u bywyd gwaith yn ystod y naw mis cyn hynny. Cafodd y cyfweliadau eu cyfieithu (lle bo angen) a'u trawsgrifio'n llawn a'u rhannu gan y tîm gan ddefnyddio cyfleuster storio ffeiliau diogel ar-lein. Cynhaliwyd cyfanswm o 38 o gyfweliadau, ac mae crynodeb ohonynt i'w weld yn Nhabl 1.

2.7 Er i'r cyfranogwyr gael eu dewis oherwydd eu rôl, fel y nodwyd yn Nhabl 1, mae'n werth nodi bod gan lawer ohonynt gyfrifoldebau eraill (e.e. mewn ysgol, penaethiaid a oedd yn uwch-fentoriaid, neu hyrwyddwyr ymchwil a oedd yn benaethiaid cynorthwyol ac ati). Felly, gwnaethant ymateb i'r cwestiynau (a hynny'n ddealladwy) mewn ffordd gyfannol yn hytrach na chyfyngu eu hymatebion i'w rolau penodol. Mewn dau gyfweliad, gofynnodd yr ysgolion am gael anfon dau aelod o staff i'r cyfweliadau am eu bod o'r farn y byddai hyn yn cyflwyno'r gwahanol safbwyntiau a oedd yn bwysig yn eu cyd-destun. Roedd hyn hefyd yn dangos eu bod yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith ymchwil a'u dymuniad i'w gefnogi.

**Tabl 1: Crynodeb o’r wybodaeth am y cyfranogwyr yn y cyfweliadau**


| Categori o gyfranogwyr | **Nifer** | Cyfnod (lle y bo'n berthnasol) | Saesneg | Cymraeg/Dwyieithog |
|---|---|---|---|---|
| Penaethiaid/Uwch-arweinwyr (Cynradd, Uwchradd, Arbennig) | 8 | Uwchradd | 2 | 1 |
| | | Cynradd | 3 | 1 |
| | | Arbennig | 1 | |
| Athrawon (Cynradd, Uwchradd, Arbennig) | 9 | Uwchradd | 3 | 1 |
| | | Cynradd | 2 | 1 |
| | | Arbennig | 2 | |
| Arweinwyr Partneriaethau AGA | 2 | | | 2 |
| Addysgwyr Athrawon mewn SAUau | 3 | | 1 | 2 |
| ANGau ac athrawon dan hyfforddiant 2019/20 | 4 | Uwchradd | 1 | 1 |
| | | Cynradd | 1 | 1 |
| Athrawon dan hyfforddiant 2020/21 | 5 | Uwchradd | | 1 |
| | | Cynradd | 4 | |
| Addysgwyr Athrawon mewn Ysgolion (Cynradd, Uwchradd, Arbennig) | 3 | Uwchradd | 1 | 1 |
| | | Cynradd | 1 | |
| Addysgwyr Athrawon mewn Ysgolion (Cynradd, Uwchradd, Arbennig) | 6 | Uwchradd | 2 | 1 |
| | | Cynradd | 3 | |
| | 40* | | | |

*Noder: Nid yw'r niferoedd a welir yma yn cyfateb yn union i gyfanswm nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd am fod dau achos lle y cymerodd dau aelod o staff o'r un lleoliad ran er mwyn cynnig safbwynt a rolau amgen ar gyfer y lleoliad hwnnw. Felly, cyfanswm nifer y cyfweliadau yw 38 er mai cyfanswm nifer y cyfranogwyr oedd 40.

2.8 Roedd dyluniad y **offeryn arolwg ar-lein** yn adeiladu ar ddadansoddiad cyntaf o ddata'r cyfweliadau. Roedd y cyfrwng ar ffurf arolwg *Qualtrics* byr ar-lein ar gyfer myfyrwyr AGA presennol a diweddar, a'r staff hynny yr oedd eu gwaith yn cynnwys darparu AGA mewn SAUau ac mewn ysgolion. Cafodd ei ddosbarthu drwy bob un o'r partneriaethau AGA ledled Cymru, ar ôl cyfathrebu'n uniongyrchol ac yn bersonol a dod i gytundeb â staff arweiniol ym mhob un o'r partneriaethau AGA. Hefyd, cafodd ei rannu drwy amrywiaeth o rwydweithiau sefydledig eraill ledled Cymru gan gynnwys aelodau o Gynghrair Ymchwil Addysg SAU Cymru (WHERA), consortia rhanbarthol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a changen Cymru'r Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol, a thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol e.e. Twitter. Nod y dull hwn oedd ceisio sicrhau'r

gyfradd ymateb uchaf posibl ar adeg pan oedd gofyn i'r sector gwblhau arolygon addysg eraill mewn perthynas â COVID-19. Roedd yr arolwg yn casglu data demograffig cyd-destunol ac yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau yn seiliedig ar agweddau a phrofiadau a chwestiynau gwerthusol a oedd yn gofyn am ymatebion mewn categorïau neu ar raddfa Likert, a chwestiynau testun agored. Roedd y cwestiynau testun agored yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr roi ymateb manylach na'r awgrymiadau penodol yn y cwestiynau ar sail graddfa, yn ogystal ag unrhyw sylwadau ychwanegol a oedd ganddynt ar y materion a godwyd. Hefyd, yn ogystal â chwestiynau cyffredinol i'r holl ymatebwyr, roedd yr arolwg yn cynnwys is-gwestiynau er mwyn archwilio cyd-destunau penodol athrawon dan hyfforddiant, addysgwyr athrawon neu staff mewn ysgolion. Dyluniwyd yr arolwg i gael ei gwblhau'n eithaf cyflym, sef pwynt a bwysleisiwyd gennym yn y gwahoddiad er mwyn annog pobl i ymateb. Mae copi o'r offeryn arolwg ynghyd â'r gwahoddiad cyffredinol i'w gweld yn Atodiadau D1 a D2. Yn rhannol er mwyn osgoi gwrthdaro ag ymarferion eraill roeddem yn ymwybodol ohonynt i gasglu data ar lefel Cymru gyfan, gwnaethom amseru'r arolwg fel ei fod yn cael ei gynnal mor hwyr â phosibl yn ein prosiect ymchwil, gan ei anfon yn ystod y pythefnos cyn Pasg 2021. Cafwyd cyfanswm o 465 o ymatebion. Mae Ffigur 1 isod yn dangos dadansoddiad cychwynnol o'r rhain fesul rôl yr ymatebydd, ac mae Tabl 2 yn dangos y dadansoddiad rhifyddol cysylltiedig. Mae Ffigur 2 isod yn dangos eu dosbarthiad drwy'r ddarpariaeth/partneriaethau AGA yng Nghymru, ac mae Tabl 3 yn dangos y dadansoddiad rhifyddol cysylltiedig.


**Ffigur 1: Cyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul rôl (n=465)**




**Tabl 2: Rôl yr ymatebwyr i'r arolwg (dadansoddiad rhifyddol)**

| Gosodiad | Canran | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Rwy'n fyfyriwr ar raglen addysg athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd | 50% | 232 |
| Cwblheais raglen addysg athrawon yng Nghymru yn ystod haf 2020 | 6% | 27 |
| Rwy'n addysgwr athrawon mewn sefydliad addysg uwch | 7% | 34 |
| Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwy'n ymwneud yn agos ag addysg athrawon (e.e. fel mentor, cydlynydd neu hyrwyddwr ymchwil AGA) | 37% | 172 |
| Cyfanswm | 100% | 465 |

**Ffigur 2: Cyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (n=465)**




**Tabl 3: Cyfanswm nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (dadansoddiad rhifyddol)**

| **Partneriaeth AGA** | **Canran** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| CaBan (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer) | 11% | 52 |
| Yr Athrofa: Partneriaeth Dysgu Proffesiynol (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin ac Abertawe) | 24% | 110 |
| Partneriaeth Caerdydd | 42% | 195 |
| Partneriaeth AGA Aberystwyth | 2% | 11 |
| Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe | 2% | 10 |
| Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru | 17% | 78 |
| Y Brifysgol Agored | 2% | 9 |
| Cyfanswm | 100% | 465 |

## 2.9 Dadansoddi data

Roedd sawl cam i'r gwaith o ddadansoddi'r cyfweliadau, a'r cam cyntaf oedd darllen drwy'r trawsysgrifau a'u cymharu â'r themâu a gododd yn y gweithdai datblygu ar y cyd gwreiddiol. Ar gamau diweddarach, aeth aelodau arbenigol o'r tîm ati i ddarllen yr holl drawsysgrifau er mwyn dewis yr hyn y byddent yn tynnu sylw ato mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil gwreiddiol, gan arwain at drafodaeth rhwng y tîm am nodiadau dadansoddol drafft lle roedd cyfle i'w cadarnhau a'u herio. Roedd y broses hon o ddadansoddi ansoddol yn seiliedig ar waith tîm a 'chymharu cyson' sy'n rhan o ddamcaniaeth seiliedig (Strauss a Corbin, 1990; Thomas a James, 2006) ac ar ganllawiau cyffredinol ar ddadansoddi ansoddol (e.e. Hammersley ac Atkinson, 2019). Roedd y gwaith dadansoddi thematig a wnaed fel grŵp yn cynnwys gwiriadau rhwng yr aelodau er mwyn cadarnhau dibynadwyedd. Er bod y broses wedi arwain at gyfrif y mae aelodau'r tîm yn ei gymeradwyo fel unigolion ac ar y cyd, mae'n werth nodi ei bod yn anos dadansoddi data ansoddol fel tîm ar-lein o gymharu â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd y cydweithio a oedd eisoes yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o aelodau'r tîm o gymorth mawr i'r broses, yn ogystal â lefel dda o ymddiriedaeth sefydledig a nodweddion systematig megis cyfarfodydd tîm aml a nodiadau clir yn crynhoi'r hyn a gytunwyd ynddynt (Fernald a Duclos, 2005). Cafodd data'r arolwg eu dadansoddi drwy ddulliau disgrifiadol arferol, gyda rhai elfennau o groesdablu.

## 2.10 Cymeradwyaeth foesegol a rhannu data

Cyflwynwyd y prosiect ymchwil i Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ar 22 Medi 2020 a chafwyd ymateb ffafriol ar 20 Hydref 2020. Mae'r daflen wybodaeth i gyfranogwyr a'r ffurflenni cydsynio i'w gweld yn Atodiad E. Craffwyd ar ystyriaethau moesegol allweddol megis materion yn ymwneud â recriwtio cyfranogwyr, cofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth, hawliau cyfranogwyr i fod yn ddienw ac optio allan ar unrhyw gam o'r broses nes i'r gwaith ymchwil gael ei gyhoeddi a threfniadau storio data ymchwil yn unol â chanllawiau Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) 2018 a pholisïau Prifysgol Caerdydd mewn perthynas â moeseg ac wedyn cawsant eu nodi gan Brifysgol Metropolitan

Caerdydd. Cafodd Cytundeb Cydweithio sy'n cynnwys cymalau yn ymwneud â rhannu data ei lunio ym mis Chwefror 2021 a'i lofnodi gan y ddwy brifysgol.

2.11 **Tîm ymchwil**

Cafodd aelodau'r tîm ymchwil eu dewis o blith Bwrdd Cynghori sefydledig Partneriaeth AGA Caerdydd, sef y brif drefn ar gyfer cyfoethogi gweithgarwch, ymwybyddiaeth a chymhwyso ym maes ymchwil o fewn strategaeth a gweithrediad Partneriaeth AGA Caerdydd. Roedd yn cynnwys arbenigedd a phrofiad ar lefel uchel yn y meysydd canlynol: ymchwil i asesu; dylunio, darparu ac arwain addysg athrawon; ymchwil i addysg athrawon; arbenigedd cyfrwng Cymraeg; dysgu proffesiynol pellach; arwain gwaith gyda hyrwyddwyr ymchwil ysgolion; arweinyddiaeth ac asesu ansawdd ym maes ymchwil. Aelodau'r tîm oedd: Dr Alex Morgan (Prifysgol Caerdydd); Emmajane Milton (Prifysgol Caerdydd); Yr Athro David James (Prifysgol Caerdydd); Dr Judith Kneen (Prifysgol Metropolitan Caerdydd); Dr Jennie Clement (Prifysgol Metropolitan Caerdydd); Dr Anna Bryant (Prifysgol Metropolitan Caerdydd); Yr Athro Gary Beauchamp (Prifysgol Metropolitan Caerdydd).

## 3. Canfyddiadau

3.1 Fel y nodwyd yn yr adran ragarweiniol, cafodd y rhestr o gwestiynau ymchwil ei hymestyn yn ystod y trafodaethau cynnar, gan roi ffocws ehangach nag a gynigiwyd yn wreiddiol. Er i ddata gael eu casglu mewn perthynas â phob un o'r cwestiynau ymchwil (ac mae'r holl gwestiynau ymchwil yn cyfrannu at y gwaith dadansoddi a gyflwynir), mae'r adroddiad terfynol hwn yn glynu wrth nodau ac amcanion gwreiddiol Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad A) ac felly ei brif ffocws yw *deall effaith newidiadau yn sgil y pandemig ar AGA a'r goblygiadau i AGA yn y dyfodol.* Ysgolion a SAUau yw'r ddwy ran hanfodol o'r amgylchedd dysgu cyffredinol i'r rhai sy'n dod yn athrawon, ac roedd yn bwysig disgrifio a deall newidiadau allweddol i'r amgylchedd dysgu hwnnw. Gwnaethom hyn o safbwynt asesu yn bennaf.

3.2 Felly, mae'r adran hon wedi'i rhannu'n dair prif ran. Yn rhan un, cyflwynwn ddadansoddiad o newidiadau allweddol i amgylchedd yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu. Yn rhan dau, archwiliwn sut y gwnaeth y newidiadau hyn, ynghyd â'r rhai mewn SAUau, newid natur AGA. Yn rhan tri, ceisiwn wneud synnwyr o'r holl newidiadau a goblygiadau hyn gan ystyried rhai cysyniadau allweddol a gyflwynwyd yn gynharach, gan gynnwys tegwch, ffurfiant proffesiynol athrawon ac asesu.

**3.3 Canfyddiadau rhan un – Newidiadau allweddol i amgylchedd yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu**

Wrth geisio deall y newidiadau allweddol i amgylchedd yr ysgol ac yn enwedig mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu, mae angen cydnabod natur gymhleth ac amlweddog yr anghydraddoldebau a wynebir gan ddysgwyr. Dywedodd y cyfweleion fod yr anghydraddoldebau hyn wedi mynd yn llawer mwy difrifol a chyffredin o ganlyniad i'r pandemig. Yn sicr, roedd y cyfweleion yn glir bod y pandemig wedi cael effaith arbennig o negyddol ar ddysgwyr a oedd eisoes yn ddifreintiedig, a hynny yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud ac ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Rhoddwyd gwybod am nifer o fân wahaniaethau hefyd, gan gynnwys:

1. Roedd cymaint o wahanol ffactorau unigol yn effeithio ar y gwahaniaethau rhwng profiadau dysgwyr fel bod staff ysgolion yn teimlo ei bod yn anodd gweld unrhyw batrwm cyffredinol yn hyn o beth.
2. Nid oedd yn ymddangos bod y nodweddion sy'n tueddu i roi mantais mewn lleoliadau addysgol fel arfer (megis dosbarth cymdeithasol, gallu gwybyddol, lefelau uchel o ddiddordeb a chymorth gan rieni, myfyrwyr galluog a thalentog) mor amddiffynnol mewn perthynas â phrofiadau dysgwyr yn ystod y pandemig hyd yma.
3. Credai'r cyfranogwyr fod llawer o amrywiadau mewn categorïau cyfarwydd megis Prydau Ysgol am Ddim (PYDd), Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) ac ati, gyda rhai disgyblion yn rhagori, rhai'n gwneud fawr ddim cynnydd os o gwbl, a rhai'n llithro'n ôl yn eu dysgu.
4. Roedd ymateb pob ysgol yn wahanol, yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau cymhleth a chydgysylltiedig a waethygwyd gan y patrymau unigol parhaus o darfu a wynebai disgyblion a/neu ddosbarthiadau y bu angen iddynt hunanynysu a'r effaith a gafodd hyn ar barhad i ddysgwyr.

3.4 Daeth y themâu hyn i'r amlwg mewn sawl un o'r cyfweliadau, fel y gwelir yn y dyfyniadau canlynol sydd wedi'u grwpio:

> ‘roedd yr amrywiadau'n anghredadwy... pan oeddent yn siarad am rai o'r profiadau [mewn ysgolion] ... o gymharu â'r gweddill, yna gallech weld bod

gwahaniaeth eithaf mawr. Ac rwy'n credu fy mod wedi cael fy synnu i raddau a dweud y gwir... gan y gwahaniaethau.'

*Uwch-arweinydd Ysgol Uwchradd*

'mae'n bwysig bod yr ysgolion yn adnabod y plant sydd wedi mynd ar ei hôl hi. Nid o reidrwydd y rhai sy'n cael cymorth beth bynnag am fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ond y plant na fyddech yn ymwybodol ohonynt cyn y cyfyngiadau symud o bosibl o ran bod angen iddynt gael hwb bach ... Fel ysgol cyfrwng Cymraeg byddwn yn dweud [bod hyn wedi cael effaith andwyol ar] eu hiaith ... Byddwn yn bryderus pe baem yn cael cyfnod arall o gyfyngiadau symud.'

*Uwch-arweinydd Ysgol Gynradd, Cyfrwng Cymraeg*

'[Mae gennym] lawer o rieni proffesiynol sy'n gweithio. Roeddem yn ysgol hwb ... ac roedd gennym blant yma o 11 o ysgolion gwahanol. Ond gwnaethom geisio gwneud eu dysgu gartref gyda nhw. Rwy'n gwybod nad oedd disgwyl hynny ond roeddem yn teimlo bod y plant hyn yn colli allan oherwydd, druan ohonynt, roedd eu rhieni ar y rheng flaen.'

*Pennaeth Ysgol Gynradd*

'yn ein swigod, pan fyddai rhywun wedi'i ddal, byddai'r swigod i ffwrdd. Felly, i ddechrau, swigod grwpiau blwyddyn oedd gennym.Felly pe bai un plentyn yn mynd, byddai'r 220 i gyd yn mynd. Wedyn roeddem yn lwcus yng Nghyfnod Allweddol 3 – gwnaethom rannu'n swigod grwpiau hanner blwyddyn – ond tua mis Rhagfyr, rwy'n credu, pan wnaethom orffen mewn gwirionedd, a gwnaethom orffen yn gynnar, roedd gennym un grŵp blwyddyn a hanner ar ôl yn yr ysgol.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

### *3.5 Asesu mewn ysgolion yn symud o'r cyrion i le blaenllaw*

O fis Mawrth tan fis Gorffennaf 2020, ynghyd â nodweddion a phrosesau dysgu beunyddiol eraill, bu tarfu sylweddol ar drefniadau asesu a chawsant eu gwthio i'r cyrion ar gyfer y mwyafrif o'r dysgwyr mewn ysgolion. Mewn llawer o achosion,

roedd asesu bron â diflannu am fod rhaid i athrawon flaenoriaethu cadw mewn cysylltiad, lle dysgwyr a helpu disgyblion a theuluoedd i fynd ar-lein:

> ‘Yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf y llynedd, rwy'n credu, roedd cymaint o'r gwaith a gafodd ei gynllunio yn ymwneud i raddau helaeth â chefnogi lles disgyblion a rhieni.’

*Pennaeth Ysgol Gynradd*

> ‘...yn syml cafodd unrhyw iPads a oedd gennym yn yr ysgol, unrhyw liniaduron yn yr ysgol, eu hanfon allan. Aethant allan i'r holl blant. Felly gwnaethom yn siŵr bod gan bob teulu o leiaf un ddyfais yn y cartref...y gallent ei defnyddio. Ond, eto, pan fydd tri phlentyn mewn teulu...Byddant yn ei rhannu.’

*Uwch-arweinydd Ysgol Uwchradd*

3.6 O fis Medi 2020 ymlaen, ymddengys fod y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu gwneud ymdrech ar y cyd i ddeall a gwerthuso effaith y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ar ddysgwyr, er mwyn deall ‘ble roeddent arni’ a'r hyn roedd angen ei wneud i'w helpu i symud ymlaen. Disgrifiodd llawer o'r cyfweleion mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd bwyslais newydd a gwahanol ar asesu, yn cael ei ysgogi gan yr angen i gael data er mwyn gallu llunio barn, yn fwy na'r angen i gynllunio a threfnu'r dysgu. Mewn cyd-destunau cynradd, cyfeiriodd arweinwyr at gynnydd mewn pwyslais ar asesu oherwydd yr angen i ddeall ‘ble roedd eu dysgwyr arni’ a llywio cynlluniau strategol ar gyfer dal i fyny. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd roedd y newid hwn yn fwyaf amlwg, lle roedd yn ymddangos bod y newid i asesu mewn canolfannau yn golygu bod dysgwyr yn cael eu hasesu'n amlach ac yn fwy dwys. Dywedodd rhai aelodau o staff a myfyrwyr fod asesu bellach yn gyson a heb ei wahaniaethu, gan gymylu'r gwahaniaethau rhwng dulliau asesu diagnostig, ffurfiannol a chrynodol.

3.7 Mae'r ffaith bod y ffocws ar asesu wedi dwysáu yn llawer mwy na newid mewn un agwedd yn unig ar ddarpariaeth a phrofiad, ac mae'n rhan o newid ehangach a sylfaenol yn natur addysgu a dysgu. Clywsom am rai disgyblion mewn cyd-destunau uwchradd a oedd bellach yn credu ei bod yn debygol y byddai *pob* darn o waith a wneir yn cyfrannu at asesiadau crynodol, gan olygu eu bod yn gyndyn o ‘roi cynnig arni’ oherwydd y risg y byddent yn ‘gwneud camgymeriad’:

> 'Rydym wedi bod yn ceisio cael y plant i ddeall ers oesoedd ei bod yn iawn gwneud camgymeriadau ac mai dyna sut mae dysgu.  Ond nawr mae cymaint yn y fantol wrth wneud camgymeriad...'
>
> *Athro Ysgol Uwchradd*

3.8 Mewn lleoliadau cynradd, roedd yr ymatebion yn dangos amrywiaeth o ganlyniadau, gan gynnwys i'r disgyblion hynny ar oedd wedi bod yn gweithio'n ddwys gyda'u rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud. Er i rai plant ddychwelyd i'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol, roedd gan rai eraill amharodrwydd o'r newydd i 'wneud camgymeriadau', a hynny efallai oherwydd dulliau addysgegol yn y cartref a oedd yn eu hannog i beidio â mentro a dysgu o gamgymeriadau:

> '...gallwch weld y nerfusrwydd, fel petaent yn gofyn 'a allaf wneud hyn?'  'A allaf wneud camgymeriad?'  Ac am ein bod yn ceisio sicrhau diwylliant o...mae'n iawn, mae'n beth da gwneud camgymeriadau...  os byddwch yn gwneud camgymeriad, byddwch gam yn nes at ddysgu...nid wyf yn credu bod rhieni, neu bob un o'r rhieni, yn gallu cyfleu hynny i'w plant...ac roeddent yn mynd ychydig bach yn fwy rhwystredig nag y byddwn ni'n ei wneud fel gweithwyr proffesiynol, fwy na thebyg. Felly rydym wedi gweld ychydig bach yn fwy o amharodrwydd, a bu'n rhaid inni weithio ar ein hethos yn yr ystafell ddosbarth eto er mwyn iddynt ddysgu ei bod yn iawn.  'Rwyt ti'n gwneud yn dda, beth am roi cynnig arni mewn ffordd wahanol.  Beth am roi cynnig ar ddull gwahanol'...ac nid yw hynny'n adlewyrchu'n wael ar y rhieni o gwbl.  Gwnaethant eu gorau glas.'
>
> *Athro Ysgol Gynradd*

3.9 Mae'n ymddangos bod y newid cyflym mewn amgylchiadau a'r posibiliadau a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi llywio newidiadau i arferion a chanfyddiadau mewn perthynas ag asesu. Credwn ei bod yn debygol y gall hyn fod yn arwydd o rywbeth llawer ehangach a dyfnach a achoswyd gan newidiadau i brofiadau o ddeialog, lle ffisegol a chydberthnasau – sydd wedi arwain at newid mewn pwyslais o ran natur addysgeg a'r cysyniadoli gweithredol o'r dysgu ei hun.

3.10 Mae cau ysgolion yn y lle cyntaf a'r angen parhaus am ddarpariaeth ar-lein, ynghyd ag arferion cadw pellter cymdeithasol, wedi arwain at ddiffyg deialog a thrafodaeth wyneb yn wyneb. Daw'r rhain i'r amlwg yn aml yn ein data fel agweddau heriol ar yr arferion asesu a fabwysiadwyd yn ystod ac yn syth ar ôl cyfnodau o gyfyngiadau

symud y pandemig, ac mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli newid gorfodol i ffwrdd oddi wrth arferion a oedd ar waith cyn y pandemig, a oedd yn berthynol, yn ddeialogaidd ac yn gwneud defnydd penodol o le. Cafwyd cydnabyddiaeth fod asesu ffurfiannol wyneb yn wyneb yn cynnwys ‘cael ymdeimlad o bobl’ a'u ‘darllen’, a bod yr ‘amgylchedd rhithwir’ newydd wedi effeithio ar yr agwedd berthynol hon:

> ‘Er enghraifft, mae cadarnhau dealltwriaeth mewn ystafell yn ffordd ffurfiannol, gyflym iawn, ond mae gwneud hynny mewn amgylchedd rhithwir lle y byddwch yn cael gwared ar rywfaint o'r ymdeimlad yn yr ystafell, yn cael gwared ar rywfaint o'r gallu i ddarllen wynebau pobl. Ar ben hynny, mae'n bosibl...rwy'n credu ei fod yn gwneud asesu yn ei gyfanrwydd yn llawer mwy heriol.’

*Arweinydd Asesu Ysgol Uwchradd*

3.11 Myfyriodd rhai cyfweleion ar y ffaith bod colli lle ffisegol yn yr ystafell ddosbarth a chreu lleoedd rhithwir yn arwain at heriau i ddisgyblion ac athrawon sy'n ceisio ymgymryd â deialog a thrafodaeth:

> ‘Rydym yn marcio'r darnau o waith sy'n cael eu lanlwytho, ond nid yw'r un peth. Pe baech yn yr ysgol...byddech yn clywed y sgyrsiau sy'n digwydd, ond nid yw hynny'n bosibl...a hoffwn ofyn...cwestiwn...i bob plentyn er mwyn gweld ble maent arni, ond mae llawer o blant yn anghyfforddus yn siarad ar y cyfrifiadur. Efallai y bydd un (plentyn) yn ddihyder iawn, felly ni fyddwch yn gofyn yn uniongyrchol iddo, felly nid wyf yn credu y bydd yn cael y profiad, oherwydd...byddwch yn colli allan ar yr hyn y gallwch ei glywed... (ac fel arfer) byddwch yn dysgu cryn dipyn drwy wrando ar asesiadau gan gyfoedion. Felly mae'n wahanol iawn, iawn. Rydym yn marcio'r gwaith, maent yn cael adborth, maent yn gwneud hynny i gyd, ond nid yw'r un peth.

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.12 Siaradodd lleiafrif o athrawon am achosion lle roedd disgyblion sydd fel arfer yn gyndyn o gymryd rhan ar lafar yn yr ysgol yn gwneud sylwadau ac yn ymateb yn amlach i gynnwys gwersi ar-lein nag y gwnaethant erioed mewn ystafelloedd dosbarth go iawn. Priodolwyd hyn i'r gallu i gyfrannu'n ddienw, a oedd yn lleihau'r risg, yn nhyb y myfyrwyr hyn, o ymddangos yn rhy wybodus o flaen eu cyfoedion.

Fodd bynnag, ac mewn cyferbyniad i hynny, clywsom y duedd groes yn cael ei chrybwyll yn amlach. Yng ngeiriau un athro uwchradd:

> 'Y gwir amdani yw NAD YW PLANT MEWN YSGOLION UWCHRADD YN HOFFI SIARAD NA CHYFATHREBU llawer ar-lein! Mae'n anodd eu perswadio i wneud hyn, hyd yn oed yn y chweched uchaf. Mae hyn wir yn dalcen caled.' (Pwyslais gwreiddiol)

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.13 Soniodd rhai ysgolion am ganlyniad anfwriadol cysylltiedig iawn, sef cynnydd mewn lefelau pryder ynglŷn ag asesu, ymhlith disgyblion, staff a rhieni. Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r canlynol

- disgyblion, yn enwedig yn ystod blynyddoedd eu harholiadau, a oedd wedi bod yn destun asesu cyson, i bob golwg;
- staff a oedd yn teimlo'n gyfrifol ond nad oeddent yn glir ynglŷn â 'rheolau'r gêm' o ran asesiadau crynodol;
- rhieni a oedd yn pryderu, er enghraifft, na fyddai cyflawniadau eu plant yn cael eu cydnabod mewn ffordd sy'n cyfateb i gymwysterau papur.

3.14 Mae'n bwysig cydnabod y bydd lefelau uwch o bryder yn newid natur y cydberthnasau sy'n greiddiol i addysgu a dysgu cynhyrchiol, a hynny mewn ffordd sylfaenol. Disgrifiodd rhai athrawon y ffordd y bu'n rhaid iddynt ailystyried eu dull o asesu yn sgil canfyddiadau disgyblion eu bod yn cael eu hasesu'n barhaus mewn ffordd a allai effeithio ar raddau eu cymwysterau yn y dyfodol.

> 'Rwy'n credu mai'r newid mwyaf, fwy na thebyg, yw'r ffaith ein bod fel proffesiwn bellach yn anhygoel o...nerfus yw'r gair cywir, am wn i, wrth roi graddau i waith, ac (rydym) yn bod yn ofalus iawn, iawn ynglŷn â'r ffordd y byddwn yn siarad â disgyblion, a hefyd...yr hyn a rown o'u blaenau fel asesiad oherwydd mae disgyblion yn teimlo, yn llythrennol... yn enwedig mewn dosbarthiadau arholiad, maent yn teimlo fel bod popeth a wnânt yn cael ei asesu mewn rhyw ffordd ac y bydd yn cyfrannu at y radd a gaiff ei hasesu gan y ganolfan...mae hynny wir, wir wedi llywio'r ffordd y maent yn gweld yr ysgol ac asesu yn benodol...fel athrawon... mae'n rhaid inni fod mor, mor ofalus ynglŷn â'r iaith a ddefnyddiwn, ynglŷn â'r ffordd y byddwn yn asesu yn yr ystafell ddosbarth. Efallai na fyddech

> wedi meddwl dwywaith o'r blaen cyn cynnal rhyw fath o brawf cyflym neu holi pwy all gofio hyn, ac ni fyddech wedi meddwl y byddai'n gwneud unrhyw niwed o gwbl pa na baent yn cofio.  Erbyn hyn, mae'n rhaid inni feddwl yn ofalus iawn oherwydd, gyda rhai myfyrwyr, mae'n peri cryn straen iddynt os ydynt yn teimlo nad ydynt wedi gwneud yn dda mewn rhywbeth sy'n cyfrif fel asesiad yn eu tyb nhw.'
>
> *Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Uwchradd*

Fel y dywedodd cyfwelai arall o ysgol uwchradd, lle y byddai myfyrwyr yn ymgymryd â'r hyn a fyddai'n dasgau arferol, beunyddiol fel arfer, yn sydyn mae'n ymddangos bod y tasgau hynny'n rhai 'lle mae llawer o atebolrwydd a llawer yn y fantol, hyd yn oed pan nad yw hynny'n wir'.

3.15 *Dirywiad mewn asesu ar gyfer dysgu.*

Bu'n rhaid i lawer o athrawon wynebu newidiadau, heriau a rhwystredigaethau mewn perthynas ag asesu ar gyfer dysgu, a hynny ar dair ffurf yn bennaf.  Yn gyntaf, tynnwyd sylw at bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o asesu ar gyfer dysgu mewn ffordd ystyrlon wrth weithio o bell, gan gynnwys pryderon am darddiad y gwaith a gwblheir (ac felly yr hyn y gellir cymryd ei fod yn ei ddangos am yr hyn y mae'r disgybl yn ei ddysgu), ond hefyd am wahaniaeth sy'n ymddangos yn fwy amlwg rhwng diddordeb a diffyg diddordeb ymhlith dysgwyr.  Roedd y pryderon hyn yn arbennig o ddwys ymhlith y rhai a oedd yn gweithio gyda'r plant ieuengaf neu mewn ysgolion arbennig:

> 'Mae'n llawer anoddach i'r plantos bach, yn enwedig pan fyddwch yn gosod tasgau ymarferol lle y byddwch yn dweud...(er enghraifft) ewch allan am dro, a chwiliwch am bum lliw gwahanol.  Allwch chi wneud set o hyn a'r llall?  Ni fyddwch yn gwybod a ydynt wedi gwneud hynny mewn gwirionedd.  A bydd y ffotograffau hyn yn cyrraedd a byddwch yn meddwl, wel, mae'n bosibl mai Mam a Dad a wnaeth hwn.  A wnaethant dreulio'r amser yn eu cyfrif wedyn? Neu a wnaethant ddweud, 'iawn, dyna bump, dyna ni.  Tynna lun', wyddoch chi?  Mae'n anodd iawn, iawn.  Felly rwy'n credu...ei bod yn llawer haws asesu hyn yng nghyfnod allweddol dau nag yn y cyfnod sylfaen, ar gyfer gwaith a welsom.  Ac...ar gyfer y llwyfannau ar-lein, y pethau...a...(oedd) yn dod yn ôl

> ohonynt, rwy'n credu bod hynny wedi ein helpu i ddeall a chael deialog yn ôl ac ymlaen gyda'r plant, ar gyfer y rhai sy'n dangos diddordeb. Ac wedyn roedd bwlch mawr o blant nad oeddent yn gwneud dim byd.  A nhw yw'r plant sy'n peri'r mwyaf o bryder imi.'

*Pennaeth Ysgol Gynradd*

> 'ond i'n disgyblion sydd ag anawsterau dysgu lluosog, mae'n eithafol... roedd yn hynod anodd i deuluoedd allu parhau â'r dysgu er ein bod yn darparu'r holl raglenni angenrheidiol. Gwnaethom roi cyfarwyddiadau iddynt, a chymorth a chyngor, a phopeth o'r fath. Mae'n dal yn anodd iawn disgwyl i riant plentyn ag anghenion hynod arbennig ddeall sut beth yw cynnydd i'r disgyblion hynny ... Yn achos llawer o'r gwaith a wnawn gyda'n disgyblion, rhaid ichi fod yn agos iawn atynt. Rhaid ichi ennyn diddordeb mewn ffordd synhwyraidd a bywiog iawn. Ac mae'n eithaf anodd efelychu hynny'n rhithwir.'

*Pennaeth Ysgol Arbennig*

3.16 Roedd ail set o bryderon yn ymwneud â dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr Hydref 2020.  Yma, effeithiwyd ar asesu ar gyfer dysgu yn ei ystyr ehangaf, wrth i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol COVID-19 leihau neu ddileu gallu athrawon i roi cymorth ymarferol i ddysgwyr mewn ffyrdd ffurfiannol wrth addysgu yn yr ystafell ddosbarth.  Yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) ac uwch roedd 'addysgu o'r blaen' neu 'o'r tu ôl i'r llinell' yn golygu bod rhyngweithio a chymorth o natur fwy unigol, gynnil neu wedi'i thargedu bron yn amhosibl. Hefyd, dywedodd y cyfweleion fod y ffaith bod yr holl blant yn 'wynebu'r blaen' yn golygu bod llawer llai o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn asesu gan gyfoedion a dysgu ffurfiannol drwy gydweithio. Mae'r sylwadau canlynol yn mynegi safbwyntiau a oedd yn gyffredin ymhlith y cyfweleion:

> 'Mewn ysgolion, i ddechrau roedd athrawon yn nerfus iawn ac yn bryderus iawn am farcio llyfrau a'r posibilrwydd...y byddai'r (feirws) yn cael ei drosglwyddo o lyfr drwy fynd yn rhy agos...Hefyd, gallu pwyso dros blentyn a dweud 'Mae'r hyn rwyt ti'n ei wneud yma wir yn wych ond mae angen gwneud hyn a'r llall'.  Felly mae cadw pellter cymdeithas wedi cael effaith ar adborth uniongyrchol hefyd.'

*Pennaeth Ysgol Gynradd*

> 'Fel arfer, fel athro, byddwch yn crwydro o gwmpas yr ystafell...byddwch yn darllen yr ystafell. Byddwch yn mynd ac yn sefyll wrth ochr y disgybl sy'n camymddwyn, neu byddwch yn sefyll wrth ochr y disgybl sydd wir yn ei chael hi'n anodd ac yn rhoi ychydig o gymorth cynnil, cudd iddo os hoffech chi. Mae'n anodd iawn gwneud hynny pan fydd yn rhaid ichi aros mewn blwch melyn ym mlaen eich ystafell. Rwy'n credu bod y cysylltiad hwnnw, y math o bethau arferol a wnawn heb feddwl, rwy'n credu ei fod yn golygu ei bod yn anoddach sylwi ar blant a rhoi cymorth amserol iddynt, o bosibl.'

*Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Uwchradd*

3.17 Roedd trydedd set o bryderon yn canolbwyntio ar yr anawsterau sy'n deillio o ymarfer hybrid, lle roedd athrawon yn gweithio mewn amgylcheddau ffisegol a rhithwir ar yr un pryd. Mewn rhai cyfweliadau mewn cyd-destunau cynradd ac uwchradd, tynnodd athrawon sylw at yr heriau ac, yn benodol, y problemau roedd hyn yn eu hachosi o ran rhoi adborth amserol o ansawdd da sydd â ffocws pendant i bob dysgwr. Codwyd pryderon penodol ynglŷn â rheoli llwyth gwaith mewn perthynas â'r math hwn o asesu ffurfiannol wrth addysgu mewn ffordd hybrid:

> 'Pan fydd athrawon dosbarth yn yr ysgol a'r plant yn hunanynysu, os bydd plentyn yn lanlwytho darn o waith, rwyf wedi dweud wrth fy staff bod ganddynt 48 awr i ymateb am eu bod yn dal i addysgu a delio â'u gwaith o ddydd i ddydd yn ogystal â chefnogi dysgu cyfunol.   Felly ...nid yw'r adborth uniongyrchol hwnnw yno bob amser.'

*Pennaeth Ysgol Gynradd*

3.18 Teimlid bod heriau o'r fath yn fwy yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion arbennig, a thynnodd y cyfweleion sylw at yr angen i fod mewn lleoedd ffisegol a rennir gyda'u disgyblion, er mwyn ymgymryd mewn arferion asesu ffurfiannol yn effeithiol:

> 'Y peth sylfaenol am asesu ac addysgu yw...rydych chi'n addysgu, maen nhw'n rhyngweithio, rydych chi'n ymateb, rydych chi'n asesu oherwydd rydych chi'n gwylio...rwy'n credu bod pob athro, nid dim ond ein hathrawon ni ond pob athro, wedi colli hynny (wrth addysgu) yn rhithwir i ryw raddau.  Ond ar gyfer fy rhai i, mae'r ffaith bod anawsterau cyfathrebu a namau ar y clyw a'r golwg yn

> gwaethygu hynny...mae hynny i gyd yn gwneud pethau'n anodd iawn heb fod yno o flaen y plentyn.’

*Pennaeth Ysgol Arbennig*

3.19 Mewn cyd-destunau uwchradd roedd barn glir mai darnau ysgrifenedig oedd yr asesiadau a oedd yn digwydd ar-lein yn bennaf, gan nad oedd modd cynnal dim byd ymarferol. Roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol mewn pynciau ag elfennau ymarferol cryf megis Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, Celf, Dylunio a Thechnoleg (DTh), ond gwelwyd newid amlwg mewn meysydd pwnc eraill hefyd, lle y byddai gweithgareddau ymarferol neu weithgareddau corfforol mewn grŵp, a gaiff eu hasesu'n ffurfiannol yn aml, yn rhan arferol o ddull amrywiol a chreadigol o addysgu a dysgu.

3.20 Mae'n anodd crynhoi'r newidiadau amlweddog hyn i natur addysg yn yr ysgol. Ar un llaw, mae'n amlwg mewn llawer o'r achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn yr ysgolion a gyfwelwyd fod athrawon, plant a phobl ifanc wedi dangos gwydnwch ac ymroddiad rhyfeddol wrth ymdopi â tharfu difrifol, a rhoddwyd gwybod am rai enghreifftiau o addasiadau diddorol a datblygiadau arloesol cadarnhaol. Serch hynny, daw thema amlwg arall i'r amlwg drwy'r sylwadau rydym wedi'u casglu: un o effeithiau terfynol yr ymatebion i'r pandemig yw fersiwn gyfyngedig neu wannach o ymarfer addysgegol a mwy o wahaniaeth rhwng y cynlluniau a dymuniadau gweithwyr proffesiynol a phrofiadau go iawn y dysgwyr. Er enghraifft, efallai fod ‘addysgu o'r blaen’ yn ymddangos i rai pobl fel ‘dychwelyd’ i rywbeth ‘traddodiadol’ mewn ffordd, ond bydd unrhyw un ag unrhyw lefel o ymwybyddiaeth o theori addysgegol a chwricwlaidd neu ymarfer proffesiynol cyfoes yn gweld ei fod yn golygu bod safbwynt cul, ac ystrydebol, hyd yn oed, o sut beth yw addysgu a dysgu yn cael ei roi ar waith.

3.21 Felly, mae ein prif ganfyddiadau ynglŷn â'r newidiadau allweddol i amgylchedd yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu, yn ddeublyg. Y cyntaf yw bod newidiadau yn sgil y pandemig wedi gwneud mwy na gwanhau cymeriad gweithgareddau addysgol: mae ymatebion i COVID-19 wedi newid yr hyn sy'n digwydd yn enw addysgu, dysgu ac asesu yn syfrdanol. Yr ail yw, er bod ein data'n cadarnhau canfyddiadau cyffredinol darnau eraill o waith ar degwch a lles, fod mân wahaniaethau pwysig eraill o ran yr effaith ar amrywiaeth eang o ddysgwyr.

3.22 O ystyried dibenion craidd ein hastudiaeth, mae'n bwysig cydnabod bod y newidiadau rydym wedi'u hamlinellu hefyd yn newidiadau yn yr ysgol fel amgylchedd dysgu i fyfyrwyr mewn addysg gychwynnol i athrawon, sef ffocws yr adran nesaf. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd hyn: fel y mae'r gwaith ymchwil ar ffurfiant proffesiynol a ddyfynnwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn dangos, bydd yr ysgolion a'r ystafelloedd dosbarth y caiff athrawon dan hyfforddiant (ac athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd) brofiad ohonynt yn cael effaith ddofn ar y ffordd y byddant yn meithrin, yn hogi ac yn mireinio eu syniadau am yr hyn sy'n arferol ac yn ddisgwyliedig mewn perthynas â natur addysgu, dysgu ac asesu disgyblion.

**3.23 Canfyddiadau rhan dau – Effaith ymatebion i COVID-19 ar Addysg Gychwynnol i Athrawon**

Mae diwygiadau addysgol diweddar yng Nghymru wedi bod yn bellgyrhaeddol ac, ymhlith pethau eraill, maent wedi arwain at drefniadau newydd ar gyfer darparu AGA a nodweddir gan weithio mewn partneriaeth rhwng SAUau ac ysgolion a phwyslais newydd ar ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil. Peth arall sy'n arwyddocaol i'n pryderon yn yr adroddiad hwn yw'r newid sylfaenol yn y ffordd y caiff safonau proffesiynol eu dehongli, eu disgrifio a'u mesur, y gellir ei grynhoi drwy ddweud bod model 'cymhwysedd trothwy' wedi cael ei ddisodli gan fodel 'dysgu proffesiynol' â mwy o ffocws ar y broses. Mae hyn yn golygu bod yr amgylchedd dysgu ar gyfer myfyrwyr AGA wedi bod yn datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fwy neu lai. Yn fwy nag o'r blaen, mae'r amgylchedd dysgu hwn yn cwmpasu lleoliadau'r ysgol a'r SAU *a'r* berthynas a'r rhyngweithio rhyngddynt. Yn yr adran hon, cyflwynwn yr hyn rydym wedi'i ddysgu gan y trawstoriad o randdeiliaid allweddol a gymerodd ran yn ein cyfweliadau a'r arolwg ynglŷn â newidiadau i'r amgylcheddau dysgu cyd-ddibynnol a rhyngddibynnol hyn.

*3.24 Cyd-destun: ymateb mewn partneriaeth*

Arweiniodd pandemig COVID-19 at newidiadau sylweddol i bartneriaethau AGA. Roedd y newidiadau hyn yn gymhleth ac yn heriol, a gwnaethant arwain at brofiadau gwahanol i garfanau AGA 2019/20 a 2020/21. Ar y cyfan, effeithiwyd yn fwy ar rai grwpiau o fyfyrwyr na rhai eraill, gan gynnwys: y rhai a oedd o grwpiau agored i niwed ac a oedd yn dilyn rhaglen cymorth dysgu personol; y rhai â phroblemau iechyd meddwl; y rhai a oedd wedi bod yn sâl ac wedi colli diwrnodau; y rhai a oedd yn fyfyrwyr rhyngwladol; y rhai â mentoriaid a fu'n sâl; y rhai mewn dosbarthiadau y bu'n rhaid iddynt hunanynysu mwy nag eraill.

3.25 Cafodd athrawon dan hyfforddiant AGA (ac ANGau presennol) brofiadau amrywiol iawn yn dibynnu ar yr ysgolion y cawsant eu lleoli ynddynt ac ymateb yr ysgolion hyn i COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig, fel yr amlinellwyd yn Rhan Un uchod. Cododd llawer o addysgwyr athrawon mewn ysgolion bryderon ynglŷn â'r hyn a gollwyd gan athrawon dan hyfforddiant neu'r hyn roeddent yn parhau i'w golli:

> 'ni ellir taflu blanced dros hyn ar hyn o bryd, (mae'n rhaid) edrych ar bethau ar lefel ysgol oherwydd efallai fod ysgol ychydig filltiroedd i lawr y ffordd wedi

cael...tymor a oedd yn iawn y tymor diwethaf. Felly, rwy'n credu bod hynny'n...dyna sy'n anodd gyda hyn, dyma'r hyn sy'n anodd ei gydbwyso. Os...byddant yn cael profiadau gwahanol...rwy'n credu y bydd ganddynt lawer o fylchau...yn eu bocs tŵls, os hoffech chi, oherwydd nid ydynt wedi cael y profiad ... Nid wyf yn credu eu bod wedi'i gael...yn enwedig gyda'n myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5, nid wyf yn credu eu bod wedi cael fawr ddim profiad yno mewn gwirionedd. Rwy'n... Rwy'n credu bod y staff wedi bod yn gyndyn/yn ofalus iawn... i drosglwyddo'r dosbarthiadau hynny, oherwydd eu bod yn ymdrechu'n daer i gael cynnwys... i orffen cynnwys, nid ydynt yn gwybod beth yw'r deilliant yn y pen draw. Felly rwy'n credu eu bod wedi colli allan i raddau helaeth iawn yn hynny o beth.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.26 Clywsom am ysgolion a oedd wedi datgan yn glir mai eu prif flaenoriaethau yn y cyfnod hwn oedd eu dysgwyr a'u staff, a bod yr athrawon dan hyfforddiant ar leoliad yn llai o bryder. Cynigiodd rhai ysgolion amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ar-lein gan annog athrawon dan hyfforddiant i gymryd rhan yn llawn ynddynt, ond cynigiodd ysgolion eraill brofiadau mwy cyfyngedig, a oedd weithiau wedi'u cymhlethu gan faterion yn ymwneud â diogelu mewn perthynas â chyfarpar neu bolisïau ysgolion neu awdurdodau lleol ar addysgu gwersi byw.

'Am wn i, rydym wedi [wynebu] llawer o anawsterau oherwydd, wrth gwrs, ni allwch ddefnyddio eich dyfais eich hun gartref, felly gwnaethom roi Chromebooks i'n holl [athrawon] dan hyfforddiant, oherwydd cawsom liniaduron fel athrawon yn hytrach na chyfrifiaduron desg, ac nid oedd gennym ddigon o liniaduron i'r myfyrwyr [athrawon dan hyfforddiant], felly mae gan bawb sy'n dod atom Chromebook, ond eto, wrth gwrs, gyda Chromebook ni allwch gymylu'r cefndir, ac ni chewch eich gwahodd yn y ffordd gywir i ymuno â Thîm, mae'n rhaid imi wneud yn siŵr bod yr athro dan hyfforddiant yn rhan o fy Nhîm neu ni fydd yn gallu gweld y sgwrs. Felly, mae defnyddio Teams ar gyfer pob un ohonynt wedi arwain at oblygiadau anferth.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.27 Yn benodol ar gyfer carfan Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) 2020/21, roedd eu profiad yn seiliedig i raddau helaeth ar fodel addysg athrawon dechrau dwys, ac

roedd y cyfranogwyr yn cydnabod nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r hyn sy'n hysbys am y mathau mwyaf effeithiol o fodelau AGA yn rhyngwladol.Yn ogystal â hynny, credid y gallai'r ymarfer a oedd fwyaf blaenllaw yn yr ysgol, oherwydd cyfyngiadau COVID-19, sef addysgu 'o'r blaen' ac 'o'r tu ôl i'r llinell' arwain at oblygiadau hirdymor i athrawon dan hyfforddiant, hyd yn oed ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio.I lawer ohonynt, hyn fydd eu hunig brofiad o addysgu disgyblion. I fyfyrwyr yn y carfanau hyn, mae hyn yn golygu diffyg cyfle i addysgu disgyblion mewn ffyrdd sy'n nodweddiadol o'r hyn a gydnabyddir yn eang fel ymarfer da, wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth cyn y pandemig.

> 'Y gwahaniaeth arall o ran ysgolion, o siarad â rhai athrawon eraill, yw bod yr addysgegau y maent yn dechrau eu gweld nawr mewn ysgolion yn wahanol. Mae'n llawer mwy strwythuredig oherwydd COVID, hynny yw, mae pawb yn wynebu'r blaen.Felly mae'n fwy traddodiadol, ac mae hynny'n peri pryder hefyd.'

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.28 Hefyd, mynegwyd pryderon penodol am y cyfleoedd cyfyngedig a gafodd athrawon dan hyfforddiant i gymryd rhan mewn gweithgareddau asesu nodweddiadol, a dywedodd rhai fod hyn yn debygol o arwain at heriau parhaus i'r hyfforddeion hyn wrth iddynt ymuno â'r proffesiwn.

> 'Felly, [o ran asesu disgyblion] maent yn gwneud rhai pethau ond, unwaith eto, rwy'n credu y bydd angen cymorth arnynt flwyddyn nesaf, hyd yn oed, i wneud hynny'n llwyddiannus ... [mae'n] anodd gweld sut y byddant yn cael y profiadau hynny er mwyn llunio barn yn gywir fel athrawon... Yn amlwg asesu ar gyfer dysgu ond, mewn gwirionedd, mae'n eithaf anodd asesu'r disgyblion... mae gennym rywfaint o dystiolaeth yma, ond rwy'n credu ei bod hi'n amhosibl gwneud hyn yn rhithwir... mae'n amlwg y byddant ar ei hôl hi o gymharu â ble y byddent wedi bod, rwy'n credu. Rwyf wir yn teimlo drostynt.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.29 Mae ein data'n dangos bod gan bartneriaethau, ar y cyfan, systemau a gweithdrefnau sefydledig a helaeth i gefnogi'r grwpiau hyn o athrawon dan hyfforddiant, er enghraifft, drwy diwtoriaid personol, tiwtoriaid yn y brifysgol, Cyfarwyddwyr Rhaglenni, mentoriaid yn yr ysgol. Mae trafodaeth lawn am effaith a

chymhlethdod y pandemig a throsolwg o'r broses a fabwysiadwyd gan bartneriaethau er mwyn sicrhau y gallent gynnal rhaglenni AGA y tu hwnt i gwmpas a ffocws y gwaith hwn. Isod ceir gwybodaeth a gasglwyd o safbwyntiau'r rhanddeiliaid ar y prosesau a fabwysiadwyd ac a brofwyd er mwyn addysgu ac asesu athrawon dan hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn.

3.30 Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, dywedwyd bod prif nodweddion gweithio mewn partneriaeth o fewn AGA, mewn egwyddor ac yn ymarferol (megis atebolrwydd ar y cyd, gwneud penderfyniadau ar y cyd a datblygu ar y cyd) wedi parhau i fod yn amlwg drwy gydol cyfnod y pandemig. Nid oes gennym ddigon o ddata i gynnig safbwynt pendant ynghylch a oedd rhai partneriaethau yn fwy llwyddiannus nag eraill yn hyn o beth, ond mae rhai o'r sylwadau agored a wahoddwyd gennym ar ddiwedd yr arolwg yn awgrymu bod amrywiadau. Mae ein cyfweliadau'n dangos bod y nodweddion allweddol y sonnir amdanynt uchod yn hollbwysig er mwyn i bartneriaethau AGA allu gweithredu, cynnal rhaglenni a gosod athrawon dan hyfforddiant ar leoliad mewn ysgolion, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

> ‘Ers y diwrnod y cafodd popeth ei atal gan y pandemig, rwyf wedi parhau i gael cyswllt cyson drwy fy nghyfarfodydd sicrhau ansawdd, drwy fy nghyfarfodydd rheolaidd â'r ysgolion arweiniol, drwy gydol y cyfnod. Ni fu gostyngiad yn lefel yr ymgysylltu gan yr ysgolion arweiniol.’

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.31 Yn yr un modd, roedd enghreifftiau o brifysgolion ac ysgolion yn datblygu ar y cyd er mwyn ailddylunio rhaglenni AGA er mwyn eu cynnal mewn partneriaeth drwy gydol y pandemig, fel y dangosir yn yr enghraifft isod:

> ‘Cynhaliwyd gweithdai datblygu ar y cyd gyda staff AGA as ysgolion yn ystod haf 2020...Roeddem yn awyddus i fynd ati gydag ysgolion i gynllunio sut y gellid cyrraedd y safonau ar gyfer athrawon ac arweinyddiaeth broffesiynol mewn byd ar-lein.  Ac roedd yr ysgolion yn wych.  Cawsom bedwar gweithdy gwahanol, un ar ymchwil ac ymholi, un ar ddiwrnodau hyfforddiant dan arweiniad ysgolion, dau ar ymarfer clinigol gyda dau opsiwn gwahanol ar gyfer pob un.  Felly rhoddodd hynny lawer o hyder inni.’

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.32 Roedd y gweithdai cydweithredol hyn yn gyfle gwerthfawr, a gafodd ei groesawu ar y cyfan, i ysgolion a SAUau gydweithio â'i gilydd – a hynny'n gyflym – i addasu'r rhaglen yn unol ag anghenion myfyrwyr ac mewn ymateb i'r dirwedd a oedd yn newid yn gyflym:

> ‘Cymerais ran yn y cyfarfodydd datblygu ar y cyd gyda'r brifysgol. Felly, es i i'r diwrnod hyfforddiant dan arweiniad ysgolion, es i i'r un ar ymarfer clinigol ac es i i'r un... ar ymchwil. Ac rwy'n credu bod y bobl a aeth i'r sesiynau hynny, ar y cyfan, yn teimlo'n gadarnhaol am y cyfle a sut y gallem addasu'r rhaglen a sut y gallem hwyluso lleoliadau rhithwir.’

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Cynradd*

3.33 Yn bwysig ddigon, roedd yr elfen gydweithredol a chefnogol hon hefyd i'w gweld mewn gwaith a oedd yn gysylltiedig ag asesiadau fel y gwelir yn yr enghraifft ganlynol:

> ‘Rwy'n credu bod llawer iawn o waith meddwl wedi bod ynglŷn â'r ffordd y gall...(SAUau) helpu ysgolion i gynnig darpariaeth i fyfyrwyr AGA. Felly, er enghraifft, rydym wedi cael sawl cyfarfod gyda'n huwch-fentoriaid. Rydym wedi cael cymorth mewn perthynas â'r canllaw newydd ar ymarfer clinigol, rydym wedi cael cyfarfodydd am asesu, gweminarau rhithwir ar ddefnyddio'r pasbort dysgu proffesiynol ac asesu, ac rydym wedi cael gweminarau ar ddefnyddio'r canllaw asesu. Mae cyfarfodydd penaethiaid wedi cael eu cynnal ar gyfyngiadau COVID a'r ffordd y mae'r brifysgol wedi ymdrin â... pholisi ac ymarfer mewn perthynas â COVID.’

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Cynradd*

3.34 Mae ein data'n awgrymu y bu effaith ddifrifol ar yr asesu ffurfiannol a chrynodol a fyddai wedi digwydd fel arfer fel rhan o AGA. I ryw raddau, roedd tystiolaeth o ddatblygu mathau newydd o gymorth ar-lein a helpodd i hwyluso cyfathrebu rhwng myfyrwyr ac addysgwyr athrawon mewn sesiynau addysgu a gynhaliwyd gan y brifysgol ar-lein:

> ‘[o ran] asesu athrawon dan hyfforddiant yn ffurfiannol fel y byddech yn ei wneud mewn unrhyw fath o amgylchedd gwers, rydym wedi gwella'n sylweddol yn hynny o beth drwy *Teams*, gan ddefnyddio cyfleuster sgwrsio

timau o ddau. Felly byddai rhywun yn arwain, byddai rhywun yn cadw golwg ar y sgwrs ac yna byddai llawer o ddeialog rhwng y ddau diwtor, gan wahodd y myfyrwyr i wneud sylwadau ac ati.’

*Addysgwr Athrawon mewn SAU*

‘Roedd *Microsoft Teams* bob amser yn llwyfan da i'w ddefnyddio; hwn oedd yr un y gwnaethom ei ddefnyddio bob amser ar gyfer darlithoedd, ac roedd bob amser yn gweithio'n dda pryd bynnag y byddem yn ei ddefnyddio ... Hynny yw, byddem yn cael diweddariadau am ddarlithoedd ac ati ar Twitter, ond ar wahân i hynny rwy'n credu mai Teams oedd y brif ffordd o gyfathrebu â ni.’

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Uwchradd*

*3.35 Llai o amser yn yr ysgol i athrawon dan hyfforddiant*


Cafodd amrywiol gyfnodau'r cyfyngiadau yn sgil y pandemig effaith ar faint o brofiad yn yr ysgol a oedd ar gael i athrawon dan hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o achosion lle nad oedd modd cynnal lleoliad mewn ysgol, rhoddwyd cyfleoedd amrywiol i ymgymryd â lleoliadau rhithwir yn lle hynny. Cydnabuwyd nad oedd y trefniadau hyn yn cyfateb i brofiadau wyneb yn wyneb yn yr ysgol, ac na fyddai hynny byth yn bosibl. Serch hynny, gwnaethant alluogi athrawon dan hyfforddiant i gael profiad a datblygu eu hymarfer ar-lein. Roedd y cydbwysedd rhwng lleoliadau yn yr ysgol a lleoliadau rhithwir yn ddarlun cymhleth, gydag effeithiau gwahanol ar athrawon dan hyfforddiant yn dibynnu ar ba garfan roeddent ynddi, ym mha bartneriaeth roeddent wedi'u lleoli ac, yn arbennig, p'un ai myfyrwyr israddedig neu raddedig oeddent: byddai'r pandemig wedi effeithio ar ryw ran o leoliadau'r ail o'r ddau yng ngharfanau 2019 a 2020. Fel arfer, bydd angen cyfanswm o 120 o ddiwrnodau ar leoliad mewn ysgol ar gyfer rhaglenni AGA sy'n arwain at gymhwyso. Rhannwyd yr enghraifft ganlynol gan athro dan hyfforddiant a gyfwelwyd ym mis Ebrill 2021:

‘Erbyn i'r ysgolion fod ar gau [mis Rhagfyr], roeddwn wedi addysgu un wers lawn, ac yn yr ail wers... addysgais ddwy wers, ond yn yr ail un dim ond tua 10 disgybl oedd yno am fod gweddill y dosbarth yn hunanynysu. Felly dwy wers roeddwn wedi'u haddysgu rhwng mis Rhagfyr a'r wythnos hon [mis Ebrill 2021]’

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Uwchradd*

3.36 Ymhlith yr ymatebwyr i'n harolwg roedd 223 o bobl a oedd yn gymysgedd o fyfyrwyr AGA presennol a diweddar ar raglenni israddedig ac ôl-radd ledled Cymru. Gwnaethom ofyn iddynt ddweud wrthym ‘sut yr effeithiwyd ar gyfanswm yr amser a dreuliwyd gennych ar leoliad yn yr ysgol (120 o ddiwrnodau a fwriadwyd yn wreiddiol)?’ Cyfanswm o 14 y cant (32/223) o'r ymatebwyr a ddywedodd na chafodd eu hamser ar leoliad ei gwtogi o gwbl. Dywedodd bron 24 y cant (53/223) eu bod wedi cael o leiaf tri chwarter eu hamser ar leoliad mewn ysgol (wyneb yn wyneb), ond dywedodd 35 y cant (78/223) fod o leiaf hanner wedi digwydd. Dywedodd tua 26 y cant (60/223) fod eu hamser ar leoliad mewn ysgol wedi cael ei gwtogi i tua chwarter yr hyn a fwriadwyd, neu lai (i sero mewn bron 7 y cant (15/223) o achosion).

**Ffigur 3: Myfyrwyr AGA diweddar a phresennol: Canfyddiadau o'r effaith ar gyfanswm yr amser ar leoliad yn yr ysgol, yn ôl cyfanswm yr ymatebion (120 o ddiwrnodau a fwriadwyd yn wreiddiol) (n=223)**



Mae Ffigur 3 uchod hefyd yn dangos gwahaniaethau yn y ffyrdd y dywedodd myfyrwyr israddedig a graddedig fod hyn wedi effeithio arnynt. Er enghraifft, israddedigion oedd mwyafrif helaeth y rhai a ddywedodd na fu dim effaith ar eu lleoliadau, sy'n unol â'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl o wybod bod y lleoliadau ar y rhaglenni hynny wedi'u dosbarthu'n ehangach dros amserlen hwy. Fodd bynnag, rhaid cofio mai cipolwg gweddol fras yw'r data hyn am fod llawer iawn o drefniadau ac amgylchiadau amrywiol yn sail i'r profiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Yr hyn sy'n amlwg yw bod profiad cyfunol myfyrwyr yn dangos effaith fawr a bod ychydig dros 26 y cant (60/223) o'r holl ymatebion wedi nodi bod yr amser a dreuliwyd ar leoliad mewn ysgol rhwng sero a thua chwarter yr hyn a fwriadwyd. Ar gyfer carfan graddedigion 2019/20, gallwn fod yn sicr na fydd yr un myfyriwr AGA wedi cael unrhyw leoliadau pellach mewn ysgolion y tu hwnt i ganol mis Mawrth 2020. Ar gyfer carfan graddedigion 2020/21, o ystyried na ddechreuodd lleoliadau mewn ysgolion tan ganol mis Tachwedd fel arfer, cyn cyfnod estynedig arall o gyfyngiadau symud (drwy'r rhan fwyaf o dymor y Gwanwyn, neu'r tymor cyfan) byddant hwythau hefyd wedi cael llai o lawer o brofiadau mewn ysgolion.

> ‘Aethom i mewn i'r ysgol yng nghanol mis Tachwedd. Roedd hynny i fod i ddigwydd ychydig yn hwyrach ond cafodd ei ddwyn ymlaen. Roeddwn... roeddem i mewn am ddeuddydd yn yr wythnos gyntaf ac wedyn, yn anffodus, daliais COVID yn y dosbarth. Felly roeddwn i ffwrdd o'r ysgol yn syth am bythefnos, yn amlwg, ac roedd y dosbarth cyfan yn ynysu am fod yr athro wedi'i ddal ac roedd pawb wedi'i gael, fwy neu lai. Ac wedyn aethom yn ôl tan y Nadolig. Wedyn, ar ôl y Nadolig, ... roeddem i fod i fynd yn ôl ond wedyn, yn amlwg, gwnaethant gau'r ysgolion ac felly gwnaethom lawer ar-lein yn y pen draw.’

*Athro dan hyfforddiant ar raglen TAR 20/21, Cynradd*

3.37 *Culhau profiadau asesu yn yr ystafell ddosbarth*

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwnaethom amlinellu rhai o'r newidiadau i brosesau asesu mewn ysgolion, a'r hyn y gallant ei ddynodi mewn perthynas ag addysgeg yn fwy cyffredinol. Roedd pryder unfrydol ymhlith athrawon dan

hyfforddiant yn y sectorau uwchradd a chynradd ynglŷn â'r amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd roeddent wedi 'colli allan' arnynt yn yr ystafell ddosbarth, yn enwedig mewn perthynas ag asesu. Codwyd y pryder hwn gan garfanau 2019/20 a 2020/21, ond roedd yn ymddangos yn arbennig o ddwys ymhlith yr ail. Dim ond ychydig wythnosau a dreuliodd llawer o athrawon dan hyfforddiant TAR ar leoliad yn ystod tymor yr Hydref (a fu'n destun tarfu sylweddol) cyn y cyfyngiadau symud dilynol, ac ni wnaethant ddechrau dychwelyd i drefniadau ysgol wyneb yn wyneb tan ddiwedd mis Chwefror (Cyfnod Sylfaen), canol mis Mawrth (CA2) neu ganol mis Ebrill (uwchradd) 2021. Roedd hwn yn ddarlun amrywiol i athrawon dan hyfforddiant ledled Cymru, yn dibynnu ar gyd-destun ysgolion. Roedd yr amseru'n arbennig o anffodus o ran eu profiad o gylch gweithgarwch asesu mewn ysgolion uwchradd:

> 'Y prif beth y collais allan arno oedd y cyfnod cyn tymor yr arholiadau. Rwy'n credu mai dyna oedd y prif beth roeddwn am ei (wneud)...y cyfnod cyn yr arholiadau a pharatoi ar gyfer hynny; rwy'n teimlo fy mod wedi colli allan ar hynny. Mae gen i ddosbarth Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) erbyn hyn ac felly mae fel y bydd rhaid imi... rwy'n gwybod beth sy'n digwydd yn rhan gyntaf y flwyddyn ym mlwyddyn 11 ond ar ddiwedd y flwyddyn rwy'n teimlo ychydig fel y bydd rhaid i mi ddyfalu, i raddau!'

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Uwchradd*

> 'Ni chawsant brofiad o'r...hwrdd o...egni o gwmpas cyfnod yr arholiadau. ...Ac mae hynny'n dechrau, (ym mis) Mawrth, gyda...gyda gwaith cwrs ac ymarfer (arholiadau) ac ati. Ac felly tua'r un pryd ag y daethant allan o'r ysgolion oedd yr adeg pan oedd popeth yn llythrennol ar fin dechrau o gwmpas y cyfnod hwnnw cyn yr arholiadau...Fel athro, mae hynny, yn enwedig yng nghyd-destun ysgolion uwchradd, mae hynny'n rhan mor fawr o'r swydd...yr hwrdd o egni y mae'n rhaid ichi ei gael. Felly...mae'n safbwynt diddorol, eu bod heb gael ymarfer bach o hynny, fel myfyrwyr, ochr yn ochr â'u mentoriaid. Ac nid ydynt wedi teimlo'r pwysau. Hynny yw, y pwysau i sicrhau bod myfyrwyr...disgyblion yn cyrraedd y pwynt hwnnw.

*Arweinydd Rhaglen mewn SAU*

3.38 Aeth yr arweinydd Rhaglen mewn SAU yn ei flaen i nodi bod athrawon dan hyfforddiant, yn ogystal â chael eu hamddifadu o'r cyfle allweddol hwn, wedyn wedi

cael eu cau allan o'r trafodaethau a'r prosesau dilynol a ddaeth yn beth mor ganolog i lawer o athrawon wrth iddynt roi systemau ar waith a fyddai'n dibynnu'n drwm ar waith cwrs a dangosyddion eraill, yn lle arholiadau. Roedd yn ymddangos y byddai athrawon dan hyfforddiant, mewn llawer o achosion, yn cael eu hamddifadu o un o gyfnodau hollbwysig y cylch asesu *ac* wedyn hefyd o graidd proses lle y bu grŵp o weithwyr proffesiynol profiadol yn cydweithio i ddatrys y sefyllfa hyd eithaf eu gallu. Dywedodd rhai cyfweleion fod cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant wedi lleihau o ganlyniad i'r ffaith bod ysgolion yn ymdopi ag addasiadau anodd iawn, gan adael 'bylchau' ym 'mocs tŵls' athrawon dan hyfforddiant:

> Yn enwedig gyda'n disgyblion Cyfnod Allweddol 4...a Chyfnod Allweddol 5, nid wyf yn credu bod (athrawon dan hyfforddiant) wedi cael fawr ddim profiad yno... rwy'n credu bod y staff wedi bod yn gyndyn/yn ofalus iawn... i drosglwyddo'r dosbarthiadau hynny, oherwydd eu bod yn ymdrechu'n daer i... i orffen cynnwys, nid ydynt yn gwybod beth yw'r deilliant yn y pen draw. Felly rwy'n credu bod...(athrawon dan hyfforddiant) wedi colli allan i raddau helaeth iawn yn hynny o beth.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.39 Roedd pryderon tebyg yn amlwg mewn lleoliadau cynradd. Fel y dywedodd un pennaeth ysgol gynradd, lle y byddai athrawon dan hyfforddiant fel arfer yn edrych yn ofalus ar asesu ffurfiannol, asesu ar gyfer dysgu ac asesu crynodol, wedyn hefyd yn edrych ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r ffordd y cânt eu tracio a'u hasesu, cafodd carfan y pandemig 'brofiad cyfyngedig iawn o asesu disgyblion...yr hyn y gwnaethant ei golli y llynedd oedd bod yn rhan o hynny' (Pennaeth Ysgol Gynradd). Yn yr un modd, soniodd athrawes newydd gymhwyso a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Medi 2020 am 'fwlch brawychus mewn gwybodaeth', ar ôl dod i gysylltiad ag asesu am gyfnod byr ac mewn ffordd arwynebol yn unig drwy arsylwi, heb 'fawr ddim ffocws ar dracio disgyblion nac asesu disgyblion'. Cymharodd un â'r hyn a fyddai wedi digwydd fel arall, gan fyfyrio ar y ffordd y mae'n teimlo bod hyn wedi gwneud y broses o bontio o fod yn athrawes dan hyfforddiant i fod yn athrawes sy'n gyfrifol am asesu disgyblion a chynnydd disgyblion yn anos:

> 'Rwy'n gwybod, yn y gorffennol, y bu'n rhaid ichi dracio disgybl drwy gydol eich lleoliad cyntaf, ac rwy'n teimlo, o edrych yn ôl, y byddai pob un ohonom

> wedi cael budd o hynny, fwy na thebyg, hyd yn oed pe na bai'n fanwl iawn. Ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael y profiad hwnnw. Nawr, yn y cyfnod pontio, y sefyllfa, mewn ffordd, yw “o, dyma mae angen i ti ei wneud”.’
>
> *ANG ac athrawes dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd*

3.40 Un peth nodedig oedd y dirywiad yn y cyfleoedd i ymgymryd â'r cylch arferol o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag asesu, neu gymryd rhan ynddo (e.e. marcio llyfrau, cymryd rhan mewn nosweithiau rhieni, ysgrifennu adroddiadau, helpu i gynnal gweithgareddau i baratoi ar gyfer arholiadau allanol a chynnal profion yn ystafell ddosbarth a phrofion cenedlaethol) – sydd i gyd yn cael eu cydnabod yn gyffredinol fel gweithgareddau sy'n allweddol er mwyn dysgu am lunio, cofnodi a chyfleu barn broffesiynol ar ddysgu, deall cynnydd dysgwyr, cynllunio ar gyfer gwahaniaethu a'i roi ar waith, rhannu deilliannau asesu ac yn y blaen, a meithrin dealltwriaeth gref ohonynt.

3.41 Soniodd un addysgwr athrawon mewn ysgol am le canolog strategaethau asesu ar gyfer dysgu, a phennu lefelau a deilliannau hefyd, a'r ffaith y bydd athrawon dan hyfforddiant wedi colli cyfleoedd i ddatblygu yn y meysydd hyn:

> ‘Byddant (athrawon dan hyfforddiant) wedi cael profiad o nifer sylweddol o bethau, ond, efallai, y sgiliau mwy cywrain o ddefnyddio'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu hynny mewn ffordd hyderus, yn eu haddysgu eu hunain, ac wedyn gallu pennu lefel neu ddeilliant mewn perthynas â ble mae'r plant arni o ran eu dysgu – efallai y byddai hynny'n llai datblygedig oherwydd, yn draddodiadol, mae'n bosibl y byddai hynny'n codi ychydig yn nes ymlaen.’
>
> *Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Cynradd*

3.42 Er bod y rhan fwyaf o'n data yn cyfeirio at y mathau amrywiol hyn o gulhau cysylltiadau a chyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant, mae hefyd yn wir bod rhai ohonynt wedi cael budd o allu cymryd rhan mewn strategaethau ar lefel ysgol a oedd yn arloesi ym maes defnyddio technoleg er mwyn helpu i asesu disgyblion:

> ‘un peth rydym wedi'i wneud fel ysgol yw symud holl waith y plant i Google Classrooms ac mae'r gwaith cartref ac ati yn cael ei lanlwytho i Google Classrooms, fel nad oes rhaid inni ei roi mewn cwarantin am 72 awr cyn gallu ei farcio ac yn y blaen. Felly, bydd yr hyfforddeion (athrawon dan hyfforddiant) wedi cael profiad o hynny...mae wedi cynyddu hefyd gyda mwy yn defnyddio

Google Docs, fel y gallant weld elfen fyw plentyn yn gweithio. Oherwydd os ewch i mewn i Google Docs gallwch weld y plentyn yn teipio a rhoi adborth yn y ffordd honno.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.43 *Effaith gweithio ar-lein ar ddysgu i addysgu*

Drwy ein holl ddata o'r cyfweliadau, cafwyd llawer o enghreifftiau o frwdfrydedd cyffredinol dros addysgu a dysgu ar-lein. Yn benodol, roedd y profiad a gafodd athrawon dan hyfforddiant o addysgu ar-lein yn aml yn cael ei ystyried yn un gwerthfawr, ac weithiau'n hwb i'w groesawu i set o sgiliau a oedd eisoes yn bwysig. Fodd bynnag, roedd gweithio ar-lein fel hyn yn hynod amrywiol ei natur, gan ymgorffori amrywiaeth o lwyfannau am ystod eang o raddfeydd gweithredi a dibenion. Roedd athrawon, myfyrwyr ac addysgwyr AGA i gyd o'r farn *nad* oedd addysgu ar-lein yn cyfateb i addysgu wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth ac na ellid ystyried ei fod yn ddewis amgen digonol yn lle addysgu wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn y broses o ddod yn ymarferydd cymwys. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at ei natur broblemus, a chrynhodd un ohonynt sawl un o'r pryderon cyffredin fel a ganlyn:

'...Os ydych yn credu bod ansawdd a chysondeb ymarfer addysgegol yn amrywiol cyn hyn, rwy'n mynd i...nid ei mentro hi, hyd yn oed, ac nid mewn ffordd ddadleuol yn fy marn i, a dweud fy mod yn credu bod (y) bwlch yn anferth rhwng ysgolion sy'n gallu ac sydd â'r modd i wneud hyn, ac ysgolion nad oes ganddynt syniad. Felly rwy'n credu...mai'r perygl...(yw bod) hyfforddi pobl i...[addysgu ar-lein] yn iawn yn cymryd llawer iawn o amser. Ac a fyddech yn gwneud hynny ar draul yr ymarfer yn yr ystafell ddosbarth a gaiff ei addysgu'n draddodiadol? Croesi bysedd na fydd hyn yn parhau. Ac mae'n codi'r cwestiwn, mewn ffordd, beth ydych chi am iddynt fod? Ydych chi am iddynt fod yn athrawon ar-lein da a gallu cynnal gweminar yn wych, neu ydych chi am iddynt fod yn ymarferwyr da yn yr ystafell ddosbarth? Oherwydd pethau gwahanol yw'r rhain. A ble y byddwch chi'n rhoi eich pwyslais? Rwy'n credu y byddwn yn dadlau bod angen i'r pwyslais fod ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth oherwydd... dyna yr hoffent fod, fwy na thebyg. Dyna y byddant yn ei wneud yn eu gyrfaoedd.'

*Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Uwchradd*

3.44 Er bod rhywfaint o'r sylwebaeth a gyhoeddwyd yn dathlu'r ysgogiad y mae'r pandemig wedi'i roi i fathau amrywiol o weithio ar-lein ym myd addysg, mae'n bwysig ystyried yr hyn y gellir ei hepgor yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyfoethogi fel rhan o arloesi digidol mewn lleoliadau addysg. Mae ein data'n dangos bod addasiadau yn sgil y pandemig a'r newid i weithio ar-lein yn golygu na fu modd i rai athrawon dan hyfforddiant gael profiad hanfodol o addysgu'r agweddau ymarferol ar eu pynciau. Ymddengys fod hyn yn arbennig o broblemus i'r rhai sy'n addysgu pynciau megis: Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, Celf, DTh, Drama a Cherddoriaeth. Soniodd un mentor mewn ysgol uwchradd am athro Addysg Gorfforol dan hyfforddiant a oedd, ar leoliad, wedi creu cynnwys ar-lein gwych ar iechyd a diogelwch, ond nad oedd wedi addysgu gwers yn y gampfa eto. Er ein bod yn cydnabod y bydd yr athrawon dan hyfforddiant hyn wedi cael y cyfle i ddychwelyd i leoliadau mewn ysgolion ers canol mis Ebrill, mae'n hynod debygol y bydd yr effeithiau ar rai o'r mathau hyn o brofiadau ymarferol yn parhau, wrth i ofynion cadw pellter cymdeithasol a gofynion iechyd a diogelwch yn sgil y pandemig barhau i fod mewn grym.

*3.45 Llais y dysgwr ynghylch colli profiadau yn yr ysgol*

Yn ein cyfweliadau ag athrawon dan hyfforddiant, codwyd pryderon gwirioneddol ynglŷn ag effaith colli profiadau yn yr ysgol. Gwnaed y sylwadau canlynol gan fyfyriwr TAR cynradd presennol:


> ‘Rwy'n teimlo fel mai'r hyn rwyf braidd yn brin ohono... rwy'n credu y byddai llawer o fyfyrwyr yn teimlo fel hyn beth bynnag, ond, yn amlwg, peidio ag addysgu dosbarth llawn ac wedyn mae'n eithaf llethol pan gaiff 30 eu cyflwyno ichi... dim ond tair gwers y gwnes i eu haddysgu i ddosbarth llawn. Tair – dyna ni – cyn i bawb fynd i ffwrdd, ac wedyn roeddwn yn addysgu wyth person. Chwech i wyth person, sy'n wahanol iawn. Rydych yn eistedd o gwmpas bwrdd. Felly rwy'n credu ei fod yn debycach i'r... rwy'n teimlo'n iawn yn rhoi gwers at ei gilydd. Ond wedyn rydych yn ei chyflwyno i 30 o bobl. Ac rwy'n credu, o ran gwahaniaethu, rwy'n poeni, oherwydd nid wyf wedi bod yn gwneud hynny ar raddfa fawr. A rheoli... nid ymddygiad o reidrwydd, ond sŵn. Yr holl bethau sy'n gysylltiedig â'r holl bobl. Felly rwy'n teimlo'n eithaf hyderus

yn llunio gwers.  Mae'n brofiad eithaf nerfus, byddwn yn dweud, codi nawr. Ond rwy'n teimlo y dylem fod, erbyn hyn, yn dod yn eithaf hyderus.  A'r hyn y byddwn yn ei ddweud yw na fyddwn... pe bai rhywun yn fy rhoi yn y cyfnod sylfaen, ni fyddai gen i syniad.  Pe bawn yn cael swydd, ni fyddwn yn gwybod sut i redeg dosbarth.  Nid wyf yn gwybod sut mae dosbarthiadau'r cyfnod sylfaen... rwyf... rwyf wedi clywed ei fod yn wahanol iawn, ond ni fyddai gen i syniad ac mae hynny'n bryder, pe bawn yn cael swydd ac yn cael fy rhoi, heb air o gelwydd ni fyddai gen i syniad.  Ac am nad ydym wedi cael cyfle i fynd i ddosbarthiadau eraill o gwbl.'

*Athro dan hyfforddiant ar raglen TAR 20/21, Cynradd*

3.46 Yn ein harolwg, gwnaethom ofyn i athrawon dan hyfforddiant presennol ac athrawon newydd gymhwyso ddweud wrthym a oeddent yn teimlo eu bod heb gael profiadau hanfodol yn yr ysgol a fyddai wedi cyfrannu at eu sgiliau a/neu hyder fel athro fel arfer ai peidio.  Fel y gwelir yn Ffigur 4 isod, roedd y mwyafrif llethol (171/223, sef tua 77 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad, ac roedd ychydig yn llai na 9 y cant yn anghytuno ag ef.

**Ffigur  4. I ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant presennol a diweddar yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad: *'Rwy'n teimlo na chefais brofiadau hanfodol yn yr ysgol a fyddai wedi cyfrannu at fy sgiliau a/neu hyder fel athro fel arfer' (n=223)***



3.47 Daeth darlun tebyg i'r amlwg pan wnaethom ofyn yr un cwestiwn i addysgwyr athrawon. Roedd 87 y cant ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad '*Ar y cyfan rwy'n teimlo bod llawer o fyfyrwyr heb gael profiadau hanfodol yn yr ysgol a fyddai wedi cyfrannu at eu sgiliau a/neu hyder fel athro fel arfer*'.

*3.48* Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod data eraill yn yr astudiaeth yn awgrymu bod mwyafrif bach o athrawon dan hyfforddiant yn teimlo y gallent gymryd rhan yn llawn yn y gweithgarwch addysgu, dysgu ac asesu a oedd yn mynd rhagddo mewn gwirionedd, gan gynnwys ar-lein: efallai mai'r pwynt i'w bwysleisio yw bod llai ohono i gymryd rhan ynddo. Yn yr un modd, roedd rhai myfyrwyr o'r farn bod y tarfu ar leoliadau wedi arwain at rai effeithiau cadarnhaol yn ogystal â'r effeithiau negyddol. Serch hynny, mae'r canfyddiadau a amlinellir uchod yn cynnig sail gadarn dros bryderu am y cyfleoedd a gafodd y myfyrwyr hyn i feithrin eu sgiliau a theimlo'n hyderus wrth ymuno â'r proffesiwn.

*3.49 Asesu ymarfer athrawon dan hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth*

Tarfwyd yn ddifrifol ar y broses o asesu myfyrwyr AGA o fis Mawrth 2020 ac, o'r adeg hon ymlaen, ni fu modd asesu yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion. Ar gyfer carfan TAR 2019/20, gwelwyd newid sydyn ac amlwg oddi wrth ymarfer sefydledig o ran casglu tystiolaeth i gyrraedd y safonau. Dywedodd y cyfweleion fod y dystiolaeth a oedd ar gael wedi cael ei defnyddio mewn ffordd greadigol i gyfrifo trywydd 'dychmygol' neu 'debygol' o ran y ffordd y gallai'r myfyrwyr fod wedi cyrraedd y safonau pe baent wedi cwblhau'r rhaglen dan amodau cyn y pandemig. Ymddengys fod hyn yn amrywiad o'r addasiadau 'dim niwed' eang a oedd yn gyffredin ym mhob rhan o sector addysg uwchradd y DU. Fodd bynnag, roedd asesu'r holl fyfyrwyr yn heriol, ac yn arbennig o anodd yn achos myfyrwyr ar y ffin a allai fod wedi cael budd o dreulio mwy o amser yn yr ystafell ddosbarth neu gael cymorth ychwanegol i feithrin eu dealltwriaeth a'u hymarfer.

3.50 Yn ein data, dywedodd llawer o athrawon dan hyfforddiant, ni waeth ar ba fath o raglen nac ym mha garfan, eu bod wedi cael llai na'r disgwyl o arsylwadau, a llai o adborth ar ymarfer gan fentoriaid a thiwtoriaid yn y brifysgol. Gwnaethant hefyd ddweud bod y rhestr o weithgareddau a oedd yn 'cyfrif' ar gyfer arsylwadau wedi cael ei hehangu a'i gwneud yn fwy hyblyg, gan gynnwys dogfennau cynllunio gwersi a chofnodi gwersi ymlaen llaw, er enghraifft. Dywedodd y mwyafrif o'r myfyrwyr a ymatebodd i'n harolwg na chawsant hwy na'u cydfyfyrwyr asesiadau o'u hymarfer

yn yr ystafell ddosbarth gan staff y brifysgol. Mewn un cyfweliad, soniodd mentor am gynnal asesiad ar y cyd â'r tiwtor o'r brifysgol o bell drwy gyswllt fideo – fodd bynnag, roedd hyn ar yr amod bod rhaid i'r camera fideo gael ei osod fel ei fod ond yn dangos yr athro, er mwyn cydymffurfio â pholisi'r ysgol.

> ‘Ac ni wn chwaith a oes mwy o sicrhau ansawdd fel arfer. Ond ni welais ddim o'r fath ... siaradais â'm tiwtor o'r brifysgol, oherwydd roeddwn wir yn poeni bod fy mentor wir wedi fy marcio'n rhy uchel. Ac nid oeddwn yn teimlo ei fod yn adlewyrchu... ble roeddwn arni, ond fi oedd ei myfyriwr cyntaf erioed ac ni wnaeth neb arall fy ngwylio ... oherwydd nad oeddem i fod i gymysgu ac ati, ond rwyf hefyd yn poeni am hynny oherwydd rwy'n meddwl tybed a oes... beth... sut maent yn gwneud yn siŵr bod pawb ar yr un... oherwydd rwy'n credu, fel arfer, efallai y byddai tiwtoriaid y brifysgol yn dod i mewn, neu'r uwch-fentoriaid. Wn i ddim. Ond rwy'n credu bod hynny'n normal. Ond i ni dim ond ein hathro dosbarth oedd yno.’

*Athro dan hyfforddiant TAR 20/21, Uwchradd*

3.51 Soniodd un mentor uwchradd am fyfyrwyr yn cael eu hamddifadu ‘yn llwyr’ o gymryd rhan mewn asesu gan athrawon a gorfod llunio barn mewn perthynas â hynny yn yr ail o ddau leoliad: byddai profiad y myfyrwyr o'r materion hyn wedi bod yn anuniongyrchol iawn ac wedi'i gyfyngu i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd ar arsylwi ar ystafelloedd dosbarth yn y lleoliad cyntaf. Dywedodd un addysgwr athrawon mewn ysgol fod y profiad o asesu yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth fain i garfan 2019/20:

> ‘Gofynnwyd inni...gan mai'r ail leoliad oedd hwn hefyd, byddent (yr athrawon dan hyfforddiant) wedi cael un arsylwad swyddogol, a gofynnwyd inni, mewn gwirionedd, a oeddent yn destun pryder, ac a oeddem yn meddwl...gyda phrofiad, y byddent....a ydym yn credu y byddem wedi bod yn iawn? A fyddent wedi pasio? Ac rwy'n credu mai'r ateb, yn ffodus i bob un ohonynt, oedd, i ni, byddent. Roedd llawer o'r hanfodion ganddynt. Ni fyddwn yn dweud y byddent wedi bod...y byddent wedi bod ble roeddent pan wnaethant orffen, na fyddwn, ond rwy'n credu y byddai pob un ohonynt, gyda chymorth, wedi cyrraedd y safon. A yw hynny'n iawn? Byddwn yn dweud mai ychydig iawn o dystiolaeth a oedd gennym, mewn gwirionedd, i lunio'r farn honno.’

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.52 Mynegwyd pryder tebyg gan fentor arall mewn ysgol uwchradd, yr oedd ei sylw hefyd yn cydnabod sut y gallai'r problemau barhau i gael effaith: 'Mae yna bryder...gofynnais y cwestiwn i'n tiwtor o'r brifysgol yn ddiweddar, o ran beth os na fydd y dystiolaeth gennym iddynt erbyn...iddynt orffen, beth... beth byddwn yn ei wneud wedyn? A daeth yr ateb yn ôl – wel, nid eu bai nhw yw hyn; maent mewn sefyllfa...ni allant fethu o reidrwydd oherwydd, nid ydynt wedi cael y cyfle i'w wneud. Felly mae'n un anodd iawn – tir peryglus. Mae'n gymhleth iawn...Ac fel y dywedwch, y flwyddyn nesaf, mae'n bosibl mai nhw fydd eich ANGau ac...ac a gaiff addasiad ei wneud yno?'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

*3.53 Effaith ar aseiniadau ymchwil athrawon dan hyfforddiant*

Gwnaethom sôn yn gynharach fod ymarfer seiliedig ar ymchwil wedi dod yn rhan fwy canolog o AGA fel rhan o'r diwygiadau diweddar yng Nghymru. Un o'r ffyrdd y mae hyn i'w weld yn ymarferol yw bod aseiniadau seiliedig ar ymchwil wedi dod yn elfennau allweddol mewn rhaglenni AGA. Bu'n rhaid i bob partneriaeth wneud addasiadau i'r aseiniadau seiliedig ar ymchwil o ganlyniad i gyfyngiadau yn sgil y pandemig. Roedd yr amser paratoi a oedd ar gael i wneud hyn yn amrywio'n fawr rhwng y ddwy garfan yr effeithiodd y pandemig arnynt:

> 'Fel arfer, byddai'r myfyrwyr yn gwneud darn o waith ymchwil gweithredol. Wel, nid oedd hynny'n bosibl dan yr amgylchiadau. Felly, yr hyn a ddigwyddodd ddiwedd y llynedd oedd bod yr aseiniad wedi cael ei addasu'n astudiaeth desg a gwerthusiad beirniadol o chwe erthygl ymchwil.'

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.54 Mae'r data'n awgrymu mai canfyddiadau addysgwyr athrawon mewn SAUau, ar y cyfan, oedd bod yr aseiniadau hyn a gafodd eu hailffurfio'n gyflym iawn yn 2019/20 wedi cael eu rheoli'n llwyddiannus, ond rhoddodd athrawon dan hyfforddiant wybod am brofiadau mwy amrywiol o'r newidiadau hyn:

> 'hyn a achosodd y mwyaf o straen, oherwydd roedd pawb wedi cynllunio eu haseiniad ac roedd ganddynt ragolwg, ac roeddent ar drywydd ac roeddent yn meddwl eu bod yn gwybod beth roeddent yn ei wneud, a chafodd popeth ei daflu oddi ar y cledrau. Fel y dywedais, rwy'n teimlo bod ein tiwtoriaid wedi

bod o gymorth mawr ac wedi gwneud llawer i'n helpu.  Byddent yn ateb negeseuon e-bost yn gyflym iawn a byddent yn cynnig bwrw golwg dros y gwaith neu gynnal sesiynau galw heibio holi ac ateb, a oedd yn ddefnyddiol dros ben.  Ond rwy'n credu bod hynny, unwaith eto, yn newid mawr hefyd – gorfod gwneud yr aseiniad cyfan ar eich pen eich hun.'

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Uwchradd*

3.55 I un athro dan hyfforddiant, gwnaeth y defnydd o lwyfan addysgu a dysgu ar-lein gyfraniad sylweddol at ddeall natur yr aseiniad a disgwyliadau'r tiwtoriaid:

> 'roedd cael gwybodaeth wedi'i chofnodi am sut i fynd ati i wneud yr asesiad yn llawer mwy defnyddiol na chyflwyniad PowerPoint yn unig... Ond rwyf hefyd wir yn hoffi ar [*Moodle*], rwy'n gwybod bod rhai darlithwyr wedi penderfynu defnyddio cyfleuster lle y byddent yn lanlwytho unrhyw gwestiwn a fyddai wedi cael ei ofyn iddynt drwy e-bost, a'r ateb a roesant.  Felly, cyn ichi e-bostio'r darlithydd, gallech [fynd i'r] dudalen *Moodle* ar gyfer y modiwl hwnnw ac roedd yno deilsen a oedd yn cynnwys cwestiynau asesu, a gallech weld pa atebion a roddwyd i gwestiynau cyffredin.  Ac roeddwn yn meddwl bod hynny'n ddefnyddiol iawn.'

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd*

3.56 Ar yr un pryd, dywedodd staff SAUau eu bod wedi gweld bod angen datblygu'r aseiniadau seiliedig ar ymchwil ymhellach ar gyfer carfan 2020/21:

> 'Felly, rydym wedi dilyn proses debyg eleni gyda llyfryddiaeth wedi'i hanodi'n feirniadol. Fel rhan o'r aseiniad hwn, yn hytrach na bod y myfyrwyr yn llunio crynodeb gweithredol, roedd yn ofynnol i'r athro dan hyfforddiant wneud aseiniad ysgrifenedig a naill ai cyflwyniad PowerPoint wedi'i drosleisio neu ffeithlun sy'n rhoi adborth i'r ysgol a'r timau uwch-reolwyr, gyda'r gobaith y bydd yn effeithio ar ymarfer.'

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.57 Er gwaethaf hyn, yn ystod y cyfweliadau dywedodd rhai athrawon dan hyfforddiant nad oeddent yn glir ynghylch perthnasedd yr aseiniad seiliedig ar ymchwil hwn i ddatblygu eu hymarfer:

> 'Nid wyf yn gwybod pa mor berthnasol oedd hyn i'w ddefnyddio yn yr ysgol go iawn, oherwydd ni oedd cymaint â hynny ar gael ac rwy'n credu bod y pethau mwyaf perthnasol a oedd yn digwydd o ran dysgu cyfunol yn llythrennol yn

digwydd yn yr ysgolion. Rwy'n siŵr y bydd y llenyddiaeth honno'n anhygoel mewn blwyddyn neu ddwy, a'r hyn y daeth pobl o hyd iddo. Ond, mewn gwirionedd, roeddwn yn teimlo ei fod yn ddwys iawn o ran testun ... Felly, yn bersonol, nid wyf yn credu fy mod wedi cymryd llawer iawn ohono.'

*Athro dan hyfforddiant TAR 20/21, Uwchradd*

3.58 Dywedodd rhai addysgwyr athrawon mewn ysgolion am fod gwahaniaeth amlwg a chadarnhaol rhwng yr aseiniadau hyn a'r rhai cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol, a bod safon y gwaith a wnaed gan y myfyrwyr wedi codi'n sylweddol:

'Gwnaethant eu cyflwyniadau (aseiniad ymchwil ar y llyfryddiaeth wedi'i hanodi'n feirniadol a chyflwyniad gweledol)...yr wythnos diwethaf ac roeddwn wedi fy syfrdanu; roeddent yn rhagorol. Ac mae'n... dangos, mewn gwirionedd...am eu bod wedi cael llawer o amser a dweud y gwir, i fynd ati o ddifrif i edrych i mewn i'w...gwaith ymchwil, ond...(o'r blaen byddent wedi bod yn)...ceisio ei gydbwyso fel arfer â llwyth o gynllunio a...phopeth. Roeddwn yn teimlo bod y safon...gymaint yn well eleni a dweud y gwir, felly, mae...rhai pethau cadarnhaol... A gwnaethant siarad yn llawn angerdd, am...eu canfyddiadau.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Cynradd*

3.59 Efallai y gellir priodoli'r gwahaniaeth hwn i'r amser paratoi ychwanegol yn 2020/21 a oedd yn fodd i ailddehongli cwmpas a diben yr aseiniad â ffocws mwy pendant, ac i hyn gael ei gyfleu'n glir i'r myfyrwyr; fodd bynnag, gallai hefyd fod o ganlyniad i'r ffaith bod yr athrawon dan hyfforddiant eu hunain wedi cael mwy o amser i ganolbwyntio ar yr aseiniadau tra oedd rhai o'u hymrwymiadau arferol eraill wedi'u lleihau.

3.60 Mae'r profiad cyffredinol o'r newid hwn i aseiniad ymchwil 'addas ar gyfer COVID-19' *wedi'i ddylunio* yn ddiddorol oherwydd y posibilrwydd y gallai newid arferion yn y tymor hwy. Disgrifiodd un arweinydd AGA sut roedd y ffordd gyfredol o feddwl mewn un bartneriaeth wedi cael ei hysgogi gan brofiadau diweddar:

'Rwy'n credu bod y cymorth ar gyfer ymholiadau ymchwil wedi cynyddu ac wedi newid o ganlyniad i rywfaint o adborth y llynedd hefyd. Felly, mae mwy o sesiynau seminar, cyfleoedd i alw heibio a gofyn cwestiynau...Yn amlwg, mae mor bwysig bod myfyrwyr yn gyffredinol yn cael profiad o ymholiadau ymchwil gweithredol, ond rwy'n credu mai un o'r heriau y maent wedi'u hwynebu mewn

blynyddoedd blaenorol yw efallai nad oedd y myfyrwyr yn barod i wneud gwaith ymchwil ar gyfer prosiect cyfan. Er enghraifft, bu'n rhaid iddynt amgyffred yr adolygiad o'r llenyddiaeth, y dull, y foeseg, casglu data, dadansoddi...ac roedd yn ormod i'w wneud tra eu bod ar leoliad hefyd. Felly, yn y pen draw, roedd safon y gwaith yn gyffredin efallai, yn hytrach na cheisio gwneud gwaith da iawn mewn un maes ymchwil fel adolygiad beirniadol o'r llenyddiaeth.'

Ac

'O, a dweud y gwir, gallai hwn fod yn newid gwell ein bod yn cadw hyn...ni fyddem byth wedi gallu gwneud y newidiadau hyn heb COVID. Ac mewn gwirionedd, mae...mwy o gysylltiad rhwng gwaith ymchwil y myfyrwyr a'r ysgol a'r ysgol yn elwa ac fel arall hefyd.'

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.61 I fyfyrwyr TAR yn nwy 'garfan y pandemig', effaith y tarfu ar leoliadau wyneb yn wyneb mewn ysgolion oedd bod aseiniadau ysgrifenedig, yn sydyn iawn, wedi colli llawer o'u cysylltiad bwriadedig ag ymarfer. Roedd yn ymddangos bod y cyfnodau o gyfyngiadau symud cenedlaethol wedi tarfu llai ar aseiniadau myfyrwyr BA. Yn y dyfyniad canlynol, mae athrawes dan hyfforddiant o garfan 2019/20 yn disgrifio sut brofiad oedd rheoli newid sylfaenol yn natur a chwmpas aseiniad ysgrifenedig mawr:

'Rwy'n credu mai'r newid mawr i mi oedd bod rhaid iddynt newid fy aseiniad... yr aseiniad cyfan, yn y bôn, oherwydd ni fyddwn yn gallu cael data ar ddisgyblion mwyach...y bwriad oedd mai'r prosiect ymchwil yn ysgol arweiniol y bartneriaeth fyddai fy ail aseiniad. Ac roedd hyn ar adeg o'r flwyddyn pan oeddwn ar fin casglu fy nata...roeddwn wedi cynllunio'r hyn y byddwn yn ei wneud, a'r pythefnos canlynol cyn hanner tymor fyddai fy nghyfnod casglu data, felly nid oedd gen i ddata i gwblhau'r aseiniad. Felly ar ôl cael yr holl ddarlithoedd yn dweud "dyma sut yr hoffem ichi wneud yr aseiniad, dyma ganllawiau ar sut i fynd ati" ac yna roedd y ffaith bod rhaid i hynny i gyd newid tra oeddwn gartref, ac yna fy mod yn methu mynd i mewn i'r brifysgol a dweud nad oeddwn yn siŵr beth oedd yn digwydd mwyach, yn anodd iawn.'

*ANG ac athrawes dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd*

3.62 Yn ogystal â nodi mor anodd oedd y newid i natur yr aseiniad ei hun, â'r fyfyrwraig yn ei blaen i gyfeirio at newid yn y profiad o baratoi ar gyfer yr aseiniad ymchwil. Arweiniodd y newid o addysgu a chymorth ar y campws i sesiynau ar-lein at sefyllfa lle roedd myfyrwyr yn teimlo bod ganddynt hyblygrwydd o ran bod yn bresennol yn y sesiynau byw neu wylio recordiadau yn nes ymlaen. Gan fod llai o fyfyrwyr yn bresennol yn y sesiynau (oherwydd natur rhyngweithio ar-lein o bosibl) roedd y fyfyrwraig hon o'r farn bod llai o gyfle i wrando ar eraill a chlywed safbwyntiau gwahanol, gan ystyried bod hyn yn golled. Fodd bynnag, pwysleisiodd cymaint yr oedd wedi gwerthfawrogi cymorth y tiwtoriaid:

> ‘Ni allaf roi barn ar diwtoriaid eraill, ond roedd ein tiwtoriaid ni yn barod iawn i helpu. A gwnaethant yn siŵr, hyd yn oed er bod yr aseiniad cyfan wedi cael ei daflu oddi ar y cledrau a'n bod wedi cael un newydd, fod pawb wedi llwyddo yn yr aseiniad gan gyrraedd lefel dda.’

*ANG ac athrawes dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd*

*3.63 Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) sy'n defnyddio Pebblepad*

Adnodd portffolio ar-lein sy'n defnyddio meddalwedd PebblePad yw'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, lle y gall myfyrwyr gadw eu cynlluniau a'u gwerthusiadau, casglu eu tystiolaeth ynghyd yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, cofnodi eu datblygiad personol a phroffesiynol, cadw eu ffurflenni asesu a chofnodi eu presenoldeb. Fe'i cyflwynwyd gyntaf fel nodwedd orfodol mewn AGA ym mis Medi 2019 a dyma'r lle i athrawon dan hyfforddiant gofnodi eu taith tuag at ennill Statws Athro Cymwysedig. Byddant yn mynd â'r PDP gyda nhw wrth ymuno â'r proffesiwn os byddant yn aros yng Nghymru i weithio fel athrawon. Daeth yn bwysicach o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19 (i fyfyrwyr TAR a myfyrwyr BA ar eu blwyddyn olaf) am ei fod yn cynnig y brif ffordd i athrawon dan hyfforddiant ddangos eu bod yn cael ‘profiadau’ a oedd yn gysylltiedig â'r safonau sy'n ofynnol er mwyn ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC):

> ‘Rwy'n credu...(mewn perthynas â'r) PDP, mai'r prif beth nad oeddem yn ei wneud yn dda y llynedd ac y bydd angen inni ei wella yw defnyddio'r PDP yn ffurfiannol. Oherwydd, yn amlwg, yn y PDP mae'n bosibl rhoi adborth ffurfiannol...ar unrhyw ddogfen. Roedd ambell aelod o'n staff yn dda iawn am wneud hyn. Gwnaeth rhai o'r mentoriaid sylwadau, ond byddwn yn dweud nad

oedd y mwyafrif ohonom...yn dda am ddefnyddio'r PDP yn ffurfiannol. Felly roeddem yn ei weld fel rhyw fath o gronfa grynodol o ffurflenni y byddem yn eu defnyddio ar yr adegau asesu hynny. Ond, mewn gwirionedd, mae ganddo gymaint yn fwy o botensial i fod yn adnodd ffurfiannol ac rydym bellach yn sylweddoli hynny ac yn bwriadu... ymgorffori hynny yn y dyfodol.  Ond nid oeddem yn dda am wneud hynny, yn ôl ym mis Mehefin...o fis Mawrth tan fis Mehefin.'

*Arweinydd Rhaglen mewn SAU*

3.64 Dechreuodd y defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) i ategu gwaith myfyrio gael ei ystyried yn adnodd amhrisiadwy i addysgwyr athrawon mewn SAUau yn absenoldeb ffyrdd arferol a sefydledig o weithio:

> 'Yn sydyn digwyddodd COVID ac, felly, daeth y PDP yn rhyw fath o gronfa gwbl hanfodol i bob un ohonom.  Oherwydd roedd gan bob un ohonom fynediad ato.  Roedd myfyrwyr yn lanlwytho eu tystiolaeth o'r safonau.  Roedd mentoriaid yn lanlwytho eu holl ffurflenni asesu.  Felly, rwy'n credu mai un o'r deilliannau cadarnhaol oedd y ffaith bod y berthynas â'r PDP wedi dod yn llawer mwy cadarnhaol oherwydd COVID.  A nawr, ym mis Medi, Hydref, Tachwedd, gyda'n myfyrwyr presennol, rydym mewn sefyllfa lawer gwell o ran deall y PDP fel staff, sut i'w gyflwyno i'n myfyrwyr, sut i'w gyflwyno i'n mentoriaid.  Felly mae hynny...wedi bod... daeth yn rhaff achub imi, bron, mewn gwirionedd, o ran y ffordd gyfunol roedd pawb yn rhan o asesiadau'r myfyrwyr.'

*Addysgwr Athrawon mewn SAU*

3.65 Awgrymodd yr addysgwyr athrawon mewn SAUau a gyfwelwyd fod y rhai a oedd yn defnyddio'r PDP fel addysgwyr athrawon (mewn ysgolion) wedi meithrin dealltwriaeth fanylach a'r gallu i'w ddefnyddio. Roedd y dystiolaeth a lanlwythwyd i'r PDP yn ategu'r ymweliadau sicrhau ansawdd rhwng mentoriaid a thiwtoriaid prifysgol ar gyfer y ddwy garfan yr effeithiodd y pandemig arnynt. Cyn COVID-19, roedd y broses sicrhau ansawdd yn cynnwys tiwtor o'r brifysgol a mentor yn gwylio hanner gwers ac yna'n trafod y dystiolaeth. Yn ystod y pandemig:

> 'Yn hytrach na mynd i mewn a gwylio hanner gwers, gall popeth arall ddigwydd. Byddai'r craffu ar y PDP. Byddai'r Uwch-fentor a'r Tiwtor o'r Brifysgol yn edrych arno, yn chwilio am y dystiolaeth eu bod wedi cyrraedd

y...targedau roeddem wedi'u pennu. Wedyn byddai'r Uwch-fentor a'r Tiwtor o'r Brifysgol yn cael trafodaeth am y myfyriwr hwnnw neu'r sampl o'r myfyrwyr hynny.’

*Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.66 Hefyd, roedd addysgwyr athrawon mewn SAUau o'r farn bod athrawon dan hyfforddiant yn gwneud llawer mwy yn annibynnol mewn perthynas â'u datblygiad personol nag y byddent wedi'i wneud o'r blaen o bosibl, a bod hyn yn gysylltiedig â defnyddio'r PDP yn benodol.

‘o ran annibyniaeth a'r myfyrwyr yn gorfod cymryd perchenogaeth dros eu datblygiad proffesiynol eu hunain...gwelais fod hyn yn wir. Pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud, roeddent yn cymryd rhan mewn cyrsiau, cyrsiau ar-lein roeddem yn eu hawgrymu, yn ennill cymwysterau ychwanegol ac, efallai, yn benodol mewn perthynas â'r PDP.’

*Addysgwr Athrawon mewn SAU*

‘y cyfrifoldeb hwnnw i'r myfyrwyr... rydym bob amser wedi gofyn iddynt hunanasesu, ond yn sydyn roeddent yn cael eu herio ynghylch eu hunanasesu ac roeddem wir yn gofyn iddynt gynhyrchu'r dystiolaeth. Rwy'n credu y bu newid pendant yn hynny o beth, y llynedd.’

*Addysgwr Athrawon mewn SAU*

3.67 Roedd safbwyntiau athrawon dan hyfforddiant ar y PDP yn fwy cymysg, gan amrywio o safbwyntiau cwbl gadarnhaol i rai mwy beirniadol. Er enghraifft, i un athro dan hyfforddiant, bu'r PDP yn amhrisiadwy fel adnodd wrth iddo ddatblygu'n athro newydd gymhwyso:

‘Roedd ein PDP gennym hefyd. Hwnnw oedd un o'r prif bethau. Aeth llawer o'n tystiolaeth drwy'r PDP, a oedd yn fuddiol dros ben oherwydd, erbyn hyn... rwy'n gweithio ar fy PDP nawr fel ANG. Ac mae mor anhygoel o fuddiol.’

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd*

Fodd bynnag, wynebodd eraill anawsterau:

‘Wrth ddefnyddio PebblePad/PDP yn gyffredinol, gwelais...fod myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd canfod eu ffordd o gwmpas, ac yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd yr un Cymraeg wedi'i ddatblygu i'r un safon â'r un Saesneg ac roedd hynny'n rhwystr mawr iawn. Roeddem yn teimlo bod rhaid inni wneud llawer mwy o waith na'r ochr Saesneg yn barod. Oherwydd

roeddech yn gwybod y byddai lwyddo neu fethu'r flwyddyn i gyd yn dibynnu ar bortffolio roedd rhywun arall yn mynd i edrych arno ...Felly rwy'n credu bod hynny'n anodd iawn, gwybod bod pawb yn dibynnu ar un llwyfan digidol, a'ch bod heb weld un neb arall am eich bod heb weld neb ers misoedd, felly nid oedd modd cymharu.'

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd, Cyfrwng Cymraeg*

'Rwy'n credu, o ran casglu'r data a'u rhoi ar y pasbort dysgu proffesiynol, rwy'n credu y byddai mwy o arweiniad ar sut i ddefnyddio'r PDP ar ddechrau...ar ddechrau'r flwyddyn wedi bod yn fuddiol, yn bendant ... Felly, i mi, yr elfen o wybod beth i'w roi ynddo, fwy na thebyg.'

*Athro dan hyfforddiant ar raglen TAR 20/21, Cynradd*

*3.68 Yr effaith ar y Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth*

Ar adeg y cyfyngiadau symud gwreiddiol yn ystod gwanwyn 2019/20, bu darparwyr AGA a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'i gilydd i lunio dull cenedlaethol o ymateb i'r angen i asesu myfyrwyr AGA yn ystod y pandemig:

'Gwnaethom gydweithio fel grŵp o ddarparwyr i lunio'r 'trywydd i lwyddo'...felly enillodd y rhai a oedd ar y trywydd hwnnw i lwyddo yn hytrach na bod wedi cyrraedd y safonau yn unig, radd llwyddo.'

*Arweinydd Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.69 O safbwynt athrawon dan hyfforddiant, cafodd y cymorth datblygiadol a fabwysiadwyd ar gyfer y broses ei groesawu:

'Rwy'n gwybod eu bod wedi newid...(y trefniant). Rwy'n gwybod mai'r bwriad oedd y byddem yn gallu cyrraedd SAC erbyn diwedd y flwyddyn, ac rwy'n meddwl ei fod yn beth da iawn eu bod wedi newid hynny. Oherwydd rwy'n credu ei bod yn afrealistig disgwyl i bob un ohonom fod wedi cyrraedd safon SAC erbyn mis Mawrth er ein bod i fod yno tan fis Mehefin...Ac roeddwn yn credu bod hynny wedi helpu llawer ohonom pan oeddem yn asesu ein hunain bryd hynny, i ddal i deimlo fel ein bod wedi gwneud y cynnydd y dylem fod wedi'i wneud yn yr amser hwnnw. Ond nid oedd yn teimlo fel ein bod wedi methu'r flwyddyn TAR drwy beidio â bodloni'r meini prawf a bennwyd ar y dechrau am fod llai o amser gennym...Pan oeddem yn asesu ein hunain ac yn cael ein hasesu gan yr ysgolion, rwy'n credu eu bod wir yn deall hyn hefyd. A

chefais lawer o adborth cadarnhaol ar yr hyn y llwyddais i'w gyflawni mewn amser byr, a chefais rai camau y gallwn eu dilyn i wella fy hun yn ystod misoedd cyntaf fy swydd, fel y byddwn wedyn yn gallu ennill safon SAC erbyn y Nadolig...roeddwn yn teimlo bod hynny o gymorth.'

*ANG ac athro dan hyfforddiant 2019/20, Cynradd*

3.70 Fodd bynnag, roedd amseru'r cyfyngiadau symud cyntaf yn ystod gwanwyn 2020, a'r ffaith iddynt ddod i rym mor sydyn, yn golygu bod partneriaethau AGA yn wynebu heriau penodol a effeithiodd ar y gallu i gasglu tystiolaeth ar gyfer y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, fel y nodwyd gan addysgwr athrawon mewn ysgol yn yr enghraifft ganlynol:

'Digwyddodd y cyfyngiadau symud yn sydyn iawn. Felly, druan ohonynt (athrawon dan hyfforddiant), gwnaethant orffen, fwy neu lai. Roeddent ar ganol eu prosesau asesu gyda ni. Gweithiodd y brifysgol yn agos iawn gyda ni tua diwedd y flwyddyn academaidd, ac roeddwn mewn cyfarfod lle y gwnaethom drafod graddau a myfyrwyr roeddem yn pryderu amdanynt mewn perthynas â'r Safonau, tan fis Chwefror, Mawrth.'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.71 Mae ein data'n cynnwys sawl enghraifft o'r anawsterau a gododd wrth i weithgareddau asesu, a fyddai'n cyfrannu at gyrraedd y Safonau, gael eu torri'n fyr yn sydyn. Aeth staff yr ysgol i gryn dipyn o drafferth i gasglu cymaint â phosibl, gan gynnwys dwyn tystiolaeth ynghyd gan sawl cydweithiwr a oedd wedi gweithio gyda neu ochr yn ochr â'r athro dan hyfforddiant. Serch hynny, teimlid bod y broses hon yn anodd, ac mae'r dyfyniad canlynol gan uwch-fentor yn nodweddiadol yn y ffordd y mae'n disgrifio rhai o'r anawsterau:

'Roedd yn gweithio'n wahanol (rhwng)...y ddwy (athrawes dan hyfforddiant) a oedd gyda ni. Roedd un yn eithaf da am gwblhau pethau ac anfon popeth ar amser, a'r llall – wel, nid oedd cystal ac roedd yn tueddu i anfon yr un peth yn ôl ataf bob tro. Ac, mewn gwirionedd, nid oedd yn dangos yr hyn roeddwn am iddo ei ddangos. Felly, roedd hynny'n lletchwith mewn ffordd oherwydd nid oeddwn yn teimlo bod gennym ddigon o dystiolaeth i ddweud – "Ydy, mae'n iawn rhoi gradd llwyddo iddi." Ond nid oedd gennym ddigon o dystiolaeth i ddweud nad oedd yn ddigon da i lwyddo chwaith. Roeddwn yn teimlo nad oedd gennym ddigon o wybodaeth amdani...rwyf bron yn meddwl y byddai

wedi bod yn haws mynd yn ôl at eu hysgol gyntaf a dibynnu ar ble roeddent arni pan wnaethant adael, ac yna eu rhoi ar drywydd o ran ble y byddent wedi bod fel y gallem roi gradd llwyddo iddynt, neu beth bynnag. Ond, wel, gwnaethom ymdopi!'

*Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.72 Hefyd, ar adegau, arweiniodd y sefyllfa hon – yn enwedig mewn perthynas â charfan 2019/20 – at yr ysgolion a'r prifysgolion yn cwestiynu eu barn:

> '[Un anhawster mawr] ...oedd gwybod pa mor gywir yr oeddem wrth lunio barn arnynt. Mae'r asesiadau hyn yn oddrychol ac, o'm profiad i o wneud hyn am lawer o flynyddoedd, yn y pedair neu bum wythnos olaf, gallwch weld llawer iawn o gynnydd, sef yr wythnosau olaf a gollwyd ganddynt.'

*Addysgwr Athrawon mewn SAU*

3.73 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'n ymddangos bod athrawon dan hyfforddiant wedi dod o hyd i ddigon o dystiolaeth i ddangos eu bod ar y trywydd i lwyddo. Fodd bynnag, roedd nifer bach iawn o fyfyrwyr na oedd yn bodloni'r trothwy ac a gafodd gymorth ac amser ychwanegol i gyrraedd y safonau yn y flwyddyn academaidd ganlynol, sef 2020/21.

3.74 A throi at garfan AGA 2020/21, cafodd cymhlethdod cynyddol y sefyllfa ei waethygu gan y gwahaniaethau rhwng ysgolion, er enghraifft p'un a oeddent yn gweithio wyneb yn wyneb neu'n rhithwir, lefel y dechnoleg yn yr ysgol, y cyfnod oedran a digwyddedd salwch COVID-19 yn yr ysgol. Cymeradwyodd rhai partneriaethau AGA ddull hyblyg wedi'i deilwra'n unigol ar gyfer ysgolion er mwyn rhoi tawelwch meddwl iddynt a sicrhau cydberthnasau cadarnhaol ymhlith partneriaid – yn y bôn, roedd gan yr ysgolion hyblygrwydd i benderfynu pryd fyddai'r adeg orau, o fewn cyfnod o dair wythnos, i leoliadau'r myfyrwyr ddechrau. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwaith paratoi a'r cyfle i ddysgu o'r cyfyngiadau symud cyntaf, roedd y partneriaethau'n teimlo'n fwy parod a hyderus ar gyfer blwyddyn 2020/21 er gwaethaf yr heriau parhaus a dyddiol:

> 'Rwy'n credu bod pethau'n wahanol iawn y tro hwn. Rydym yn gweld eu cynlluniau gwersi, rydym yn gweld ble maent...ble maent yn ceisio ymgorffori'r asesu. Mae gennym fwy o wybodaeth y tro hwn. Ni fyddant yn cyrraedd... os bydd pethau'n parhau fel y maent, ni fydd ganddynt dystiolaeth ar gyfer pob safon, yn fy marn i, sy'n anodd, ond rwy'n credu y byddai gennym syniad

> llawer gwell y tro hwn a ydynt yn athrawon addas ar gyfer y dyfodol neu'n cyrraedd y safon i symud ymlaen, ond...mae'n amlwg y byddant ar ei hôl hi o gymharu â ble y byddent wedi bod, rwy'n credu.'
>
> *Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

3.75 Er mwyn rhoi rhagor o gymorth a thawelwch meddwl i athrawon dan hyfforddiant ac ysgolion, dywedodd Arweinydd un bartneriaeth AGA y bu ymgais 'i wneud yr hyn rydym yn ei wneud yn addas ar gyfer COVID-19'. Roedd hyn yn golygu glynu'n gaeth wrth egwyddorion model ymarfer clinigol, a hefyd 'arddel egwyddorion eithaf clir ynglŷn â lleoliadau rhithwir.' Roedd yr ail o'r ddau yn cynnwys cadw ffocws clir ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i bob athro dan hyfforddiant, a cheisio pwysleisio lefel o gysondeb o ran profiadau a disgwyliadau i athrawon dan hyfforddiant er gwaethaf yr amrywiaeth yng nghyd-destunau ysgolion:

> 'yr hyn a wnaethom ganolbwyntio arno er cysondeb oedd y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ac, yn y lle cyntaf, gwnaethom ddefnyddio...(targedau mewnol a oedd yn gysylltiedig â'r safonau) fel man cychwyn. Yr hyn a wnaethom oedd rhoi hyblygrwydd i ysgolion, ond gofyn iddynt, waeth beth fo'u sefyllfa o ran technoleg isel neu dechnoleg uchel a chyd-destun, i ganolbwyntio ar hyn. Wedyn gwnaethom roi cymorth a syniadau ynghylch sut y gallai athrawon dan hyfforddiant gyrraedd y safonau, boed yn rhithwir neu wyneb yn wyneb.'
>
> *Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*


*3.76 Llais y dysgwr ynghylch dangos tystiolaeth o'r safonau yn ystod AGA*

Roedd ein harolwg yn gofyn i athrawon dan hyfforddiant presennol ac athrawon newydd gymhwyso ddweud wrthym pa un o'r pum maes yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth oedd yr anoddaf i ddangos tystiolaeth ar ei gyfer. Fel y gwelir yn Ffigur 5 isod, y maes a ddewiswyd amlaf oedd 'arweinyddiaeth', ar 41 y cant, ac mae ein data ansoddol yn cynnig rhai cliwiau sy'n awgrymu y gall hyn fod o ganlyniad i'r cyswllt llai dwys a gafodd athrawon dan hyfforddiant â'r arweinwyr a'r athrawon yn gweithio mewn timau. Y maes a nodwyd amlaf ond un oedd 'addysgeg', ar 21 y cant. Dyma'r maes yn y safonau lle mae profiadau asesu'n gwneud y cyfraniad mwyaf, fwy na thebyg.

‘Ond cyn y Pasg roeddwn yn meddwl – rheoli ystafell ddosbarth yw un o'r safonau – ac roeddwn yn meddwl, sut mae dangos sgiliau rheoli ystafell ddosbarth?  Sut mae profi sgiliau rheoli ystafell ddosbarth? ... mae wedi bod yn anodd, yn enwedig mewn perthynas â rhai o'r safonau sy'n gysylltiedig ag arwain eich cydweithwyr, arwain prosiectau.  Wel, pethau tebyg; rwy'n gerddor felly fel arfer byddwn yn helpu cerddorfeydd yr ysgol neu bethau tebyg na allwch eu gwneud, ond mae'n anodd.’

*Athro dan hyfforddiant TAR 2020/21, Uwchradd*

**Ffigur 5. Pa un o'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth oedd yr anoddaf i athrawon dan hyfforddiant presennol ac athrawon newydd gymhwyso ddangos tystiolaeth ohoni yn eu barn nhw (n=219).**



3.77 Mae'n ddiddorol cymharu Ffigur 5 uchod â'r ymatebion a gawsom gan staff ysgolion a SAUau sy'n ymwneud ag addysg athrawon. Dywedodd tua 64 y cant ohonynt eu bod o'r farn bod dwyn tystiolaeth ynghyd i ddangos bod myfyrwyr nodweddiadol wedi cyrraedd (neu eu bod yn cyrraedd) y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth' yn anos yn ystod cyfnod COVID-19.

3.78 Yn y cyfweliadau ag athrawon dan hyfforddiant, tynnwyd sylw at y manylion sy'n sail i'r math o drosolwg a welwn yn Ffigur 5 uchod. Gwnaeth y cyfranogwr canlynol sylw ar asesu yn benodol:

> 'Asesu – a dweud y gwir, roeddwn yn edrych ar fy Pebble Pad, sef y portffolio ar-lein sydd gennym, heddiw ac asesu yw un o'r pethau y mae angen imi weithio arnynt, yn sicr. Dim ond oherwydd, yn amlwg, nid wyf wedi addysgu gwersi byw ac nid wyf wedi bod yn yr ystafell ddosbarth. Nid wyf wedi cael cyfle i ddatblygu fy asesu ar gyfer dysgu o gwbl mewn gwirionedd. Felly mae hynny'n bendant yn rhywbeth nid wyf yn teimlo'n hyderus ynddo ar hyn o bryd. Ond, gobeithio, erbyn diwedd y deg wythnos byddwn yno, fwy neu lai... ond, yn sicr, mae'n darged ac mae'n rhywbeth nid wyf wedi cael llawer o brofiad ynddo eto.'

*Athro dan hyfforddiant TAR 2020/21*, *Uwchradd*

3.79 Roedd y sylwadau eraill a wnaed yn y cyfweliadau yn rhoi cipolwg ar brofiadau myfyrwyr ac yn dangos yr anawsterau a geir wrth geisio sicrhau eglurder pan gaiff y cyfleoedd i greu ystyr ar y cyd eu lleihau. Yn achos rhywbeth lle mae cymaint 'yn y fantol' fel meithrin dealltwriaethau a rennir mewn perthynas â'r disgwyliadau ar gyfer dangos tystiolaeth o'r safonau, nid yw'n syndod y byddai rhai myfyrwyr yn teimlo pryder a straen:

> 'A bod yn onest, rwy'n teimlo nad ydym wedi cael llawer o arweiniad gan y brifysgol. Rwy'n credu bod pawb yn yr un cwch, felly...yr hyn rwy'n ei gasglu gan y brifysgol yw nad yw am roi [h.y. pennu] nifer penodol o [eitemau o] dystiolaeth ar gyfer pob safon. Felly, nid yw'n awyddus i ddweud bod angen... hyn a hyn o dystiolaeth ar gyfer pob safon. Ond, wedyn, mae hynny'n golygu y gallwn fod yn sownd heb wybod beth i anelu ato. Felly, rwy'n gwybod bod gan rai o fy ffrindiau 30, 40 [o eitemau o] dystiolaeth wedi'u tagio ar gyfer rhai safonau, ond dywedwyd wrthyf fi mai dim ond chwech neu saith o ansawdd da roedd eu hangen arnom. Wedyn, yn amlwg, y cwestiwn yw beth yw ansawdd

da? ... Felly, dyna'r math o beth, yn fy marn i, y gallwn fod wedi cael mwy o eglurder yn eu cylch, yn enwedig o ystyried y flwyddyn, rwy'n credu y byddai llawer mwy o gymorth wedi bod o fudd inni.’

*Athro dan hyfforddiant TAR 2020/21, Uwchradd*

‘Rwy'n credu, o ran casglu'r data a'u rhoi ar y pasbort dysgu proffesiynol, rwy'n credu yn bendant y byddai mwy o arweiniad ar sut i ddefnyddio'r PDP wedi bod yn fuddiol...ar ddechrau'r flwyddyn...Roedd gan fy uwch-fentor syniad gweddol o ddiben y PDP ond nid oedd fy athro dosbarth na fy mentor wir yn gwybod dim byd am y PDP sy'n...felly roeddwn yn mynd yno yn disgwyl clywed popeth roedd disgwyl imi ei wneud ar gyfer y PDP ... Rwy'n credu roeddent yn dweud wrthym mor bwysig oedd y PDP hwn ac roeddent yn ailadrodd drosodd a throsodd, “gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud (eich) PDP ac ati.  Nid oeddwn bob amser yn teimlo fel bod llawer o ymhelaethu. Ond eto, nid wyf yn credu mai bai'r brifysgol oedd hyn o reidrwydd, oherwydd rwy'n credu mai'r rheswm oedd bod popeth yn newid yn fyrfyfyr...byddai wedi bod yn brafiach deall yn well sut i'w ddefnyddio yn gynharach oherwydd roedd yn teimlo'n frawychus iawn ac rwy'n gwybod bod llawer o bobl yn fy ngrŵp yn arbennig wir wedi dechrau ei chael hi'n anodd ymdopi â straen ac nid oedd eu hiechyd meddwl yn ddelfrydol ar gyfer llawer o bobl ar y cwrs.’

*Athro dan hyfforddiant ar raglen TAR 2020/21, Cynradd*

*3.80* *Arwyddion eraill o ddiffyg cyfle cyfartal mewn perthynas â'r safonau*

Mae ein data o'r cyfweliadau'n dangos bod y pandemig wedi cael mwy o effaith ar rai safonau a'u his-elfennau nag eraill. Er enghraifft, awgrymwyd bod cyfnod y cyfyngiadau symud yn addas ar gyfer dangos tystiolaeth o'r safonau mewn perthynas â dysgu cyfunol (Addysgeg – profiadau o ddysgu cyfunol), ymchwil (Dysgu Proffesiynol – darllen a chanfyddiadau ymchwil ehangach) a myfyrio (Addysgeg – myfyrio ar y dysgu). Fodd bynnag, effeithiwyd ar safonau eraill a allai fod yn fwy cymhleth mewn perthynas â'r ag agweddau niferus ar asesu, sy'n hanfodol i brofiadau dysgu ac addysgu o ansawdd ac sy'n helpu i nodi anghenion dysgwyr, (megis asesu ar gyfer dysgu, arferion asesu ffurfiannol, tracio a chyfleu cynnydd disgyblion ac ati) yn fwy nag eraill, gan arwain at fylchau ym mhortffolio'r athrawon dan hyfforddiant, a nododd athrawon dan hyfforddiant ac addysgwyr

athrawon eu hunain y byddai angen mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn ystod y flwyddyn ANG. Nodwyd hyn gan fyfyrwyr yn y ddwy garfan yr effeithiwyd arnynt o athrawon dan hyfforddiant:

> ‘Mae'n bosibl bod fy mhrofiad o asesu crynodol yn eithaf cyfyngedig. Hynny yw, yn y dosbarth meithrin mae'n eithaf... nid yw'n... nid yw'n gyffredin beth bynnag, asesu crynodol. Mae popeth yn ffurfiannol. Rwy'n credu fy mod wedi gwneud llawer o gynnydd mewn perthynas ag asesu ffurfiannol, yn bendant ... Felly rwy'n credu fy mod yn magu hyder ym maes asesu ffurfiannol, yn sicr. Mae hynny'n llai gwir am asesu crynodol, fwy na thebyg, ond rwy'n credu bod hynny am nad wyf wir wedi cael unrhyw brofiad ohono eto.’
>
> *Athro dan hyfforddiant ar raglen TAR 2020/21, Cynradd*

> ‘Felly, am iddo ddigwydd ar yr adeg y gwnaeth, ni chawsant...y cyfle i fynd ati o ddifrif i ddatblygu'r lefel honno o sgìl a phrofiad y...byddent wedi'i datblygu fel arfer...mewn perthynas â'r corff myfyrwyr yn gyffredinol, byddwn yn dweud, fwy na thebyg, o'r rhan fwyaf o'r safonau, mai asesu fyddai'r un a effeithiodd arnynt fwyaf oll, oherwydd y pandemig a'r diffyg cyswllt...cyswllt go iawn â'r ysgol a'r disgyblion.’
>
> *Addysgwr Athrawon mewn SAU*

> ‘Yr effaith ar garfan y llynedd oedd diffyg profiad o allu ei wneud [asesu]. Ac rwy'n credu, o arsylwi ar yr ANGau eleni, lle roedd tri ohonynt ar y cwrs, mae'n wir dweud bod fy mod, ar gyfer 66% o'r rhai yr arsylwais arnynt, wedi ailedrych ar asesu ar gyfer dysgu fel blaenoriaethau ar eu cyfer y tymor nesaf. Yn bennaf oherwydd roedd yr hyn yr arsylwais arno'n ymddangos braidd yn arwynebol ac roedd angen iddo arwain at ddysgu dyfnach.’
>
> *Addysgwr Athrawon mewn Ysgol, Uwchradd*

> ‘Roedd agweddau y byddent wedi ymdrin â nhw fel arfer pe baent wedi cyrraedd diwedd y lleoliad. Fel arfer, rwy'n meddwl am bethau... rhai o'r safonau anoddach eu cyrraedd... tracio cynnydd disgyblion yn y tymor hir efallai, cyfathrebu â rhieni efallai. Rhai o'r pethau a gaiff eu gwneud yn fwy tua diwedd lleoliad ysgol fel arfer. Yn y safonau addysgeg, roeddem yn sicr yn edrych ar gofnodi ac adrodd a'r agweddau hynny ar asesu nad oedd y myfyrwyr wedi cael y cyfle i'w gwneud.’
>
> *Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.81 Dywedodd arweinydd un bartneriaeth AGA fod ei gydberthynas â'r consortia wedi'i alluogi i gynllunio ar gyfer cyfnod pontio athrawon dan hyfforddiant / ANGau mewn ffordd a oedd yn ystyried profiadau unigol myfyrwyr o hyfforddi yn ystod y pandemig. Mae'r ‘targedau ar gyfer datblygu’ yma yn ymwneud â llunio Proffil Datblygu Gyrfa tua diwedd y rhaglen:

> ‘Er mwyn gwneud yn siŵr bod y targedau ar gyfer datblygu [a oedd yn weddill], a oedd yn fwy niferus nag y byddent wedi bod pe bai'r myfyrwyr wedi cyrraedd 24 wythnos, yn cael eu cofnodi'n gadarn ac mewn ffordd a fyddai'n bwydo i mewn i'r cymorth roedd y consortia rhanbarthol yn ei gynnig...daeth cydlynydd ANGau'r consortia i mewn i gwrdd â'r myfyrwyr ar-lein er mwyn rhoi tawelwch meddwl iddynt a siarad am y broses bontio a sicrhau eu bod yn deall, a dywedodd fod hynny'n dda iawn. Yn aml, ni fydd myfyrwyr mewn cysylltiad ag ef fel arweinydd ANGau...Felly roedd y cyswllt hwnnw pan ddaeth i mewn yn golygu bod y broses bontio yn fwy esmwyth.’
>
> *Arweinydd Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon*

3.82 Roedd yn ymddangos bod hyn yn gam cadarnhaol tuag at gydnabod a chofnodi'r meysydd hynny lle roedd yn debygol y byddai angen rhagor o sylw a chymorth parhaus. Fodd bynnag, nid yw'n hysbys i ba raddau roedd y broses hon i'w gweld mewn partneriaethau AGA eraill.

3.83 Gwnaethom sôn yn gynharach fod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn rhan o gyfres o ddiwygiadau sylfaenol diweddar nad oedd wedi llawer o amser i gael eu rhoi ar waith. Drwy ein data, gwelir tystiolaeth o anghysondebau mewn dealltwriaeth o'r Safonau Proffesiynol o ran sut y dylid eu defnyddio a sut y dylid dangos tystiolaeth ohonynt. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch y graddau y mae ystyron cyffredin wedi datblygu o fewn y cymunedau sy'n defnyddio'r safonau a rhyngddynt. Mae'r safonau newydd yn canolbwyntio ar y broses, gan ddynodi dulliau, mathau a ffocws datblygu, ac maent yn cynrychioli newid cysyniadol pendant i ffwrdd oddi wrth restr y model blaenorol o gymwyseddau a deilliannau. Mae'r gwaith ymchwil hwn ar effaith y pandemig ar ddarpariaeth AGA wedi datgelu achosion lle mae dealltwriaethau neu gytundebau cyffredin heb eu datblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y dylid rhoi'r safonau newydd ar waith neu ddangos tystiolaeth ohonynt. Mewn rhai achosion, ymddengys fod pwysau annisgwyl addasu yn sgil y pandemig wedi peri i

rai ysgolion ddehongli'r safonau newydd mewn ffordd sy'n troi yn ôl at restr wirio o gymwyseddau.


**3.84 Canfyddiadau rhan tri – y Goblygiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon**

Mae rhannau cynharach yr adroddiad hwn yn nodi'r hyn y mae ein data'n ei ddweud wrthym am newidiadau mewn ysgolion a newidiadau i natur darpariaeth AGA yng Nghymru a ddilynodd yr ymatebion niferus i COVID-19 ers mis Mawrth 2020. Yn y rhan hon, cyflwynwn wybodaeth fanylach a gasglwyd o'r cwestiynau hynny yn ein harolwg a oedd yn gofyn am argraffiadau, profiadau ac asesiadau o effaith a goblygiadau. Bydd hyn yn arwain at ein rhan olaf lle y byddwn yn cynnig trafodaeth fer am yr holl ganfyddiadau mewn perthynas â'r tri phryder cefndir a amlinellwyd yn y Cyflwyniad, sef: (1) effaith COVID-1 ar ddarpariaeth addysg, tegwch a lles dysgwyr; (2) ffurfiant proffesiynol athrawon yng Nghymru; (3) lle asesu o fewn addysgu a dysgu ac felly fel rhan allweddol o ddarpariaeth AGA.

*3.85 Effaith cyfyngiadau ac addasiadau ar ansawdd AGA*

Gwnaethom ofyn i addysgwyr athrawon mewn ysgolion a SAUau nodi pa un o gyfres o osodiadau a fyddai'n cyd-fynd fwyaf â'u barn ar effaith cyfyngiadau ac addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol addysg athrawon. Mae Ffigur 6 isod yn dangos niferoedd crai. Wedi'u mynegi fel canrannau, dywedodd 80 y cant (128/159) y bu 'effaith andwyol' (64 y cant neu 101/159) neu 'effaith hynod andwyol' (17 y cant neu 27/159) ar ansawdd rhaglenni addysg athrawon. O'r ymatebion eraill, dywedodd 16 y cant na wnaeth yr ansawdd 'newid fawr ddim, fwy na thebyg'. O ystyried y pwyntiau a godwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng faint o amser ar leoliad yn yr ysgol a gollwyd yn dibynnu ar y rhaglen, mae hefyd yn ddiddorol nodi, yn nhermau canrannau, fod yr ymatebion sy'n nodi effeithiau 'andwyol' neu 'hynod andwyol' tua'r un faint ar gyfer y rhai a nododd eu bod yn gweithio'n bennaf mewn rhaglenni israddedig (83 y cant neu 29/35) a rhaglenni ôl-radd (88 y cant neu 68/77).


**Ffigur 6: Barn addysgwyr athrawon ysgol a SAU ar effaith cyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon (n=159).**




[Noder: yn Ffigur 6 uchod, dangosir addysgwyr athrawon mewn un o dri grŵp yn dibynnu ar b'un a oeddent yn gweithio'n bennaf ar raglenni israddedig neu raglenni ôl-radd, neu'r ddau]

3.86 Yn gysylltiedig â hynny, roedd gennym ddiddordeb gweld i ba raddau roedd athrawon dan hyfforddiant yn teimlo'n ‘hyderus ac yn gymwys’ fel athrawon gan gyfeirio'n benodol at asesu dysgwyr. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn athrawon dan hyfforddiant nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r gosodiad ‘Rwy'n teimlo'n hyderus ac yn gymwys i gefnogi dysgwyr yn y grŵp oedran y cefais fy hyfforddi i'w addysgu, yn benodol o ran fy rolau mewn perthynas ag asesu dysgwyr’. Fel y mae Ffigur 7 isod yn dangos, y grŵp mwyaf o ymatebion oedd y rhai a oedd yn cytuno ac yn cytuno'n gryf, ar ychydig dros 54 y cant (120/223). Nid oedd tua 26 y cant (58/223) yn cytuno nac yn anghytuno, a nododd bron 20 y cant (44/223) nad oeddent yn teimlo'n hyderus nac yn hyderus yn hyn o beth.


**Ffigur 7: I ba raddau roedd athrawon dan hyfforddiant presennol ac athrawon newydd gymhwyso yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys i gefnogi dysgwyr yn y grŵp oedran roeddent wedi hyfforddi i'w addysgu, yn enwedig o ran eu rolau wrth asesu dysgwyr (n=223)**





3.87 Roedd gwrthgyferbyniad trawiadol rhwng yr hunanganfyddiadau hyn a safbwyntiau addysgwr athrawon mewn SAUau ac ysgolion. Gwnaethom ofyn cwestiwn cysylltiedig i addysgwyr athrawon, sef ‘o gymharu â charfanau blaenorol, a ydych yn credu bod myfyrwyr, ar gyfartaledd, mor hyderus a chymwys yn eu defnydd o asesu ffurfiannol a chrynodol mewn ysgolion ag y byddent wedi bod ar yr adeg hon mewn blynyddoedd blaenorol?’ Atebodd llai na 4 y cant ‘ydw’, ac atebodd 31.5 y cant ‘ydw, yn rhannol’. Fydd bynnag, dywedodd 58.5 y cant nad oeddent yn credu bod myfyrwyr mor hyderus a chymwys yn y maes hwn â charfanau blaenorol.

3.88 Hefyd yn drawiadol oedd y gwahaniaeth rhwng canfyddiadau addysgwyr mewn SAUau ac addysgwyr mewn ysgolion o effaith COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon. Yn Ffigur 8 isod, mae'r gwahaniaeth mewn canfyddiad i'w weld yn ôl cyfanswm yr ymatebion (niferoedd crai). Yr hyn y gellir ei weld yn glir yn y graff hwn, a hefyd yn ôl canran yn Ffigur 9 isod, yw'r gyfran fawr o addysgwyr athrawon mewn ysgolion a oedd o'r farn y bu ‘effaith hynod andwyol’ neu ‘effaith andwyol’ ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon yn y cyfnod hwn (88 y cant neu 115/130). Cyfran lawer llai o addysgwyr mewn SAUau oedd o'r un farn (45 y cant neu 13/29).

**Ffigur 8: Barn addysgwyr athrawon ysgol a SAU ar effaith cyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon, yn ôl cyfanswm yr ymatebion (n=159).**





**Ffigur 9: Barn addysgwyr athrawon ysgol a SAU ar effaith cyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 ar ansawdd cyffredinol rhaglenni addysg athrawon, yn ôl canran (n=159).**



3.89 *Canfyddiadau o ddilysrwydd cymwysterau addysgu*

Mewn trywydd ymholi cysylltiedig pellach, roeddem yn awyddus i wybod beth oedd canfyddiadau athrawon dan hyfforddiant ac addysgwyr athrawon o ddilysrwydd cyffredinol cymwysterau addysgu a enillwyd yn ystod y cyfnod yr effeithiwyd arno gan addasiadau yn sgil COVID-19. Mae Ffigur 10 a Thabl 4 isod yn dangos yr ymatebion a gafwyd gan athrawon dan hyfforddiant, ac mae Ffigur 11 a Thabl 5 isod yn dangos y rhai a gafwyd gan addysgwyr athrawon.


**Ffigur 10: Ymatebion athrawon dan hyfforddiant (n=222) i'r cwestiwn: 'Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen ond yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod eu cymwysterau addysgu yn…'**



**Tabl 4: Ymatebion athrawon dan hyfforddiant (n=222) i'r cwestiwn:** Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen ond yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod eu cymwysterau addysgu:

| | **Wrthi'n astudio ar raglen addysg athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd** | | **Cwblheais raglen addysg athrawon yng Nghymru yn ystod haf 2020** | |
|---|---|---|---|---|
| | Canran | Cyfanswm | Canran | Cyfanswm |
| Mae deilliannau terfynol y cymwysterau yr un mor ddilys, fwy na thebyg | 50% | 99 | 60% | 15 |
| Mae deilliannau terfynol y cymwysterau yn llai dilys, fwy na thebyg | 32% | 64 | 32% | 8 |
| Mae deilliannau terfynol y cymwysterau yn fwy dilys, fwy na thebyg | 17% | 34 | 8% | 2 |
| | | 197 | | 25 |

**Ffigur 11. Ymatebion addysgwyr athrawon (n=158) i'r cwestiwn: 'Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr 'nodweddiadol' yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod deilliannau terfynol y cymwysterau:**



**Tabl 5: Ymatebion addysgwyr athrawon (n=158) i'r cwestiwn: 'Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr 'nodweddiadol' yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod deilliannau terfynol y cymwysterau:**

| | **Rwy'n addysgwr athrawon mewn sefydliad addysg uwch** | | **Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwy'n ymwneud yn agos ag addysg athrawon** | |
|---|---|---|---|---|
| | Canran | Cyfanswm | Canran | Cyfanswm |
| Mae deilliannau terfynol y cymwysterau yr un mor ddilys, fwy na thebyg | 59% | 17 | 41% | 53 |
| Mae deilliannau terfynol y cymwysterau yn llai dilys, fwy na thebyg | 34% | 10 | 57% | 74 |
| Mae deilliannau terfynol y cymwysterau yn fwy dilys, fwy na thebyg | 7% | 2 | 2% | 2 |
| | 100% | 29 | 100% | 129 |

3.90 O gymharu Ffigurau 10 ac 11 uchod â'r tablau cysylltiedig, sef Tablau 4 a 5, mae'n nodedig bod yr addysgwyr athrawon, pan ofynnwyd iddynt gyffredinoli am y carfannau yr effeithiodd y pandemig arnynt, ychydig yn fwy pwyllog na'r athrawon dan hyfforddiant ynglŷn â dilysrwydd y cymwysterau addysgu a enillwyd.

3.91 *Cyfrifoldeb dros roi mwy o gymorth i athrawon newydd*

Os derbyniwn yr effeithiwyd ar agweddau ar ffurfiant proffesiynol athrawon, mae hyn yn codi cwestiwn bellach am y sefydliadau a all roi cymorth ychwanegol yn y dyfodol agos, gan alluogi athrawon 'carfannau'r pandemig' i feithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymhellach, yn enwedig profiadau a oedd ar goll o'u profiad o AGA. Gwnaethom ofyn i addysgwyr athrawon ac athrawon dan hyfforddiant pwy oedd yn gyfrifol, yn eu barn nhw, am gefnogi'r carfanau hyn yr effeithiodd y pandemig arnynt yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr osod chwe opsiwn yn nhrefn cyfrifoldeb. Mae'r canlynol yn dangos eu hymatebion:

**Tabl 6. Safle net sefydliadau yr ystyrir eu bod yn gyfrifol am weithio gydag athrawon newydd er mwyn eu cefnogi yn y dyfodol agos.**

| Safle net | **Addysgwyr athrawon** | **Athrawon dan hyfforddiant** |
|---|---|---|
| 1 | Yr ysgolion sy'n cyflogi | Yr ysgolion sy'n cyflogi |
| 2 | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru |
| 3 | Partneriaethau AGA | Partneriaethau AGA |
| 4 | Consortia | Darparwr neu fentor allanol |
| 5 | Darparwr neu fentor allanol | Consortia |
| 6 | Asiantaethau cyflenwi | Asiantaethau cyflenwi |

*Noder: Yn anffodus, nid oedd yr arolwg yn enwi Cyngor y Gweithlu Addysg yn y rhestr o opsiynau, ond mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn ystyried bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn rhan o Lywodraeth Cymru yn yr achos hwn.)

## 4. Casgliadau

4.1 Yn y Cyflwyniad, gwnaethom gyfeirio'n fras at waith arall sy'n canolbwyntio ar (1)effaith COVID-1 ar ddarpariaeth addysg, tegwch a lles dysgwyr; (2) ffurfiant proffesiynol athrawon yng Nghymru; a (3) lle asesu o fewn addysgu a dysgu ac felly fel rhan allweddol o ddarpariaeth AGA. Yn yr adran hon, tynnwn sylw at rai themâu allweddol yn ein gwaith ymchwil o dan bob un o'r ‘pryderon cefndir’ hyn. Dylid nodi bod amseru a chylch gwaith y comisiwn a'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar arferion a phrofiadau asesu o fewn AGA yn ystod y pandemig, ac y gwnaed y gwaith ymchwil i gyd yn ystod y pandemig ac yn unol â chyfyngiadau yn sgil y pandemig. Dylid cydnabod y cyfyngiad hwn o ran yr hyn y gellir ei gasglu o'r gwaith dadansoddi er mwyn cynnig cipolwg ar arferion asesu o fewn AGA yn y dyfodol, yn y cyfnod mwy normal sydd o'n blaenau, gobeithio.

4.2 **Tegwch a lles**

Mae ein hastudiaeth yn cadarnhau llawer o'r casgliadau cyffredinol y daeth pobl eraill sydd wedi ceisio gwneud synnwyr o effeithiau'r pandemig ar addysg, ar degwch ac ar les dysgwr iddynt. Un o effeithiau net y pandemig yw bod anghydraddoldebau cymdeithasol wedi gwaethygu, ac rydym wedi clywed am blant â mynediad annigonol at ddysgu ar-lein oherwydd diffyg caledwedd neu gysylltedd, neu golli swyddi o ganlyniad i COVID-19 mewn aelwydydd a oedd eisoes yn wynebu anawsterau ariannol. Mae ffactorau o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar les ac ar natur ymgysylltu â'r ysgol. Clywsom hefyd am amrywiaeth sylweddol rhwng ysgolion yn natur a chymeriad eu cyswllt â'u disgyblion a'u cymorth iddynt. Hyd yn oed mewn ysgolion lle'r oedd yn ymddangos eu bod yn mynd i lawer o ymdrech i gynnal lefel uchel o gyswllt â dysgwyr, roedd achosion difrifol o golli cysylltiad.

4.3 Mewn perthynas â dysgu'r disgyblion, mae hefyd yn werth nodi bod y data'n cynnwys sawl achos o'r hyn y gellid ei alw'n lleihad gwrthreddfol mewn cyfleoedd. Un enghraifft gyffredin o hyn fyddai'r achosion lle roedd gweithwyr proffesiynol yn ‘weithwyr allweddol’ mewn rolau a oedd wedi ehangu oherwydd y pandemig; nid yn unig na allant addysgu eu plant eu hunain gartref, ond roedd hefyd yn anodd iddynt gefnogi dysgu eu plant i'r graddau a fyddai'n bosibl fel arfer. Ymhlith yr enghreifftiau

eraill llai gweladwy oedd dysgwyr a oedd wedi bod yn gyflawnwyr uchel ond a oedd wedi mynd yn bryderus iawn ynglŷn ag asesu ac roedd eu lefelau cymhelliant ac ymgysylltu wedi gostwng wrth i addasiadau yn sgil y pandemig gael eu rhoi ar waith. Ein hargraff net yw bod y ffactorau yr ymddengys eu bod fel arfer yn rhoi mantais mewn lleoliadau addysgol yn llai 'amddiffynnol', mewn nifer o achosion, dan amodau'r pandemig.

4.4 Mae ein data'n cynnwys gwybodaeth doreithiog am rai materion yn ymwneud â thegwch a lles ymhlith myfyrwyr AGA. Mae'r data ar yr effaith ar yr amser a dreuliwyd ar leoliad mewn ysgolion yn dangos llawer o anghyfartaledd, hyd yn oed o fewn pob math o raglen (israddedig neu ôl-radd). Er y bydd gwahaniaethau rhwng ysgolion bob amser, mae ein data'n awgrymu bod y gwahaniaethau hyn wedi ehangu a bod hyn wedi cyflwyno rhagor o anghyfartaledd yn y cyfleoedd dysgu a oedd ar gael i fyfyrwyr AGA. Dywedodd rhai addysgwyr athrawon wrthym am gyfleoedd da i ddatblygu a gynigiwyd i athrawon dan hyfforddiant wrth iddynt weithio ochr yn ochr ag athrawon profiadol, yn annisgwyl ddigon, i ddatrys problemau digynsail a heriol. Fodd bynnag, yr un mor aml â hynny, clywsom am enghreifftiau o'r gwrthwyneb, lle roedd angen i staff ysgolion flaenoriaethu elfennau o'r gwaith gyda disgyblion yn uniongyrchol, ac nid oedd hyn yn cynnwys athrawon dan hyfforddiant mewn ffordd uniongyrchol. Gwelwyd yr effeithiau anghyfartal hyn er gwaethaf ymroddiad ac ymdrech barhaus SAUau ac ysgolion i gydweithio'n agos mewn partneriaeth, ac mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol awgrymu y byddent wedi bod yn waeth, fwy na thebyg, pe bai AGA wedi cael ei threfnu o dan fodelau cynharach.

### 4.5 Ffurfiant proffesiynol athrawon

Yn y cyflwyniad, gwnaethom amlinellu'r gwaith ymchwil sy'n dangos arwyddocâd profiadau dysgu proffesiynol cynnar i athrawon, a'r ffaith bod y profiadau cynnar hyn yn parhau i gael effaith ar eu gallu ac ar ansawdd eu gwaith yn y tymor hwy (Waters et al, 2018; Milton et al, 2020).

4.6 Er bod llawer iawn i'w ddathlu am y ffordd y mae partneriaethau AGA wedi gweithio, gan ddod ag ysgolion a SAUau ynghyd i ganfod ffyrdd o ddatrys anawsterau aruthrol sydd wedi codi ers mis Mawrth 2020, ni ddylem ganiatáu i hyn guddio'r hyn

y mae ein data'n ei ddangos yn eithaf clir, y gellir ei grynhoi fel a ganlyn. Ar y cyfan, mae nodweddion hollbwysig o'r trefniadau ar gyfer AGA yng Nghymru wedi cael eu peryglu gan ymatebion anochel ysgolion a SAUau i gyfyngiadau ac addasiadau yn sgil y pandemig. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- lleihad difrifol yn nifer ac amrywiaeth y profiadau ymarferol y llwyddodd athrawon dan hyfforddiant i'w cael, a lleihad mewn cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol felly;
- newid i ffwrdd oddi wrth asesiadau sy'n cwmpasu cyfres o dasgau proffesiynol dros amser, tuag at amcangyfrif trywydd tebygol, a hynny weithiau'n seiliedig ar ychydig iawn o dystiolaeth;
- newid i ffwrdd oddi wrth fyfyrwyr yn gwneud gwaith ymchwil seiliedig ar ysgolion, tuag at fathau o waith ymchwil desg

Mae'r rhain i gyd yn faterion o bwys mawr yng nghyd-destun nodweddion craidd AGA diwygiedig yng Nghymru, sydd wedi'i bwriadu i fod yn seiliedig ar (a) weithio mewn partneriaeth, (b) diffiniad o safonau proffesiynol sy'n canolbwyntio ar y broses, (c) cymryd rhan mewn gwaith ymchwil.

4.7 Er mwyn deall y materion hyn mewn ffordd gytbwys, mae angen cydnabod a phwyso a mesur buddiannau croes. Er enghraifft, ar un llaw gellir dadlau ei bod yn deg ag athrawon dan hyfforddiant bod systemau sy'n asesu eu cynnydd a'u gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yn cael eu haddasu mewn ffordd sy'n golygu nad yw rhywbeth sy'n tarfu'n sylweddol ar eu rhaglen, a hynny heb fod bai arnynt hwy o gwbl, yn eu hatal rhag cymhwyso o fewn (neu yn fras o fewn) yr amserlen a ragwelwyd yn wreiddiol. Hefyd, gall hyn leddfu pryderon ynglŷn â bylchau yn y cyflenwad o athrawon newydd. Ar y llaw arall, os derbyniwn fod y rhaglenni a'r systemau a oedd ar waith wedi cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn helpu'r athrawon dan hyfforddiant i ddysgu a chyrraedd y safonau proffesiynol, a bod y safonau proffesiynol yn ddirprwy rhesymol i gyrraedd cymhwysedd a gallu proffesiynol (yn ogystal â thwf pellach yn hynny o beth), yna mae'n rhaid inni gydnabod bod rhai o'r athrawon sy'n cymhwyso, yn syml, yn llai na pharod i ddechrau gweithio fel athrawon newydd gymhwyso. Un ffactor sy'n ychwanegu at y cymhlethdod hwn yw'r ffaith nad oes dealltwriaeth gyffredin rhwng holl randdeiliaid partneriaethau AGA o'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

4.8 Tra bo'r ddadl gyntaf yn y paragraff uchod yn canolbwyntio ar y dysgwr mewn perthynas â'r athro dan hyfforddiant, mae'r ail yn canolbwyntio ar y dysgwr mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion, ac efallai hefyd yn cydnabod syniad ehangach o fudd cyhoeddus a chymdeithasol. Fel y soniwyd yn gynharach, mae rhywfaint o'r gwaith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi yn awgrymu y bydd ansawdd y profiad trylwyr cyntaf o ddysgu proffesiynol yn cael effaith uniongyrchol ar b'un a fydd athrawon newydd yn dewis aros yn y proffesiwn ai peidio, a all ychwanegu dadl economaidd bellach at yr ail drywydd rhesymu a gyflwynir uchod. Hefyd, gall fod yn addysgiadol cymharu â phroffesiynau eraill, er enghraifft ystyried a fyddem o'r farn ei bod yn rhesymol pe bai paratoad proffesiynol nyrsys, meddygon, swyddogion yr heddlu neu feirniaid yn cael ei addasu mewn ffordd debyg i addysg athrawon.

4.9 Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu bod angen rhoi sylw ac adnoddau i gefnogi ‘carfanau'r pandemig’ yn ystod cyfnod sylweddol o'u gwaith fel athrawon newydd gymhwyso. Bydd angen i gymorth o'r fath gael ei deilwra i fyfyrwyr unigol, o ystyried yr amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol sydd wedi cael eu lleihau neu eu colli yn eu profiadau hyd yma.

4.10 **Lle asesu o fewn addysgu a dysgu mewn ysgolion**

Mae asesu, ac asesu ar gyfer dysgu yn arbennig, wedi parhau i fod yn ffocws pwysig drwy gydol y gwaith ymchwil hwn. Mae ein data'n llawn enghreifftiau o natur gyfnewidiol trefniadau asesu mewn amrywiaeth o ysgolion, lle y gwnaethom nodi bod asesu wedi cael ei wthio i'r cyrion i ddechrau, ac wedyn wedi cael lle blaenllaw unwaith eto ar amrywiol ffurfiau. Gwnaethom hefyd awgrymu bod y newid yn y pwyslais ar asesu yn arwydd o gyfres ddyfnach ac ehangach o newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir â chydberthnasau, deialog a'r defnydd o le yn yr ysgol. Gwnaethom nodi bod ‘dirywiad mewn asesu ar gyfer dysgu’, sy'n arwydd bod arferion addysgegol yn cael eu gwanhau dan amodau'r pandemig.

4.11 Mae'r canfyddiadau hyn yn hanfodol bwysig yng nghyd-destun ysgolion. Serch hynny, ein prif nod yn yr astudiaeth hon oedd mynd i'r afael â'r nodau a'r amcanion craidd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith ymchwil hwn (gweler Atodiad A) ac, yn unol â hynny, mae ein prif bwyslais ar effaith newidiadau o'r fath

ar ysgolion fel amgylcheddau dysgu i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn addysg athrawon. Cafodd y lleihad yn yr amser a dreuliodd athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgol effaith fawr ar eu profiad o'r amrywiaeth eang o arferion sydd ar gael fel arfer. Roedd hyn yn arbennig o drafferthus i fyfyrwyr graddedig. Cafodd profiadau asesu yn yr ystafell ddosbarth eu culhau, gan gynnwys y rhai a fyddai'n helpu athrawon dan hyfforddiant i ymgyfarwyddo â chynnydd disgyblion, gwahaniaethu neu ddefnyddio a chyfleu deilliannau asesu. Bu effaith sylweddol ar asesiadau'r athrawon dan hyfforddiant eu hunain, o ran eu harferion yn yr ystafell ddosbarth a chasglu tystiolaeth ar gyfer cyrraedd y safonau proffesiynol.

# 5. Argymhellion

5.1 Er ein bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi cynlluniau ar waith i roi cymorth ychwanegol i ANGau yn ystod tymor yr Hydref, hoffem orffen yr adroddiad hwn drwy wneud argymhellion sy'n mynd y tu hwnt i'n dealltwriaeth i'r hyn y mae'r cymorth arfaethedig hwn yn ei gynnwys. Mae ein hargymhellion yn gwbl seiliedig ar ein dadansoddiad o'r data rydym wedi'u casglu.

**Argymhelliad 1.**

**Dylai Llywodraeth Cymru (gan gydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia rhanbarthol, partneriaethau AGA ac ysgolion) fynd ati ar frys i arwain gwaith i lunio rhaglen barhaus, hyblyg ac ymatebol o gymorth wedi'i deilwra'n unigol i athrawon newydd gymhwyso. Dylai hyn bara o leiaf ddwy flynedd a thargedu athrawon o ddwy 'garfan y pandemig' sy'n dechrau gweithio.**

Teimlwn y gellir cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol, naill ai fel menter ar wahân neu drwy addasu neu ychwanegu at ddarpariaeth sydd eisoes ar gael ar gyfer dysgu a/neu fentora proffesiynol. Mae'n hanfodol sicrhau y gall y ddarpariaeth fod wedi'i theilwra'n ddigonol i ystyried anghenion unigol pob ANG. Mae llenyddiaeth ryngwladol ddiweddar ar ddysgu proffesiynol yn awgrymu, er mwyn bod mor effeithiol a chynhyrchiol â phosibl, y dylai'r ddarpariaeth:

- roi sylw i'r mân wahaniaethau rhwng ANGau a chyd-destunau penodol athrawon sy'n dechrau ar eu gyrfaoedd,
- cael cefnogaeth gan gydweithwyr mewn ysgolion sy'n arbenigo mewn addysg athrawon a dysgu proffesiynol i athrawon sy'n dechrau ar eu gyrfaoedd,
- cael ei lleoli mewn amgylchedd diogel a chefnogol,
- bod yn ddigon allanol i'r cyd-destun cyflogaeth penodol er mwyn gallu cael sgyrsiau gonest a myfyriol am y cymhlethdodau a'r profiadau ymarfer a gollwyd. Mae'r nodwedd hon yn hollbwysig o ystyried pa mor gyffredin yw contractau cyfnod penodol ac ansicrwydd swydd ar ddechrau gyrfa.

**Argymhelliad 2.**

**Mae angen i Lywodraeth Cymru (gan gydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg a chonsortia rhanbarthol) dalu sylw penodol ac ystyried yn ofalus sut y gellir helpu unigolion o 'garfanau'r pandemig' i gael swyddi yn y proffesiwn.** Mae'r ail argymhelliad hwn yn bwysig oherwydd: (a) nododd partneriaethau AGA fod gormod o bobl wedi cael eu recriwtio i'w rhaglenni yn 2020-2021, sy'n golygu y bydd y cyflenwad o athrawon newydd yn cynyddu ar y cyfan; (b) ceir perygl y bydd athrawon newydd y tarfwyd ar eu rhaglenni wedi dioddef rhywfaint o stigmateiddio o ganlyniad i ganfyddiadau eu bod wedi cael profiadau AGA anghyflawn.

**Argymhelliad 3.**

**Ar bob lefel o'r proffesiwn ac mewn partneriaethau AGA, dylai gwaith fynd rhagddo i feithrin gwell dealltwriaeth gyffredin o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a sut y gellir du defnyddio i gefnogi twf proffesiynol.**

Mae hyn yn bwysig er mwyn rhoi'r amser a'r lle angenrheidiol i wreiddio'r safonau newydd ar gyfer AGA, sef y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, yn y ffordd y cawsant eu rhagweld (h.y. yn canolbwyntio'n fwy ar y broses yn hytrach na model trothwy cymhwysedd) am fod yr amser roedd ei angen i wneud hyn wedi cael ei gwtogi, a hynny'n anochel, gan y pandemig.

**Argymhelliad 4.**

**Dylai ysgolion archwilio'r newidiadau y bu'n rhaid iddyn nhw eu hunain eu gwneud i arferion asesu o ganlyniad i'r pandemig ac ystyried i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'u gwerthoedd o ran addysg disgyblion. Lle bo ysgolion yn cymryd rhan mewn addysg athrawon a/neu'n cefnogi ANGau, dylent hefyd ystyried effaith newidiadau o'r fath ar ffurfiant proffesiynol athrawon dan hyfforddiant ac athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd.**

Mae hyn yn bwysig oherwydd ein canfyddiad allweddol sy'n awgrymu y caiff arferion asesu eu symud o'r cyrion i le blaenllaw, ynghyd â dirywiad mewn asesu ar gyfer dysgu a gwanhau arferion addysgegol.

**Cyfeiriadau**

Ashcroft, K. a James, D. (1999) (golygyddion) *The Creative Professional: learning to teach 14-19 year-olds*. Llundain: Falmer Press

BERA/RSA (2014) *Research and the Teaching Profession: building the capacity for a self-improving education system.* Adroddiad terfynol Ymchwiliad BERA-RSA i rôl ymchwil mewn addysg athrawon. Llundain: Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain.

Biesta, G. (2019) 'Should Teaching be Re(dis)covered?  Introduction to a Symposiium', *Studies in Philosophy and Education* 38 :549-553.

Broadfoot, P. M., Daugherty, R., Gardner, J., Harlen, W., James, M., a Stobart, G. (2002) *Assessment for learning: 10 principles*. Caergrawnt, y DU: Ysgol Addysg Prifysgol Caergrawnt.

Black, P. a Wiliam, D. (1998) 'Inside the black box: Raising standards through classroom assessment'. *Phi Delta Kappan* 80(2): 139–148.

Boud, D. a Molloy, E. (2013) *Feedback in Higher and Professional Education.* Llundain: Routledge

Boylan, M. (2010) 'Ecologies of participation in school classrooms', *Teaching and Teacher Education* 26 (1) : 61-70.

Brown, P. a James, D. (2020) 'Educational expansion, poverty reduction and social mobility: re-framing the debate', *International Journal of Educational Research* 100,erthygl rhif: 101537. (10.1016/j.ijer.2020.101537)

Brown, P., Lauder, H. a Cheung S. (2020) *The Death of Human Capital? Its Failed Promise and How To Renew It in an Age of Disruption*, Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen. https://global.oup.com/academic/product/the-death-of-human-capital-9780190644314?cc=gb&lang=en&

Cater, J. (2017) *Whither Teacher Education and Training?* Sefydliad Polisi Addysg Uwch, Adroddiad HEPI 95. Rhydychen: Sefydliad Polisi Addysg Uwch.

Cullinane, C. a Montacute, R. (2020) *COVID-19 and Social Mobility Impact Briefing: school shutdown.* Llundain: Ymddiriedolaeth Sutton.

Daly, C., Milton, E. a Langdon, F. (2020) 'How do ecological perspectives help understand schools as sites for teacher learning?' *Professional Development in Education* 46(4): 652-663 https://doi.org/10.1080/19415257.2020.1787208

Donaldson, G. (2015) *Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Egan, D., Bryant, A., Gordan, B., Loudon, G. ac Aldous, D. (2019) Prosiect Ymchwil Ymholiadau Dysgu Proffesiynol. Adroddiad a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru (heb ei gyhoeddi)

Feiman-Nemser, S. (2012) 'Beyond solo teaching' *Educational Leadership* 69(8): 10-16.

Fernald, D. H. a Duclos, C. W. (2005) 'Enhance Your Team-Based Qualitative Research', *Annals of Family Medicine* 3(4): 360-364.

Furlong, J. (2015) *Teaching Tomorrow's Teachers: options for the future of initial teacher education in Wales.* Prifysgol Rhydychen.

Hall, C a Hall, E. (1988) *Human Relations in Education* Llundain: Routledge

Hammersley, M. ac Atkinson, P. (2019) *Ethnography: Principles in practice* (4ydd Argraffiad). Abingdon: Routledge

Harrison, N., James, D. a Last, K. (2015) 'Don't know what you've got 'till it's gone? Skills-led qualifications, secondary school attainment and policy choices' *Research Papers in Education* 30(5): 585-608

Hobson, A.J., Malderez, A., Tracey, L., Homer, M.S., Ashby, P., Mitchell, N., McIntyre, J., Cooper, D., Roper, T., Chambers, G.N. a Tomlinson, P.D. (2009) Becoming a Teacher: Teachers' experiences of initial teacher training, Induction and early professional development (Adroddiad terfynol), Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Nottingham.

Hobson, A. a McIntyre, J. (2013) 'Teacher fabrication as an impediment to professional learning and development: the external mentor antidote.' *Oxford Review of Education* 39(3): 345–365. doi:10.1080/03054985.2013.808618.

Johnson, R., ac Onwuegbuzie, A. (2004) 'Mixed Methods Research: A Research Paradigm Whose Time Has Come'. *Educational Researcher* 33(7): 14–26.

Langdon, F. J., Alexander, P. A., Ryde, A. a Baggetta, P. (2014) 'A National Survey of Induction and Mentoring: How it is Perceived Within Communities of Practice.' *Teaching and Teacher Education* 44: 92–105. doi: 10.1016/j.tate.2014.08.004.

Langdon, F.J. (2017) 'Learning to Mentor: unravelling routine practice to develop adaptive mentoring expertise.' *Teacher Development* 21(4): 528–546. doi:10.1080/13664530.2016.1267036.

Macbeath, J. (2019) The future of the teaching profession (ail argraffiad). Education International. https://doi.org/10.1177/08920206010150030901

Malik, S. A. a Wiseman, A. W. (2017) 'Revisiting and re-representing scaffolding: the two gradient model', *Cogent Education* 4(1), DOI: 10.1080/2331186X.2017.1331533

Milton, E., Daly, C., Langdon, F., Palmer, M., Jones, K a Davies, A. J. (2020) 'Can schools really provide the learning environment that new teachers need? Complexities and implications for professional learning in Wales', *Professional Development in Education*, 1–14. doi:10.1080/ 19415257.2020.1767177.

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2011) Teachers Matter: Attracting, developing and retaining effective teachers. Pointers for Policy Development. Paris: OECD. Ar-lein. www.oecd.org/education/school/48627229.pdf (cyrchwyd 28 Medi 2018).

Pollard, A. (2018) *Reflective Teaching in Schools.* (5ed Argraffiad) Llundain: Bloomsbury Academic

Cymwysterau Cymru (2020) *Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Penderfyniadau ar sut y byddwn yn llunio'r ystod o gymwysterau fydd ar gael yn y dyfodol i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru.* Ar gael yn: https://www.cymwysteraucymru.org/media/6018/ein-penderfyniadau.pdf

Reay, D. (2020) 'English education in the time of Coronavirus', *Forum* 62(3): 311-322.

Sahlberg, P. (2011) 'The Fourth Way of Finland' *Journal of Educational Change* 12(2): 173-185. https://doi.org/10.1007/s10833-011-9157-y

Schleicher, A. (2020) *The impact of COVID-19 on Education.* Paris: OECD

Strauss, A. a Corbin, J. (1990) *Basics of qualitative research, grounded theory procedures and techniques.* Llundain: Sage

Sutcher, L., Darling-Hammond, L., a Carver-Thomas, D. (2016) *A coming crisis in teaching? Teacher supply, demand, and shortages in the U.S.*. Palo Alto, CA: Learning Policy Institute.

Tabberer, R. (2013) *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/adolygiad-o-hyfforddiant-cychwynnol-athrawon-2013_0.pdf

Thomas, G. (2013) *How to do your research project* (2il argraffiad). Llundain: Sage

Thomas, G. a James, D. (2006) 'Reinventing grounded theory: Some questions about theory, ground and discovery', *British Educational Research Journal* 32(6): 767-795.

Torrance, H. (2012) 'Triangulation, Respondent Validation, and Democratic Participation in Mixed Methods Research.' *Journal of Mixed Methods Research* 6(2): 111–123.

Waters, M., Jones, M., a Macdonald, A. (2018) Teaching: A valued profession working towards a career, conditions and pay framework for School Teachers in Wales. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018) *Y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.* Gweler, er enghraifft: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol/

Llywodraeth Cymru (2019) *Safonau Proffesiynol.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol

Wenger, E. (1998) Communities of practice: learning, meaning, and identity. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt

Wenger-Trayner, E., Fenton-O'Creevy, M., Hutchinson, S., Kubiak, C. a Wenger-Trayner, B. (2015) Learning in Landscapes of Practice. Boundaries, identity, and knowledgeability in practice-based learning. Llundain: Routledge.

Wiliam, D. (2011) 'What is Assessmemt for Learning?' *Studies in Educational Evaluation* 37: 3-14.

Williams, Z. (2020) *Review of the impact of mass disruption on the wellbeing and mental health of children and young people, and possible therapeutic interventions.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 62/2020. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygiad-o-effaith-tarfu-mawr-ar-les-iechyd-meddwl-plant-phobl-ifanc

## Atodiad A

## ASTUDIAETHAU YMCHWIL AR EFFAITH PANDEMIG COVID-19 AR DDARPARIAETH ADDYSG GYCHWYNNOL I ATHRAWON YN Y DYFODOL

### Crynodeb

Gwahoddir Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru sy'n rhan o Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn cyflawni astudiaethau ymchwil â ffocws ar oblygiadau pandemig COVID-19 i ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi yng Nghymru. Caiff y gwaith ymchwil ei ariannu drwy drefn y Grantiau Cydweithredol ac, felly, cynghorir SAUau yn gryf i ystyried cyflwyno datganiadau cydweithredol. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt weithio gydag ysgolion arweiniol eu partneriaethau AGA i wneud y gwaith ymchwil fel y gallant gyfeirio at brofiad yr ysgolion hynny.

### Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dyfnhau ei gwybodaeth am oblygiadau pandemig COVID-19 mewn meysydd penodol yn y system addysg, gan gynnwys darpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi, a'i dealltwriaeth ohonynt. Felly, gwahoddir SAUau yng Nghymru i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn cyflawni un astudiaeth ymchwil neu fwy fel rhan o broses gydweithredol.

### Nodau ac Amcanion

**Nodau'r** gwaith ymchwil fyddai:

- Cyflwyno tystiolaeth seiliedig ar ymchwil o oblygiadau'r tarfu yn sgil pandemig COVID-19 i ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi.

- Cyfrannu at ddatblygiad gallu a gweithgarwch ymchwil yng Nghymru yn unol ag amcanion y *Strategaeth Genedlaethol ar Ymchwil ac Ymholiad Addysgol*.

**Amcanion** y gwaith ymchwil fyddai:

- Cyflwyno tystiolaetho ansawdd da o oblygiadau pandemig COVID-19 i ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi.

- Cyfeirio at brofiad ysgolion arweiniol partneriaethau AGA ac ysgolion eraill yn y system.

- Cyfrannu at waith ymchwil a gweithgarwch gwerthuso ehangach yn y maes hwn.

- Dangos gallu'r sector addysg uwch i ymateb mewn ffordd ystwyth a chydweithredol i anghenion y system addysg yng Nghymru.

**Manyleb**

1. Yn y dyfodol agos, bydd yn rhaid i AGA weithredu mewn cyd-destun y mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol arno. Felly, hoffai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaethau ymchwil ar y ffordd y dylai darpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi adlewyrchu'r canlynol:

    - Astudiaeth Ymchwil 1: Mwy o bwyslais ar ddysgu o bell/dysgu cyfunol.
    - Astudiaeth Ymchwil 2: Effaith hyn ar ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr difreintiedig.
    - Astudiaeth Ymchwil 3: Effaith hyn ar ddysgwyr mewn addysg Cyfrwng Cymraeg, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cartrefi Cyfrwng Saesneg.
    - Astudiaeth Ymchwil 4: Sut y gall athrawon, ysgolion a phartneriaid allanol, gan gynnwys prifysgolion, gydweithio i greu adnoddau dysgu o ansawdd da.
    - Astudiaeth Ymchwil 5: Y ffyrdd gorau o addasu trefniadau asesu er mwyn diwallu anghenion cyd-destunau dysgu ac addysgu sydd wedi newid.
    - Astudiaeth Ymchwil 6: Y cynnydd ym mhwysigrwydd ymgysylltiad rhieni mewn addysg a'r amgylchedd dysgu yn y cartref.
    - Astudiaeth Ymchwil 7: Iechyd a lles dysgwyr ac ymarferwyr.
    - Astudiaeth Ymchwil 8: Pwysigrwydd darpariaeth amlasiantaethol i blant a theuluoedd.

2. Byddem hefyd yn fodlon ystyried meysydd ychwanegol os gall SAUau ddangos eu bod yn berthnasol i ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi yn y cyd-destun newydd sy'n wynebu byd addysg yng Nghymru.

3. Dylai'r SAUau sy'n cymryd rhan wneud y gwaith ymchwil hwn o fewn amserlen benodol, gan ddefnyddio cymysgedd o fethodolegau a chanolbwyntio ar amrywiaeth o gwestiynau ymchwil. Rhoddir rhagor o fanylion am bob un o'r rhain isod.

4. Anogir SAUau sy'n cymryd rhan i ddewis astudiaethau ymchwil mewn meysydd lle y mae ganddynt ddiddordeb/cryfder amlwg a lle y gallant ymrwymo staff ymchwil profiadol i ymgymryd â'r gwaith.

5. Yn yr un modd ag achosion blaenorol o ddefnyddio proses y grantiau cydweithredol, gwahoddir SAUau i ddangos ym mha feysydd yr hoffent wneud gwaith ymchwil ac i ategu eu datganiadau o ddiddordeb â disgrifiad byr o'u diddordeb/arbenigedd yn y maes a methodoleg amlinellol yn cynnwys cwestiynau ymchwil arfaethedig. Anogir SAUau yn gryf i gydweithio â'i gilydd i lunio cynigion ar y cyd.

6. Bydd ffocws cyffredinol yr astudiaethau ymchwil ar oblygiadau'r tarfu ar ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi. Bydd y cwmpas yn cynnwys profiad:

    - Pob dysgwr.
    - Ymarferwyr gan gynnwys penaethiaid, athrawon, staff cymorth ac eraill sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd.
    - Rhieni.

7. Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i'r broses gydweithredol:

    - Bydd pob SAU yng Nghymru yn penderfynu a oes ganddo'r diddordeb a'r gallu i gymryd rhan ai peidio.

    - Bydd y SAUau sy'n cymryd rhan yn gweithio gyda staff Llywodraeth Cymru i ddatblygu dyluniad terfynol yr astudiaethau drwy broses gychwyn.

    - Caiff cronfa o lenyddiaeth eilaidd a ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli sy'n cael ei sefydlu gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru ei rhannu â'r SAUau sy'n cymryd rhan.

    - Bydd SAUau sy'n cymryd rhan yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adrodd ar gynnydd a chwblhau'r astudiaethau.

**Cwestiynau a Methodolegau Ymchwil**

8. Cytunir ar gwestiynau ymchwil penodol ar gyfer pob astudiaeth gyda'r SAU(au) fel rhan o'r broses gomisiynu. Dylent gael eu fframio o fewn y cwestiynau cyffredinol canlynol:

    - Pa dystiolaeth sydd ar gael yn y maes hwn, gan gynnwys profiadau ysgolion arweiniol partneriaethau ac ysgolion eraill yn y system?

    - Pa arferion effeithiol y gellir eu nodi?

    - Pa heriau sy'n bodoli?

    - Pa gasgliadau y gellir dod iddynt?

    - Beth yw'r goblygiadau i ddarpariaeth AGA wedi'i chyfoethogi yng Nghymru?

9. Cytunir ar fethodolegau penodol ar gyfer pob astudiaeth gyda'r SAU(au) fel rhan o'r broses gomisiynu. Gallent gynnwys:

    - Adolygiad o'r ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael.

    - Tystiolaeth o ysgolion arweiniol partneriaethau AGA ac ysgolion eraill yn y system.

    - Cyfweliadau â rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol gan gynnwys gwasanaethau awdurdodau lleol, Consortia Addysg Rhanbarthol, Estyn, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cyngor y Gweithlu Addysg, Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithasau Proffesiynol a'r sector gwirfoddol.

    - Grwpiau ffocws gyda dysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol o fewn ysgolion partneriaethau AGA ac ysgolion eraill.

**Amserlenni**

- Mehefin 2020: Comisiynu'r astudiaethau a chytuno ar y fanyleb derfynol.
- Gorffennaf 2020-Rhagfyr 2020: Ymarfer casglu data cychwynnol yn arwain at adroddiad interim i Lywodraeth Cymru.
- Ionawr 2021-Mawrth 2021: Ail gam yr ymarfer casglu data yn arwain at adroddiad drafft terfynol ac adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru.

**Allbynnau**

1. Cyflwyno adroddiad interim i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 yn cyflwyno'r canfyddiadau a ddaw i'r amlwg ac argymhellion interim.
2. Cyflwyno adroddiad drafft terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 12 Mawrth 2021 yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r argymhellion drafft terfynol.
3. Cyflwyno adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021 yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r argymhellion terfynol.
4. Dylid cyflwyno'r adroddiad yn y fformat canlynol:
    - Crynodeb Gweithredol
    - Cyflwyniad
    - Adrannau ar bob un o'r cwestiynau ymchwil
    - Canfyddiadau cyffredinol
    - Argymhellion
    - Cyfeiriadau
5. Cymryd rhan mewn dwy seminar gydweithredol i drafod y canfyddiadau a ddaw i'r amlwg a'r argymhellion: y cyntaf i gael ei gynnal ddechrau mis Ionawr 2021 ar ôl i'r adroddiadau interim gael eu cyflwyno a'r ail i gael ei gynnal yn yr wythnos yn dechrau 14 Mawrth 2021 ar ôl i'r adroddiadau drafft terfynol gael eu cyflwyno.

**Adnoddau**

Mae cyllideb o £400,000 ar gael a chaiff ei dyrannu i astudiaethau ymchwil sy'n bodloni'r meini prawf dyfarnu. Bydd pob SAU sy'n rhan o gynnig llwyddiannus yn cael o leiaf £30,000.

**Meini Prawf Dyfarnu**

1. Dangos dealltwriaeth glir o'r angen am y gwaith ymchwil.
2. Cwestiynau ymchwil priodol.
3. Methodolegau amlinellol priodol sy'n cynnwys ysgolion arweiniol partneriaethau.
4. Cynllun prosiect amlinellol priodol.
5. Tîm ymchwil priodol.
6. Cydweithio â SAUau eraill.
7. Gwerth am arian yn gyffredinol.

**Y Camau Nesaf**

1. Dylai SAUau gyflwyno eu datganiadau o ddiddordeb erbyn 26 Mehefin 2020.

2. Os bydd SAUau yn penderfynu peidio â chyflwyno datganiad o ddiddordeb, dylent roi gwybod i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad hwn.

3. Gall SAUau gyflwyno cynifer o ddatganiadau o ddiddordeb ag y dymunant.

4. Anogir cynigion cydweithredol rhwng dau SAU neu fwy yn gryf.

5. Dylai'r datganiadau o ddiddordeb fod yn ddwy ochr o A4 ar y mwyaf, gan nodi:

   - Enw'r SAU(au)
   - Unigolyn Cyswllt
   - Y Lot y gwneir cais amdani
   - Cwestiynau Ymchwil Arfaethedig
   - Methodoleg Ymchwil Arfaethedig (gan gynnwys yr ysgolion arweiniol partneriaethau a fydd yn cymryd rhan).
   - Cynllun Prosiect Amlinellol
   - Tîm Ymchwil

Dylai datganiadau o ddiddordeb gael eu cyflwyno i Rachael Hicks yn Rachael.hicks003@llyw.cymru

**Atodiad B**

**Y Gweithdai Rhagarweiniol ar 20 Hydref 2020**

Bwriedir i'r nodyn hwn helpu i lywio'r tri gweithdy rhagarweiniol a gynhelir ochr yn ochr â'i gilydd am 16.00-17.00 ar 20 Hydref, dan arweiniad Anna, Jennie a Judith.

**Y strwythur a awgrymir ar gyfer y cyfarfod:**

1. Dechreuwch drwy groesawu pawb sy'n bresennol a diolch iddynt am roi o'u hamser ac am eu cyfraniad. Gofynnwch iddynt gyflwyno eu hunain. (Gallwch ofyn iddynt ddweud eu henw, ble maent yn gweithio, beth yw eu rôl, a sut ddiwrnod y maent wedi'i gael hyd yn hyn...).
2. Esboniwch natur a diben y sesiwn. Gallech ddefnyddio'r ganlynol, a ddaw o'r gwahoddiad a anfonwyd:

**Gwaith Ymchwil Llywodraeth Cymru – Prosiect ar arloesi ym maes asesu yn sgil y pandemig: y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon**

Mae'r prosiect ymchwil hwn yn un o chwe **astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru** ar effaith **Pandemig COVID-19** ar **Ddarpariaeth AGA yn y Dyfodol**. Ei brif nod yw deall heriau, ymatebion ac addasiadau mewn amrywiaeth o weithgarwch **asesu crynodol, ffurfiannol a diagnostig** mewn ysgolion yng Nghymru, a sut mae darpariaeth ac arferion AGA yn addasu, neu sut y bydd angen ei haddasu ymhellach. Mae'n debygol y bydd yr astudiaeth yn cael effaith ar bolisi ac ymarfer.

Cynhelir y prosiect rhwng nawr a mis Mawrth 2021. Bydd aelodau craidd tîm y prosiect yn cynnwys unigolion o Bartneriaeth AGA Caerdydd, a dônt o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd.

Mae'n hanfodol i ddyluniad y prosiect y **caiff cydweithwyr mewn ysgolion** eu cynnwys o'r dechrau i'r diwedd, yn enwedig y rhai sy'n gyfarwydd â'r naill neu'r llall o'r canlynol, neu'r ddau:

- **newidiadau i drefniadau asesu** ers mis Mawrth 2020;
- **newidiadau i addysg gychwynnol i athrawon (AGA)** ers mis Mawrth 2020.

Bydd y sesiwn hon yn para awr.  Mae'n anffurfiol. Bydd y prif ffocws ar eich profiadau a'ch safbwyntiau ar yr hyn y bu'n rhaid i chi ac eraill ei wneud ers i'r pandemig ddechrau newid y ffordd y mae pob un ohonom yn gweithio.  Prif ddiben y gweithdy yw helpu i lywio'r hyn y byddwn yn ei gynnwys yn y cyfweliadau ymchwil y byddwn yn eu cynnal gydag athrawon a rhanddeiliaid yn ystod mis Tachwedd.

CWESTIYNAU

3. **Yn gyntaf**, dechreuwch drwy ofyn cwestiwn cyffredinol am newidiadau mawr o bob math i athrawon a dysgwyr pan fu'n rhaid i ysgolion ddechrau cael cyswllt o bell â'u dysgwyr.
4. Ar ôl clywed gan bob cyfranogwr, gofynnwch i rai neu bob un ohonynt am fwy o fanylder lle y bydd hynny'n eich helpu i ddeall yr hyn y maent yn ei ddisgrifio. Ceisiwch gadw cwestiynau o'r fath yn fyr, e.e. 'a allech ddweud ychydig yn fwy am sut beth oedd hynny?'
5. Wedyn, gallai'r **ail** brif gwestiwn ganolbwyntio ar asesu, e.e. 'Mae asesu ar ei holl ffurfiau yn rhan arferol o addysgu a dysgu o ddydd i ddydd.  Wrth i ysgolion ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio o ddiwedd mis Mawrth 2020 ymlaen, mae'n ymddangos yn debygol y bydd trefniadau asesu wedi newid.  A allwch roi enghraifft o'r ffordd y newidiodd trefniadau asesu i chi, i'ch dysgwyr neu i'ch ysgol?'
6. Unwaith eto, os bydd pob cyfranogwr yn ateb y cwestiwn hwn yn ei dro, gallech ofyn am fwy o fanylder am rai neu bob un o'r enghreifftiau a roddir, gan ddefnyddio awgrymiadau byr. Mae'n bosibl iawn y byddant yn meddwl am fwy o enghreifftiau ar ôl clywed enghreifftiau pobl eraill.
7. Gallai'r **trydydd** prif gwestiwn ganolbwyntio ar eu barn ar yr hyn a oedd fwyaf anodd neu drafferthus i'r staff mewn perthynas ag asesu pan ddechreuodd ysgolion gael cyswllt o bell â'u dysgwyr.
8. Wedyn, gellid gofyn am enghreifftiau (ni waeth pa mor fach neu benodol) o'r hyn a aeth yn dda yn eu barn nhw – neu'r hyn a oedd yn well, hyd yn oed – wrth i ysgolion ddechrau cael cyswllt o bell â'u dysgwyr.
9. Gallai'r cwestiwn **olaf** ofyn am awgrymiadau ynglŷn â'r sgiliau, galluoedd a rhinweddau y bydd angen mwy ohonynt ar athrawon newydd er mwyn gweithio'n dda

mewn sefyllfaoedd lle y ceir mwy o ddibyniaeth ar gyfuniadau o addysgu a dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein.

NODIADAU i'r hwylusydd:

(a) Nid ymgais i gasglu data a fydd yn ateb unrhyw rai o'n cwestiynau ymchwil yw'r gweithdy rhagarweiniol ond, yn hytrach, cyfle i gydweithwyr mewn ysgolion lywio'r hyn y byddwn yn ei gynnwys wrth ddylunio'r astudiaeth.

**Yn ddelfrydol, bydd y strwythur a awgrymir yn helpu i annog trafodaeth agored. Mae'n cynnwys pwyntiau defnyddiol i'w trafod ond gellid ychwanegu ato mewn amrywiaeth o ffyrdd.  Y prif nod fydd clywed am brofiadau a chanfyddiadau'r cydweithwyr mewn ysgolion eu hunain.**

**Atodiad C**

**Cwestiynau'r cyfweliadau ar gyfer prosiect *Profiadau asesu ac arloesi yn sgil y pandemig: implications for teacher education***

*Trosolwg*: Mae'r astudiaeth hon yn archwilio'r her a wynebir gan ysgolion yn sgil y pandemig, a'u hymatebion, mewn perthynas ag asesu ffurfiannol, crynodol a diagnostig. Y prif ddiben yw deall beth yw'r ffyrdd gorau y gall Addysg Gychwynnol i Athrawon addasu ac ymateb i'r newidiadau yn y r amgylchiadau.

**A. Rhestr Wirio ar gyfer y Cyfweliadau â Phenaethiaid Ysgolion/Arweinwyr Asesu/Athrawon**

*Cyflwyniad/Rhagarweiniad.* Diolchwch iddynt am gytuno i gymryd rhan. Disgrifiwch yn fyr beth yw natur y prosiect, pwy sy'n ei gynnal a phwy sy'n ei ariannu. Tynnwch sylw at y Daflen Wybodaeth, a darllenwch drwy bob un o'r pwyntiau sydd wedi'u rhifo gyda phob cyfranogwr. Gwnewch yn siŵr eu bod yn fodlon i'r sesiwn gael ei recordio. Pwysleisiwch anhysbysrwydd – h.y. na fydd modd adnabod yr un unigolyn na sefydliad yn unrhyw beth a fydd yn deillio o'r prosiect, a gobeithiwn y byddant yn teimlo y gallant siarad yn agored. Cadarnhewch ein bod wedi cael eu cydsyniad i gymryd rhan. Dywedwch na ddylai'r cyfweliad gymryd mwy na 45 munud.

*Cwestiynau.*

1. Newidiodd llawer o bethau i ysgolion, dysgwyr ac athrawon pan ddechreuwyd rhoi darpariaeth ar-lein a darpariaeth gyfunol yn ystod Gwanwyn 2020. Gan ganolbwyntio ar asesu, beth oedd y newid mwyaf arwyddocaol yn eich barn chi? (*Awgrym, os bydd angen:* A allwch roi enghraifft benodol o hynny?

2. Diolch yn fawr. Mae'n swnio fel bod y newid rydych newydd sôn amdano yn ymwneud yn bennaf ag asesu (*ffurfiannol/crynodol/diagnostig*). A newidiodd pethau mewn asesu (*ffurfiannol/crynodol/diagnostig*) hefyd? (*Mae hwn yn gwestiwn 'dynamig' y bydd angen ei addasu yn ôl yr hyn a ddywedwyd o dan gwestiwn 1, ond bydd hefyd angen bod yn sensitif i'r cyd-destun, yn enwedig y math o ysgol (cynradd, uwchradd, arbennig ac ati).)*

3. ***NAILL AI (a) ar gyfer athrawon:*** Gan ganolbwyntio ar grŵp blwyddyn penodol, sut y newidiodd y profiad dysgu i'ch dysgwyr yn eich barn chi? Yn benodol, sut y newidiodd eu

profiadau o asesu? ***NEU (b) ar gyfer penaethiaid/arweinwyr asesu/rolau tebyg:*** Sut y newidiodd y profiad dysgu i'r dysgwyr yn gyffredinol? Yn benodol, sut y newidiodd eu profiadau o asesu?

4. A gafodd y newidiadau hyn wahanol effeithiau ar wahanol ddysgwyr neu grwpiau o ddysgwyr yn eich barn chi? Os felly, pa ddysgwyr a sut? (*Awgrym os bydd angen:* Er enghraifft, plant gweithwyr allweddol, neu bobl ifanc dan wahanol amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd?)

5. Beth oedd yr anawsterau neu'r heriau mwyaf i'r athrawon yn eich ysgol ym maes asesu yn eich barn chi? (*Awgrym, os bydd angen:* Beth am fathau eraill o asesu, h.y. asesu ffurfiannol, crynodol neu ddiagnostig?)

6. A fu unrhyw raglenni neu lwyfannau ar-lein penodol yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod y cyfnod ers Gwanwyn 2020 er mwyn cefnogi gweithgareddau dysgu ac asesu ar gyfer disgyblion ysgol yn eich barn chi? (*Awgrym os bydd angen:* Os felly, sut a pham yr oedd/oeddent yn ddefnyddiol?)

7. Ers Gwanwyn 2020, a fu unrhyw ddatblygiad neu enghraifft o arloesi mewn perthynas ag asesu a oedd yn gadarnhaol yn eich barn chi? Gallai hyn fod yn berthnasol i'r ysgol gyfan, dosbarth neu grŵp blwyddyn penodol, neu ddim ond un neu fwy o ddysgwyr unigol.

8. Gan ystyried eich cydweithwyr proffesiynol uniongyrchol yn y cyfnod ers Gwanwyn 2020, pa rinweddau, nodweddion, gwybodaeth neu sgiliau fu'r pwysicaf, i bob golwg, er mwyn cynnal lefel resymol o gymorth i ddysgwyr?

9. Pe bai cyfyngiadau yn sgil y pandemig yn parhau ar ryw ffurf am y 12 mis nesaf, a ddylai addysg athrawon newydd newid mewn rhyw ffordd yn eich barn chi? Os felly, ym mha ffordd?

10. Yn fwy penodol, pe bai cyfyngiadau yn sgil y pandemig yn parhau ar ryw ffurf am y 12 mis nesaf, a fyddai angen i athrawon newydd baratoi mewn ffyrdd newydd er mwyn iddynt allu cefnogi gweithgareddau asesu a deall cynnydd plant a phobl ifanc gystal â phosibl?

**B. Rhestr wirio ar gyfer y cyfweliadau â phobl sy'n ymwneud â phartneriaethau AGA (gan gynnwys arweinwyr AGA, staff SAUau, myfyrwyr diweddar, cydlynwyr AGA, uwch-fentoriaid a hyrwyddwyr ymchwil).**

*Cyflwyniad/Rhagarweiniad.* Diolchwch iddynt am gytuno i gymryd rhan. Disgrifiwch yn fyr beth yw natur y prosiect, pwy sy'n ei gynnal a phwy sy'n ei ariannu. Tynnwch sylw at y Daflen Wybodaeth, a darllenwch drwy bob un o'r pwyntiau sydd wedi'u rhifo gyda phob cyfranogwr. Gwnewch yn siŵr eu bod yn fodlon i'r sesiwn gael ei recordio. Pwysleisiwch anhysbysrwydd – h.y. na fydd modd adnabod yr un unigolyn na sefydliad yn unrhyw beth a fydd yn deillio o'r prosiect, a gobeithiwn y byddant yn teimlo y gallant siarad yn agored. Cadarnhewch ein bod wedi cael eu cydsyniad i gymryd rhan. Dywedwch na ddylai'r cyfweliad gymryd mwy na 45 munud.

*Cwestiynau.*

1. ***NAILL AI (a) ar gyfer staff:*** Newidiodd llawer o bethau i lawer o'r rhai mewn ysgolion a phrifysgolion pan ddechreuwyd rhoi darpariaeth ar-lein a darpariaeth gyfunol yn ystod Gwanwyn 2020. Gan feddwl yn gyffredinol am eich rôl mewn addysg athrawon (AGA), beth oedd y newid mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â chefnogi a pharatoi myfyrwyr AGA?
***NEU (b) i raddedigion diweddar:*** Newidiodd llawer o bethau i lawer o'r rhai mewn ysgolion a phrifysgolion pan ddechreuwyd rhoi darpariaeth ar-lein a darpariaeth gyfunol yn ystod Gwanwyn 2020. Gan feddwl am eich profiadau mewn addysg athrawon (AGA), beth oedd y newid mwyaf arwyddocaol a welsoch yn y ffordd roedd myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u paratoi?

2. Beth oedd yr effaith ar faint o ymwneud neu gyswllt oedd rhwng myfyrwyr AGA ac ysgolion? Yn eich profiad chi, a fu mwy o effaith ar rai myfyrwyr AGA neu grwpiau o fyfyrwyr AGA nag eraill ac, os felly, sut?

3. A oedd yn anos i unrhyw ysgolion rydych yn gyfarwydd â nhw gymryd rhan mewn rhaglenni a gweithgareddau AGA, neu a oeddent yn llai parod i wneud hynny, o ganlyniad i newidiadau yn sgil y pandemig i'w defnydd o amser, egni ac adnoddau? *(Awgrym os bydd angen:* Os felly, pam hynny yn eich barn chi?)

4. Gan feddwl yn benodol am newid i raglenni a gweithgareddau myfyrwyr AGA neu'r tarfu a fu arnynt, ym mha ffyrdd yr effeithiwyd ar eu profiadau o asesu disgyblion yn eich barn chi?

5. Mae asesu myfyrwyr AGA eu hunain yn rhan arferol o ddarpariaeth AGA. Pa newidiadau mawr i drefniadau asesu a brofwyd ac a welwyd gennych wrth i bawb ddechrau cael cyswllt o bell? (*Awgrym, os bydd angen:* A allwch roi enghraifft benodol? *Awgrym pellach os bydd angen:* Beth am fathau eraill o asesu?)

6. Beth oedd yr anawsterau neu'r heriau mwyaf i'r rhai sy'n ymwneud â darpariaeth AGA ym maes asesu myfyrwyr AGA yn eich barn chi? (*Awgrym, os bydd angen:* Beth am fathau eraill o asesu?)

7. A fu unrhyw ddatblygiad neu enghraifft o arloesi o fewn darpariaeth AGA a oedd yn gadarnhaol yn eich barn chi? Gallai hyn fod yn berthnasol i'r rhaglen gyfan, rhan benodol ohoni, neu ddim ond un neu fwy o unigolion.

8. A ydych wedi defnyddio neu wedi dod ar draws unrhyw raglenni neu lwyfannau ar-lein a oedd yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn helpu myfyrwyr AGA i ddysgu a datblygu ac er mwyn helpu i'w hasesu yn eich barn chi? (*Awgrym os bydd angen:* Os felly, sut a pham yr oeddent yn arbennig o ddefnyddiol?)

9. Pe bai cyfyngiadau yn sgil y pandemig yn parhau ar ryw ffurf am y 12 mis nesaf, a ddylai addysg athrawon newydd newid mewn rhyw ffordd bellach yn eich barn chi? Os felly, sut?

10. A yw ein profiadau o AGA yn ystod y pandemig yn cynnwys unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer y ffordd y byddwn yn parhau i feithrin, datblygu ac asesu *proffesiynoldeb* a/neu *safonau proffesiynol* ymhlith y rhai sy'n dod yn athrawon?

**Atodiad D1**

NODER: Nid oes cwestiynau ar goll yn Atodiad D1 na D2 gan fod yr arolwg wedi cael ei ddylunio fel arolwg canghennau lle nad yw pob cwestiwn yn berthnasol i bob cyfranogwr. Felly, mae'n bosibl y bydd yn ymddangos bod y rhifau allan o drefn.

**Prosiect asesu yn sgil y pandemig – Arolwg staff AGA**

C1

Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr arolwg byr hwn. Mae'n rhan o brosiect ymchwil cydweithredol a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar effaith COVID-19 ar addysg athrawon. Rydym wedi cwblhau tua 30 o gyfweliadau manwl ag amrywiaeth o bobl. Bydd yr arolwg byr hwn yn ein galluogi i greu darlun gwell o brofiadau ledled Cymru ac yn cyfrannu at ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru.

Rwy'n deall y canlynol:

- rwy'n cymryd rhan yn wirfoddol;
- caiff fy holl ymatebion eu gwneud yn ddienw ac ni fydd modd fy adnabod i na gwybod ble rwy'n gweithio na ble rwyf/roeddwn yn astudio
- caiff fy nata o'r arolwg eu storio'n ddiogel ar system a ddiogelir â chyfrinair.

Oherwydd natur ddienw arolwg ar-lein, ni fydd modd ichi dynnu eich data yn ôl yn nes ymlaen.

Drwy barhau â'r arolwg hwn, rydych yn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan yn yr astudiaeth ac i ddefnyddio data'n ddienw mewn erthyglau, adroddiadau a gweithgareddau lledaenu eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

C4 Pa un o'r canlynol fyddai'n eich disgrifio chi orau?

- ◯ Rwy'n fyfyriwr ar raglen addysg athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd
- ◯ Cwblheais raglen addysg athrawon yng Nghymru yn ystod haf 2020
- ◯ Rwy'n addysgwr athrawon mewn sefydliad addysg uwch
- ◯ Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwy'n ymwneud yn agos ag addysg athrawon (e.e. fel mentor, cydlynydd neu hyrwyddwr ymchwil AGA)

C5 Pa bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon rydych/roeddech yn ymwneud â hi fwyaf? (ticiwch un)

- ◯ CaBan (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer)
- ◯ Yr Athrofa: Partneriaeth Dysgu Proffesiynol (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin ac Abertawe)
- ◯ Partneriaeth Caerdydd
- ◯ Partneriaeth AGA Aberystwyth
- ◯ Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
- ◯ Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru
- ◯ Y Brifysgol Agored

C23 Nodwch natur y rhaglenni addysg athrawon rydych yn rhan ohonynt:

- ◯ Israddedig
- ◯ Ôl-radd

○ Y ddau

C24 Ar ba un o'r canlynol y mae eich ffocws?

○ Cynradd

○ Uwchradd

○ Y ddau

C25 Ar ôl i gyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 gael eu rhoi ar waith o Wanwyn 2020 ymlaen, a chan ystyried pob agwedd ar y rhaglen(ni) addysg athrawon, pa un o'r canlynol fyddai'n adlewyrchu eich safbwynt orau?

○ Bu effaith hynod andwyol ar ansawdd cyffredinol rhaglen(ni) addysg athrawon

○ Bu effaith andwyol ar ansawdd cyffredinol rhaglen(ni) addysg athrawon

○ Ni wnaeth ansawdd cyffredinol rhaglen(ni) addysg athrawon newid fawr ddim, fwy na thebyg, o gymharu â'r ffordd y byddai wedi bod fel arall

○ Roedd ansawdd cyffredinol rhaglen(ni) addysg athrawon yn well, fwy na thebyg, nag y byddai wedi bod fel arall

○ Roedd ansawdd cyffredinol rhaglen(ni) addysg athrawon yn llawer gwell nag y byddai wedi bod fel arall

C26 Ers Gwanwyn 2020, sut yr effeithiwyd ar gyfanswm yr amser a dreuliwyd gan fyfyrwyr ‘nodweddiadol’ ar leoliad yn yr ysgol (120 o ddiwrnodau a fwriadwyd yn wreiddiol)?  (Os ydych yn gweithio ar fwy nag un rhaglen, dewiswch yr un yr effeithiwyd arni fwyaf):

○ Ddim o gwbl

- ○ Treuliwyd llai o amser ar leoliad wyneb yn wyneb, ond digwyddodd o leiaf ¾
- ○ Treuliwyd llai o amser ar leoliad wyneb yn wyneb, ond digwyddodd o leiaf ½
- ○ Treuliwyd llai o amser ar leoliad wyneb yn wyneb, ond digwyddodd o leiaf ¼
- ○ Treuliwyd llai na ¼ yr amser ar leoliad wyneb yn wyneb a fwriadwyd yn wreiddiol
- ○ Ni threuliwyd dim amser ar leoliad wyneb yn wyneb

C28 A fyddech yn dweud bod unrhyw newid o'r fath i'r lleoliadau wedi effeithio ar baratoadau myfyrwyr i ddod yn athrawon?

- ○ (a) Byddwn, gydag effeithiau cadarnhaol yn bennaf;
- ○ (b) Byddwn, gydag effeithiau negyddol yn bennaf;
- ○ (c) Byddwn, gyda chymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol;
- ○ (d) Na fyddwn;
- ○ (e) Ddim yn berthnasol.

C29 Os oedd o leiaf ran o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar leoliad yn yr ysgol yn llai na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol, nodwch i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiad canlynol: 'Er bod yr amser a dreuliwyd ar leoliad yn yr ysgol wyneb yn wyneb yn llai, rwy'n teimlo bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi llwyddo i gymryd rhan yn llawn yn y gweithgarwch addysgu, dysgu ac asesu a oedd yn digwydd, gan gynnwys ar-lein.'

- ○ Cytuno'n gryf
- ○ Cytuno
- ○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C30 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiad canlynol:
‘Ar gyfartaledd, mae'r holl newidiadau diweddar i'r addysgu, dysgu ac asesu mewn ysgolion wedi rhoi cyfres gyfoethog o brofiadau i'r myfyrwyr ac wedi ychwanegu at eu hyder fel athrawon proffesiynol’

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C31 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiad canlynol:
‘Ar y cyfan rwy'n teimlo bod llawer o fyfyrwyr heb gael profiadau hanfodol yn yr ysgol a fyddai wedi cyfrannu at eu sgiliau a/neu hyder fel athro fel arfer’

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C32 O gymharu â charfanau blaenorol, a ydych yn credu bod myfyrwyr yng ngharfanau'r pandemig, ar gyfartaledd, mor hyderus a chymwys i addysgu ag y byddent wedi bod ar yr adeg hon mewn blynyddoedd blaenorol?

◯ Ydw, yn gyfan gwbl

◯ Ydw, yn rhannol

◯ Nac ydw

◯ Ddim yn gwybod

C33 O gymharu â charfanau blaenorol, a ydych yn credu bod myfyrwyr, ar gyfartaledd, mor hyderus a chymwys yn eu defnydd o asesu ffurfiannol a chrynodol mewn ysgolion ag y byddent wedi bod ar yr adeg hon mewn blynyddoedd blaenorol?

◯ Ydw, yn gyfan gwbl

◯ Ydw, yn rhannol

◯ Nac ydw

◯ Ddim yn gwybod

C34 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiad canlynol:
‘Mae newidiadau yn sgil COVID-19 i raglenni AGA wedi ei gwneud (neu yn ei gwneud) yn anos inni ddwyn tystiolaeth

ynghyd i ddangos bod myfyrwyr ‘nodweddiadol’ wedi cyrraedd (neu eu bod yn cyrraedd) y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth’

◯ Cytuno'n gryf

◯ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C35 Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr 'nodweddiadol' yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod deilliannau terfynol y cymwysterau:

○ Yr un mor ddilys â deilliannau carfanau blaenorol, fwy na thebyg

○ Yn llai dilys na deilliannau carfanau blaenorol, fwy na thebyg

○ Yn fwy dilys na deilliannau carfanau blaenorol, fwy na thebyg

C36 Os oes bylchau sylweddol ym mhrofiad rhai athrawon newydd o ganlyniad i effaith COVID-19 ar addysg athrawon, pwy sy'n gyfrifol am weithio gyda'r myfyrwyr hyn i'w cefnogi yn y dyfodol agos, yn eich barn chi?(cliciwch a llusgwch yr eitemau i fyny ac i lawr er mwyn eu gosod yn nhrefn cyfrifoldeb)

______ Yr Ysgolion sy'n Cyflogi
______ Darparwr / mentor allanol
______ Asiantaethau cyflenwi
______ Consortia
______ Partneriaethau AGA
______ Llywodraeth Cymru

C37 Sylw Dewisol: Os oes unrhyw beth arall sy'n arbennig o bwysig, yn eich barn chi, am effaith newidiadau yn sgil COVID-19 ar raglenni addysg athrawon, disgrifiwch ef mewn brawddeg neu ddwy isod. Yn benodol, efallai yr hoffech wneud sylw ar ystod y profiadau a gafodd myfyrwyr a'u cynnydd yn unol â hynny, neu eich profiad chi o wahanol raglenni, h.y.

Baglor yn y Celfyddydau (BA), Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a phartneriaethau eraill rydych yn gweithio gyda nhw (os ydynt yn berthnasol):

**Atodiad D2**

**Prosiect asesu yn sgil y pandemig – Arolwg myfyrwyr /ANGau**

---

C1

Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr arolwg byr hwn. Mae'n rhan o brosiect ymchwil cydweithredol a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar effaith COVID-19 ar addysg athrawon. Rydym wedi cwblhau tua 30 o gyfweliadau manwl ag amrywiaeth o bobl. Bydd yr arolwg byr hwn yn ein galluogi i greu darlun gwell o brofiadau ledled Cymru ac yn cyfrannu at ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru.

Rwy'n deall y canlynol:

· rwy'n cymryd rhan yn wirfoddol;

· caiff fy holl ymatebion eu gwneud yn ddienw ac ni fydd modd fy adnabod i na gwybod ble rwy'n gweithio na ble rwyf/roeddwn yn astudio

· caiff fy nata o'r arolwg eu storio'n ddiogel ar system a ddiogelir â chyfrinair.

Oherwydd natur ddienw arolwg ar-lein, ni fydd modd ichi dynnu eich data yn ôl yn nes ymlaen.

Drwy barhau â'r arolwg hwn, rydych yn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan yn yr astudiaeth ac i ddefnyddio data'n ddienw mewn erthyglau, adroddiadau a gweithgareddau lledaenu eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

C4 Pa un o'r canlynol fyddai'n eich disgrifio chi orau?

- ○ Rwy'n fyfyriwr ar raglen addysg athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd
- ○ Cwblheais raglen addysg athrawon yng Nghymru yn ystod haf 2020
- ○ Rwy'n addysgwr athrawon mewn sefydliad addysg uwch
- ○ Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwy'n ymwneud yn agos ag addysg athrawon (e.e. fel mentor, cydlynydd neu hyrwyddwr ymchwil AGA)

C5 Pa bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon rydych/roeddech yn ymwneud â hi fwyaf? (ticiwch un)

- ○ CaBan (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer)
- ○ Yr Athrofa: Partneriaeth Dysgu Proffesiynol (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin ac Abertawe)
- ○ Partneriaeth Caerdydd
- ○ Partneriaeth AGA Aberystwyth
- ○ Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
- ○ Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru
- ○ Y Brifysgol Agored

C6 Pa un o'r canlynol yw/oedd eich rhaglen addysg athrawon bresennol neu gyfredol?

- ○ BA(Anrh) / BEd(Anrh)
- ○ TAR

C7 Ar gyfer pa un o'r canlynol rydych/roeddech yn paratoi?

- ○ Cynradd
- ○ Uwchradd

C8 Ar ôl i gyfyngiadau neu addasiadau yn sgil COVID-19 gael eu rhoi ar waith o Wanwyn 2020 ymlaen, a chan ystyried pob agwedd ar eich rhaglen addysg athrawon, pa un o'r canlynol fyddai'n adlewyrchu eich safbwynt orau?

- ○ Bu effaith hynod andwyol ar ansawdd cyffredinol fy rhaglen addysg athrawon
- ○ Bu effaith andwyol ar ansawdd cyffredinol fy rhaglen addysg athrawon
- ○ Ni wnaeth ansawdd cyffredinol fy rhaglen addysg athrawon newid fawr ddim, fwy na thebyg, o gymharu â'r ffordd y byddai wedi bod fel arall
- ○ Roedd ansawdd cyffredinol fy rhaglen addysg athrawon yn well nag y byddai wedi bod fel arall
- ○ Roedd ansawdd cyffredinol fy rhaglen addysg athrawon yn llawer gwell nag y byddai wedi bod fel arall

C9 Sut yr effeithiwyd ar gyfanswm yr amser a dreuliwyd gennych ar leoliad yn yr ysgol (120 o ddiwrnodau a fwriadwyd yn wreiddiol)? (Ticiwch un o'r categorïau canlynol)

- ○ Ddim o gwbl
- ○ Treuliais lai o amser ar leoliad wyneb yn wyneb, ond digwyddodd o leiaf ¾
- ○ Treuliais lai o amser ar leoliad wyneb yn wyneb, ond digwyddodd o leiaf ½
- ○ Treuliais lai o amser ar leoliad wyneb yn wyneb, ond digwyddodd o leiaf ¼
- ○ Treuliais lai na ¼ yr amser ar leoliad wyneb yn wyneb a fwriadwyd yn wreiddiol

○ Ni threuliais ddim amser ar leoliad wyneb yn wyneb.

C10 A fyddech yn dweud bod unrhyw newid o'r fath i'ch lleoliadau wedi effeithio ar eich paratoadau i ddod yn athro?

○ Byddwn, gydag effeithiau cadarnhaol yn bennaf;

○ Byddwn, gydag effeithiau negyddol yn bennaf;

○ Byddwn, gyda chymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol;

○ Na fyddwn;

○ Ddim yn berthnasol

C11 Os oedd o leiaf ran o gyfanswm yr amser a dreuliwyd gennych ar leoliad yn yr ysgol yn fyrrach nag a fwriadwyd yn wreiddiol, nodwch i ba raddau y byddech yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad canlynol:

‘Er bod yr amser a dreuliwyd gennyf ar leoliad yn yr ysgol wyneb yn wyneb yn llai, rwy'n teimlo

fy mod wedi llwyddo i gymryd rhan yn llawn yn y gweithgarwch addysgu, dysgu ac asesu a oedd yn digwydd, gan gynnwys ar-lein’.

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C12 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad canlynol:
‘Mae'r holl newidiadau diweddar i'r addysgu, dysgu ac asesu mewn ysgolion wedi rhoi cyfres gyfoethog o brofiadau imi ac wedi ychwanegu at fy hyder fel athro proffesiynol’

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C13 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad canlynol:
‘Rwy'n teimlo na chefais brofiadau hanfodol yn yr ysgol a fyddai wedi cyfrannu at fy sgiliau a/neu hyder fel athro fel arfer’

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C14 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad canlynol:
Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n hyderus ac yn gymwys i gefnogi dysgwyr yn y grŵp oedran y cefais fy hyfforddi i'w addysgu.

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C15 Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gosodiad canlynol: Rwy'n teimlo'n hyderus ac yn gymwys i gefnogi dysgwyr yn y grŵp oedran y cefais fy hyfforddi i'w addysgu, yn benodol o ran fy rolau mewn perthynas ag asesu dysgwyr

○ Cytuno'n gryf

○ Cytuno

○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

○ Anghytuno

○ Anghytuno'n gryf

C17 Yn gyffredinol, a ydych yn teimlo eich bod wedi cael cymorth sydd wedi eich galluogi i ddwyn tystiolaeth ynghyd i ddangos eich bod wedi cyrraedd y safonau er gwaethaf newidiadau yn sgil COVID-19 i'ch rhaglen?

○ Ydw

○ Ydw, yn rhannol

○ Nac ydw

C18 Pa un o'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yw/oedd yr anoddaf i chi ddangos tystiolaeth ohoni?

○ Addysgeg;

○ Cydweithio;

○ Arweinyddiaeth;

○ Arloesi;

○ Dysgu Proffesiynol

C19 Pa un o'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yw/oedd yr hawsaf i chi ddangos tystiolaeth ohoni?

○ Addysgeg;

○ Cydweithio;

○ Arweinyddiaeth;

○ Arloesi;

○ Dysgu Proffesiynol

C20 Gan ystyried yr holl ffyrdd y caiff/cafodd athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn ystod y rhaglen, a fyddech yn dweud, yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen ond yr effeithiodd addasiadau yn sgil COVID-19 arnynt, eich bod o'r farn bod eu cymwysterau addysgu:

○ Yr un mor ddilys â'r rhai sydd gan garfanau blaenorol, fwy na thebyg

○ Yn llai dilys na'r rhai sydd gan garfanau blaenorol, fwy na thebyg

○ Yn fwy dilys na'r rhai sydd gan garfanau blaenorol, fwy na thebyg

C21 Os oes bylchau sylweddol ym mhrofiad rhai athrawon newydd o ganlyniad i effaith COVID-19 ar addysg athrawon, pwy sy'n gyfrifol am weithio gydag athrawon newydd i'w cefnogi yn y dyfodol agos, yn eich barn chi?(cliciwch a llusgwch yr eitemau i fyny ac i lawr er mwyn eu gosod yn nhrefn cyfrifoldeb)

______ Yr Ysgolion sy'n Cyflogi
______ Darparwr / mentor allanol
______ Asiantaethau cyflenwi
______ Consortia
______ Partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon
______ Llywodraeth Cymru

C22 Sylw Dewisol: Os oes unrhyw beth arall sy'n arbennig o bwysig, yn eich barn chi, am effaith newidiadau yn sgil COVID-19 ar raglenni addysg athrawon, neu os hoffech ychwanegu rhywbeth mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn uchod, disgrifiwch ef mewn brawddeg neu ddwy isod:

________________________________________________________________

**Atodiad E1**

Participant Information Sheet

**An invitation for you to take part in research on pandemic-related assessment experiences and innovations: implications for teacher education**

**1. Who is doing the research?**

This research is being undertaken by a team of researchers from Cardiff Metropolitan University and Cardiff University, it is funded by Welsh Government. The work is being led by Professor David James (Jamesdr2@cardiff.ac.uk).

**2. Why is it being done?**

This is a Welsh Government-funded research project on **the impact of the COVID-19 Pandemic on the Future Provision of ITE: how assessment can best be adapted to meet the needs of changed learning and teaching contexts.**

Education-related responses to the COVID-19 pandemic have had to be conceived and implemented at speed across the UK as in many other settings. Some of these have taken the form of trying to preserve the routines and interactions that were quite suddenly disrupted, whilst others have been less ambitious (though perhaps more realistic), seeking to maintain more focused forms of contact, engagement and activity. In Wales such responses have also taken place just as key elements of major educational reform have been introduced, such as a new curriculum, re-designed teacher education, reconceived professional standards and a National Approach to Professional Learning (Welsh

Government, 2020), amongst others. Government guidance (e.g., https://gov.wales/examinations-and-assessments-coronavirus#section-38836) has closely framed adjustment to certain assessments with a high profile (e.g., GCSEs and A levels). These however constitute a small fraction of the total assessment activity across primary and secondary schools. **The main concern of this research project is to understand challenges, responses and adjustments to the wider cross-section of summative, formative and diagnostic assessment activity in Welsh schools, and how ITE provision and practice needs to adapt.**

**3. Why have I been invited to take part?**

You have been invited to take part because you are a key stakeholder within the education sector in Wales.

**4. Will my taking part in this research project be kept confidential?**

All information collected from you during the research project will be kept confidential and any personal information you provide will be managed in accordance with data protection legislation.

**5. What will happen to my Personal Data?**

The procedures for handling, processing, storing and destroying the data you provide will be compliant with data protection legislation including the General Data Protection Regulation (GDPR) and Data Protection Act 2018. All information which is collected during the course of the research will be kept strictly confidential.

Cardiff University is the Data Controller and is committed to respecting and protecting your personal data in accordance with your expectations and Data Protection legislation. Further information about Data Protection, including:

- your rights.
- the legal basis under which Cardiff University processes your personal data for research.
- Cardiff University's Data Protection Policy.
- how to contact the Cardiff University Data Protection Officer.
- how to contact the Information Commissioner's Office.

can be found at https://www.cardiff.ac.uk/public-information/policies-and-procedures/data-protection

## 6. What happens to the data at the end of the research project?

The data from this research project will be analysed by the research team. All data will be stored securely on the Cardiff University secure server for up to 5 years as per the General Data Protection Regulation (GDPR). The data will not be made available outside of the research team.

## 7. What will happen to the results of the research project?

The results of the study will be reported back to Welsh Government in an internal written report. Some of the main outcomes of this research are also likely to be made available in academic journal articles which are accessible to the public, or in conference presentations. You or your organisation will not be identified in any report or publication and any quotes used within the reporting of the results will be anonymised and any potential identifying information will be removed.

## 8. What if there is a problem?

If you have a concern about any aspect of this study, you should ask to speak with the researchers who will do their best to answer your questions (Jamesdr2@cardiff.ac.uk) If you remain unhappy and wish to complain formally to someone outside of the study team you should contact Cardiff University's School of Social Science Ethics Officer Professor Alison Bullock (socsi-ethics@cardiff.ac.uk). Any complaint about the way you have been dealt with during the study or any possible harm you might suffer will be addressed.

## 9. Who has reviewed this research project?

This study was given a favourable ethical opinion on 20th October 2020 by the Cardiff University School of Social Sciences Research Ethics Committee 02 (REF: SREC/3875).

## 10. Further information and contact details

If you want further information, have any questions or you would like to take part in an interview you can email (morgana24@cardiff.ac.uk) who provides general research assistance for this study.

**Thank you for considering taking part in this research project.**

**Atodiad E2**

Cardiff Partnership for Initial Teacher Education | Partneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon

## Taflen Wybodaeth Cyfranogwr

**Gwahoddiad i gymryd rhan mewn ymchwil ar brofiadau asesu ac arloesi sy'n gysylltiedig â phandemig: yr oblygiadau ar gyfer addysg i athrawon**

### 1. Pwy sy'n cynnal yr ymchwil?

Caiff yr ymchwil yma ei gynnal gan dîm o ymchwilwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yr Athro David James (Jamesdr2@cardiff.ac.uk) sy'n arwain y gwaith.

### 2. Pam mae hyn yn cael ei wneud?

Project ymchwil a ariannir gan Lywodraeth Cymru yw hon ar **effaith Pandemig COVID-19 ar Ddarpariaeth AGA yn y Dyfodol: sut gall asesiad gael ei addasu er gwell i ddiwallu anghenion dysgu sydd wedi newid a chyd-destunau dysgu.**

Mae ymatebion mewn perthynas ag addysg i bandemig COVID-19 wedi gorfod cael eu dychmygu a'u gweithredu yn gyflym ar draws y Deyrnas Gyfunol yn debyg i sefyllfaoedd eraill. Cymerodd rhai o'r rhain ffurf o geisio cadw'r un drefn a rhyngweithiadau a amharwyd arnynt mor sydyn. Ceisiodd rhai eraill i fod yn llai uchelgeisiol (er efallai'n fwy realistig), gan geisio cadw at ffurfiau mwy canolog o gyswllt, ymgysylltiad a gweithgarwch. Yng Nghymru, mae ymatebion o'r math hefyd wedi digwydd wrth i elfennau allweddol diwygiadau addysgol mawr gael eu cyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys y cwricwlwm newydd, addysg i athrawon

wedi ei ail-ddylunio, safonau proffesiynol; wedi eu hail-gynllunio ac Ymagwedd Genedlaethol tuag at Ddysgu Proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2020), ymhlith pethau eraill. Mae cyfarwyddyd y Llywodraeth (e.e. <https://gov.wales/examinations-and-assessments-coronavirus#section-38836>) wedi fframio addasiad yn agos at asesiadau arbennig gyda phroffil uchel (e.e. TGAU a Lefelau A). Fodd bynnag, canran fach iawn o’r holl weithgarwch asesiad ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yw hwn. **Prif nod y project ymchwil yma yw deall heriau. Ymatebion ac addasiadau i draws-doriad mwy eang o asesiad gweithgarwch adolygol, ffurfiannol a diagnostig yn ysgolion Cymru, a sut mae angen i ddarpariaeth ac ymarfer AGA addasu.**

**3. Pam ges i fy ngwahodd i gymryd rhan?**

Fe'ch gwahoddwyd i gymryd rhan oherwydd eich bod yn rhanddeiliad allweddol o fewn y sector addysg yng Nghymru.

**4. Beth yw peryglon posib cymryd rhan ?**

Nid ydym yn rhagweld unrhyw beryglon wrth gymryd rhan yn y cyfweliad . Bydd eich ymatebion yn gyfrinachol a chânt eu defnyddio'n unig gan y tîm ymchwil i hysbysu a diweddaru'r canfyddiadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru ac mewn cyhoeddiadau mwy eang.

**5. Beth fydd yn digwydd i fy Nata Personol?**

Bydd y gweithdrefnau ar gyfer trin, prosesu, cadw a dinistrio’r data fyddwch chi’n ei roi yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth diogelu data gan gynnwys y Rheoleiddiad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a’r Ddeddf Diogelu Data 2018. Caiff yr holl wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymchwil ei gadw’n hollol gyfrinachol.

Prifysgol Caerdydd yw’r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo at barchu a gwarchod eich data personol yn unol â’ch disgwyliadau a Deddfwriaeth Diogelu Data. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â Diogelu Data, gan gynnwys:

- Eich hawliau.
- Y sail gyfreithiol mae Prifysgol Caerdydd yn prosesu eich data personol ar gyfer eich ymchwil.
- Polisi Diogelu Data Prifysgol Caerdydd.
- Sut mae dod i gyswllt â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Caerdydd.
- Sut mae dod i gyswllt â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

ar https://www.cardiff.ac.uk/public-information/policies-and-procedures/data-protection

**6. Beth sy'n digwydd i'r data ar ddiwedd y project ymchwil?**

Caiff y data o'r project ymchwil hwn ei ddadansoddi gan y tîm ymchwil. Bydd yr holl ddata'n cael ei storio'n ddiogel ar weinydd diogel Prifysgol Caerdydd am hyd at 5 mlynedd yn unol â'r Rheoleiddiad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Ni fydd y data hwn ar gael i unrhyw un tu allan i'r tîm ymchwil.

**7. Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r project ymchwil hwn?**

Caiff canlyniadau'r astudiaeth eu hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru mewn adroddiad ysgrifenedig mewnol. Bydd rhai o brif ddeilliannau'r ymchwil yma yn debygol o fod ar gael mewn erthyglau cyfnodolion academaidd sydd ar gael ac yn hygyrch i'r cyhoedd, neu mewn cyflwyniadau cynadleddau. Ni chewch chithau na'ch sefydliad eu henwi mewn unrhyw adroddiad neu gyhoeddiad a bydd unrhyw ddyfyniadau a ddefnyddir o fewn yr adroddiad yn cael eu dienwi ac unrhyw wybodaeth a allai olygu eich bod yn cael eich adnabod ei ddileu.

**8. Beth os oes yna broblem?**

Os oes gyda chi bryder ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r astudiaeth hon, dylech ofyn am gael sgwrs gyda'r ymchwilwyr fydd yn gwneud eu gorau i ateb eich cwestiynau (Jamesdr2@cardiff.ac.uk). Os digwydd eich bod yn parhau i fod yn anhapus ac yn dymuno cwyno' ffurfiol i rywun tu allan i'r tîm astudio, dylech ddod i gyswllt â Swyddog Moeseg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, Yr Athro Alison Bullock (socsi-ethics@cardiff.ac.uk). Caiff unrhyw gŵyn ynglŷn â'r ffordd y cawsoch eich trin yn ystod yr astudiaeth neu unrhyw niwed posib a allwch fod wedi ei ddioddef ei gyfeirio ato.

**9. Pwy sydd wedi adolygu'r project ymchwil yma?**

Cafodd yr astudiaeth yma farn foesegol ffafriol ar Hydref 20, 2020 gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd 02 (REF: SREC/3875).

**10. Gwybodaeth Bellach a Manylion Cyswllt**

Os hoffech wybodaeth bellach, neu od gyda chi unrhyw gwestiynau neu yr hoffech gymryd rhan mewn cyfweliad, gallwch e-hebu (morgana24@cardiff.ac.uk Dr Alexandra Morgan, sydd yn cynnig cymorth ymchwil cyffredinol ar gyfer yr astudiaeth yma.

**Diolch am ystyried cymryd rhan yn y project ymchwil yma.**